

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD LLUN 17 HYDREF 2016 10.00 o'r gloch		MONDAY 17 OCTOBER 2016 10.00 am	
SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI		COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI	
Swyddog Pwyllgor	Mairwen Hughes 01248 752516	Committee Officer	

Annibynnol / Independent

R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

Plaid Lafur/Labour Party

J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Medi 2016.

4 **COFNODION ER GWYBODAETH** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2016.

5 **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 15 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 **CYNLLUN STRATEGOL CYLLIDEB GYFALAF** (Tudalennau 29 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR** (Tudalennau 43 - 48)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **FFOADURIAID SYRIA** (Tudalennau 49 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

9 **LLAWR Y DREF, LLANGFNI – ACHOS BUSNES** (Tudalennau 55 - 66)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

10 **PROTOCOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER Y GYMUNED SIPSIWN A THEITHWYR** (Tudalennau 67 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

11 PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL – DIOGELU CORFFORAETHOL
(Tudalennau 81 - 92)

Cyflwyno'r adroddiad terfynol gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

12 PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL – GOSOD TAI AWDURDOD
LLEOL (TAI GWAG) (Tudalennau 93 - 106)

Cyflwyno'r adroddiad terfynol gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2016

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Richard Dew, Aled Morris Jones, H. Eifion Jones,
Kenneth Hughes, Alwyn Rowlands.

WRTH LAW:

Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella
Gwasanaeth)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 14)
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitemau 15 & 16)
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 18)
Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitemau
7 & 8)
Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Tai)(DR) (ar gyfer eitem 19)
Rheolwr Gweithrediadau (Safonau Masnach a Thrwyddedu) (SH) (ar
gyfer eitem 17)
Rheolwr Polisi a Strategaeth (CWO)(ar gyfer eitem 6)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

YMDDIHEURIADAU:

Dim

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr John Griffith, R. Meirion Jones, Victor Hughes, Llinos
Medi Huws.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd H. Eifion Jones ddatganiad o ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu
mewn perthynas ag eitem 15 ar y rhaglen.

2. MATERION BRYN A ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

3. COFNODION

Cyflwynwyd, ar gyfer eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r
Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf,
2016.

**Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith a
gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf.**

4. COFNODION ER GWYBODAETH

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith, gofnodion drafft Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2016.

Penderfynwyd nodi er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2016.

5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a oedd yn cynnwys blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Hydref 2016 i Mai 2017, ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw at y newidiadau i'r blaen raglen waith ers y cyfnod adrodd diwethaf fel a ganlyn -

- Eitemau newydd i'r blaen raglen Waith:
 - Eitem 2 (Premiymau'r Dreth Gyngor) ac eitem 5 (Protocol Gogledd Cymru ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr) sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Hydref, 2016.
 - Eitem 8 (Sylfaen y Dreth Gyngor), eitem 9 (Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2017/18) ac eitem 13 (Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Tai) i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd, 2016.
 - Eitem 16 (Garejys Tai Cyngor) i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr.
 - Eitem 19 (Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr, 2016.
 - Eitem 25 (Polisi Gostyngiadau Dewisol Trethi Busnes ar gyfer 2017/18) ac eitem 30 (Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllideb Ddrafft 2017/18) i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror, 2017.
 - Eitem 33 (Polisi Taliadau Tai Dewisol ar gyfer 2017/18) i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth, 2017.
- Eitemau ychwanegol nad ydynt ar Flaen Raglen Waith fel y'i cyflwynwyd:
 - Adroddiad gan y Panel Canlyniad Sgriwtini mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol ac adroddiad gan y Panel Canlyniad Sgriwtini mewn perthynas â Gosod Tai Awdurdodau Lleol (Tai Gwag) sydd i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Hydref, 2016.
- Llithriant ar y Blaen Raglen Waith:
 - Eitem 4 (Llawr y Dref, Llangefni - Achos Busnes) wedi'i ail-drefnu i'w hystyried gan y Pwyllgor ar 17 Hydref, 2016 yn lle 19 Medi.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini mewn perthynas ag unrhyw eitemau a allai fod angen eu sgriwtineiddio cyn gwneud penderfyniad.

Penderfynwyd cadarnhau blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith fel y'i diweddarwyd am y cyfnod rhwng Hydref 2016 a Mai 2017 yn amodol ar y ddau newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.

6. STRATEGAETH IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd y Strategaeth Iaith Ddrafft ar gyfer 2016 i 2021 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith cyn ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor Sir.

Cafwyd crynodeb o'r ddeddfwriaeth a'r cyd-destun polisi a thynnwyd sylw at y ffaith bod Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn cyd-fynd â'r Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer 2016 i 2021 ac y bydd ei gweithrediad yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae'r Fforwm Iaith Strategol wedi cyfrannu'n sylweddol at lunio'r strategaeth o ran adnabod blaenoriaethau ac mae'r strategaeth wedi'i rhannu'n dri maes blaenoriaeth sef Plant a Phobl Ifanc/Y Teulu; y Gweithle, Gwasanaethau Iaith

Gymraeg ac Isadeiledd a'r Gymuned. Dywedodd y Cadeirydd fod llawer o waith golygu'r Strategaeth bellach wedi'i gwblhau ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg (ddrafft) ar gyfer 2016-2021 ac yn rhoi'r awdurdod i'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio i gwblhau unrhyw waith golygu pellach y bydd angen ei wneud efallai ar y strategaeth cyn ei chyflwyno i'r Cyngor.

7. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2016-17

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2016/17 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Nododd yr Aelod Portffolio bod cerdyn sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2016/17 yn dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt. Eleni, rhoddir mwy o bwyslais ar berfformiad gan fod gwella perfformiad yn dylanwadu ar feysydd eraill a bydd sylw penodol yn cael ei roi i berfformiad sy'n berthnasol i berfformiad awdurdodau lleol eraill. I'r diben hwn, bydd mwy o sgrwtini ar ddangosyddion cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar feysydd sy'n ymddangos yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Er y gwelliant rhannol mewn ffigyrau salwch, bydd y gwaith o reoli a lleihau lefelau absenoldeb salwch yn parhau i gael eu monitro fel rhan o'r ymdrech barhaus i wella ffigyrau absenoldebau salwch er mwyn bodloni'r targed corfforaethol o 10 niwrnod ar gyfer pob swydd amser llawn (FTE) ac i fynd i'r afael ag achosion salwch hirdymor penodol.

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Corfforaethol a'r Rheolwr Rhaglen bod y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol wrth sgrwtineiddio'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 1 yn ei gyfarfod ar 12 Medi, 2016 wedi nodi. mewn perthynas ag 1.3.1. y dylai dangosyddion lle mae'r perfformiad wedi llithro ynghyd â lle mae angen i berfformiad wella, gael eu hamlygu; ei fod o'r farn na ddylai argymhelliaid 1.3.2 (targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl wasanaethau yn cael eu derbyn yn seiliedig ar ddata hanesyddol), gael ei weithredu hyd nes bydd gwaith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgrwtini; ac wrth dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir, penderfynodd y Pwyllgor nad oedd angen i'r Penaethiaid Gwasanaeth fynychu'r cyfarfod er mwyn rhoi cyfrif am berfformiad oherwydd ystyriwyd ei bod yn rhy fuan yn y flwyddyn ariannol i unrhyw batrymau penodol ddod i'r amlwg. Fodd bynnag, penderfynodd y Pwyllgor y dylid gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant fynychu ar ddiwedd cyfnod adrodd yr ail chwarter er mwyn sgrwtineiddio perfformiad yn y maes hwn.

Cafwyd mwy o fanylion gan y Cynghorydd R.Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol, am y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod dyddiedig 12 Medi a gofynnodd i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol cyn iddo gael ei adrodd yn ôl arno i'r Pwyllgor Gwaith a bod argymhellion y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol, o'i gyfarfod 12 Medi, yn cael eu cyflwyno yn llawn i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau'n cael ei hystyried fel y gellir cyflwyno adborth y Pwyllgor Sgrwtini i'r Pwyllgor Gwaith yn ysgrifenedig yn y dyfodol. Yn y cyfamser, ystyriodd y Pwyllgor Gwaith sylwadau'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn llawn yn dilyn ei gyfarfod ar 12 Medi.

Penderfynwyd:

- **nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y nodir ym mharagraffau 1.3.1 i 1.3.5 yr adroddiad.**
- **Nodi'r mesurau lliniaru a amlinellir yn y paragraffau hynny.**

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol, yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2015/16, i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ystyriaeth cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir llawn.

Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith gan y Rheolwr Rhaglen a Thrawsnewid Corfforaethol fod y gwaith pellach sydd angen ei wneud ar yr Adroddiad Perfformiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn cynnwys dadansoddi data cymharol gydag awdurdodau eraill, fodd bynnag, dim ond yn ystod y mis hwn y rhyddhawyd yr wybodaeth.

Penderfynwyd bod y fersiwn derfynol o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 yn cael ei chyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ym mis Hydref a'i bod yn cael ei chwblhau i'r perwyl hwnnw gan y Swyddogion mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio.

9. CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2017/18 I 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canol am 2017/18 i 2019/20 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Nododd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yn ddadansoddiad clir a phroffesiynol o'r sefyllfa ariannol debygol yn y tymor canol a'i fod yn gosod strategaeth cyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf ynghyd â'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cario drosodd i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. O ran y bwlch cyllidol rhwng y gyllideb ddigyfnewid (fel yn Nhabl 6 yr adroddiad), a'r rhagamcan o'r arian a fydd ar gael (fel yn Nhabl 8 yr adroddiad) rhagwelir y bydd angen arbedion o tua £8.13 miliwn dros y 3 blynedd nesaf yn y cyllidebau gwasanaeth, sy'n dod i gyfanswm o £104.5 miliwn (cyllideb 2016/17) sydd gyfwerth ag arbedion o 7.8% dros dair blynedd (Tabl 9 yr adroddiad). Rhagwelir y bydd y sefyllfa yn dod yn gliriach unwaith y bydd setliad llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 sylwadau'r Aelod Portffolio gan ddweud ei bod hi'n anodd rhagweld y sefyllfa ariannol dros y tair blynedd nesaf gydag unrhyw sicrwydd, fodd bynnag, gobeithir y bydd cyhoeddiad y setliad llywodraeth leol cyn hir yn cadarnhau'r sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac yn darparu arweiniad ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Tra bydd y CATC yn cael ei adolygu o ganlyniad i'r wybodaeth newydd a geir, mae'n dangos y sefyllfa y mae'r Awdurdod yn ei rhagweld ar gyfer y tymor canol ar hyn o bryd, y rhagdybiaethau a wnaed a'r sail drostynt.

Penderfynwyd nodi cynnwys y cynllun a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed.

10. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2016/17 - CHWARTER 1

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer chwarter 1 blwyddyn ariannol 2016/17 ynghyd â chrynodeb o'r sefyllfa arfaethedig ar gyfer y flwyddyn gyfan, i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ystyriaeth.

Nododd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa ariannol gyffredinol arfaethedig ar gyfer 2016/17, yn cynnwys y gronfa cyllid corfforaethol a'r Dreth Gyngor ar ddiwedd Chwarter 1, yn orwariant o £366k sy'n 0.3% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17. Fodd bynnag, er bod yr adroddiad yn dangos gorwariant mewn rhai meysydd fe'i ystyrir yn rhy fuan yn y flwyddyn ariannol i ddod i unrhyw ganlyniadau pendant mewn perthynas â chanlyniadau gwariant ar y gwasanaeth ac mae profiad yn dangos y gall y sefyllfa newid erbyn diwedd yr ail chwarter.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, fod y Pwyllgor wrth ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 12 Medi, 2016 wedi codi pwyntiau i gael eglurhad penodol mewn perthynas ag incwm parcio ond daethpwyd i gasgliad ei bod hi'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau penodol o'r data a gyflwynwyd ar hyn o bryd.

Penderfynwyd:

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol hyd yma**
- **Bod unrhyw incwm dros ben o ddatblygiadau cynllunio mawr yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn cyllido cefnogaeth yr awdurdod i ddatblygiadau mawr yn y dyfodol**

11. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2016/17 - CHWARTER 1

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2016/17 er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Nododd yr Aelod Portffolio Cyllid bod yr adroddiad yn darparu adlewyrchiad teg o sefyllfa'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 1 ac yn ychwanegol, ei fod yn amlygu newid yn y cynllun cyfalaf mewn perthynas â rheoli gwastraff, rhywbeth y gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ei gylch.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor, wrth ystyried adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer Chwarter 1, yn ei gyfarfod ar 12 Medi, wedi nodi'r risgiau cysylltiedig â'r cynlluniau grant cyfalaf a amlinellwyd yn yr adroddiad a hefyd wedi codi'r mater o ddod o hyd i ffordd arall o gael Telehandler newydd ar gyfer yr Adain Rheoli Gwastraff heb orfod prynu peiriant newydd e.e. drwy brydles. Nododd y Pwyllgor ymhellach y byddai'n beth doeth i'r Awdurdod fod yn ymwybodol ynghylch pryd y bydd ei asedau yn dod i ddiwedd eu hoes er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer hynny yn y ffordd briodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y telehandler wedi cyflawni miloedd o oriau o wasanaeth a bod costau cynnal a chadw'r peiriant a llogi peiriant arall pan fydd y telehandler presennol wedi torri bellach yn eithafol. Cadarnhaodd y Cadeirydd hefyd y cafwyd cais am restr o asedau'r Cyngor a phryd mae hi'n debygol y byddant angen eu hadnewyddu.

Penderfynwyd:

- **Nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbynebon yn erbyn y gyllideb gyfalaf**
- **Cymeradwyo'r newid yn y prosiect cyfalaf ar gyfer y cynllun rheoli gwastraff er mwyn prynu 'telehandler' a phont bwyso newydd**

12. ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, a oedd yn cynnwys adolygiad o weithgareddau Rheoli Trysorlys yn 2015/16 i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ystyriaeth cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

Nododd yr aelod portffolio cyllid fod yr adroddiad Adolygiad Rheoli Trysorlys wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2016 ac fe'i derbyniwyd gan y Pwyllgor heb unrhyw sylwadau ychwanegol.

Penderfynwyd:

- **Nodi y bydd y ffigyrau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn;**
- **Nodi'r dangosyddion pwylllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2015/16 yn yr adroddiad hwn;**
- **Nodi'r adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2015/16 a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn heb unrhyw sylwadau.**

13. ADRODDIAD TERFYNOL Y PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: RHEOLI DYLEDION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y cynnydd a wnaed er mwyn gweithredu argymhellion y Panel Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ystyriaeth.

Yn unol â'r cais, rhoddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Panel Canlyniad Sgriwtini a gafodd y dasg o adolygu'r modd y rheolir dyledion o fewn yr Awdurdod. Cododd yr angen am adolygiad o bryder y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y lefel o ddyledion a nifer yr anfonebau a godwyd am wasanaethau a ddarperir pan ddylai'r Cyngor fod yn gofyn am daliadau ymlaen llaw am ddarparu'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y Swyddog bod lefel dyled yr Awdurdod yn lleihau a bod y broses o newid dulliau casglu incwm er mwyn gallu cynnig ffyrdd amgen i gwsmeriaid o dalu wedi dechrau, fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad. Mae polisi Rheoli Dyledion Drafft wedi bod yn ei le ers peth amser ond mae angen ei gysylltu â Strategaeth Taclo Tlodi'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r gwaith o geisio sicrhau hyn wedi dechrau a'r gobaith yw y bydd y Strategaeth Taclo Tlodi wedi'i chymeradwyo erbyn mis Chwefror 2017. Yn dilyn hynny, cynhelir adolygiad terfynol o'r polisi rheoli dyledion corfforaethol a bydd yn ystyried canlyniadau'r ymarfer meincodi yn unol ag argymhelliad 3.1 y Panel Sgriwtini. Nid yw argymhelliad 2.1 y panel wedi'i ddatblygu hyd yma oherwydd disgwylir am arweiniad y Pwyllgor Gwaith o ran pa gamau y gellid eu cymryd mewn perthynas â'r mater hwn.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y byddai'n dymuno gweld adroddiad terfynol ar y Polisi Rheoli Dyledion yn cael ei gyflwyno erbyn Mawrth, 2017.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad.

14. TENDRO AR GYFER GOFAL CARTREF AR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, yn nodi'r ymagwedd arfaethedig ar gyfer darparu gofal cartref ar Ynys Môn yn y dyfodol, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Nododd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol mai amcan yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer model darpariaeth sy'n cynnig cymorth cyson o safon ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd angen gofal a chefnogaeth ledled yr Ynys. I'r diben hwnnw, yr opsiwn a ffeirir ar gyfer darparu gwasanaeth gofal cartref ar Ynys Môn yw Opsiwn 3 - comisiynu ar sail ardaloedd - a fydd yn cynnwys mynd allan i dendr ar gyfer tair rhan; bydd y rhannau hyn yn cael eu rhannu yn dair ardal ddaearyddol (Gogledd, Canol a De'r Ynys) gydag un darparwr craidd ar gyfer pob ardal. Cafwyd ymgynghoriad parhaus â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r prosiect sydd wedi cyfrannu at y fanyleb ar gyfer y gwasanaeth a'r bwriad yw cynnal digwyddiad Cyfarfod y Prynwr gyda defnyddwyr gwasanaeth cyn dechrau ar y broses dendro.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion y manteision y dull comisiynu ar sail ardaloedd a'r rheswm dros wneud hynny. Dywedodd y Swyddog y gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i symud tuag at broses dendro ar gyfer gwasanaethau gofal cartref yn seiliedig ar dair ardal; i sicrhau bod contract newydd yn ei le erbyn Mai/Mehefin 2017; i ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u hysbysu yn ystod y ddau fis nesaf; i godi ymwybyddiaeth am Daliadau Uniongyrchol ac i ddefnyddio'r adborth a gafwyd er mwyn hysbysu'r opsiwn sydd ar gael fel rhan o'r broses Taliadau Uniongyrchol.

Penderfynwyd:

- Cefnogi'r broses i wahodd tendrau ar gyfer gofal cartref yn Ynys Môn yn seiliedig ar dair ardal gydag un darparwr craidd ym mhob ardal (sef Opsiwn 3 yn yr adroddiad).
- Sicrhau bod contract newydd ar gyfer y rhaglen yn ei le erbyn mis Mai/Mehefin 2017.
- Ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y ddau fis nesaf er mwyn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau.
- Defnyddio'r cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â Taliadau Uniongyrchol.
- Defnyddio'r adborth i hysbysu'r opsiwn sydd ar gael fel rhan o'r broses Taliadau Uniongyrchol.

15. MODERNEIDDIO YSGOLION – BRO RHOSYR AND BRO ABERFFRAW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol ar gyfer (a) ysgol gynradd newydd yn Aberffraw a (b) Ysgol Parc y Bont i ddod yn ysgol gymunedol ac i ffederaleiddio Ysgol Brynsiencyn i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ystyriaeth. Roedd yr adroddiad yn cynnwys adroddiad gwrthwynebu fel y'i gwelir Atodiad A yn dilyn derbyn un argymhelliad i wrthod (a) uchod.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg ar gefndir yr argymhellion mewn perthynas ag aildrefnu ysgolion yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw a'r ymgynghoriad wedi hynny a'r cyhoeddiad dilynol o rybuddion statudol mewn perthynas â gweithredu'r cynigion.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at y broses y mae'r Awdurdod wedi'i mabwysiadu er mwyn delio â gwrthwynebiad i benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith i roi rhybudd statudol i gau ysgol gynradd o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd a fydd yn weithredol o 1 Hydref, 2013 a dywedodd fod y broses hon yn golygu y bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn penderfynu a ddylai'r cynigion gael eu cymeradwyo, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gyda gwelliannau. Amlinellodd y Swyddog natur yr un gwrthwynebiad a gafwyd i'r cynnig yn (a) (yn benodol i gyfuno'r pedair ysgol - Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyrân, Ysgol Niwbwrch ac Ysgol Llangaffo mewn un ysgol newydd ar safle yn Niwbwrch a fyddai o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru) a'r tri mater penodol a godwyd ynddo ac fe amlinellodd ymateb yr Awdurdod i bob un o'r materion hynny.

Penderfynwyd:

- Cymeradwyo'r cynigion gwreiddiol sef:
 - Cynnig peidio â chefnogi Ysgol Bodorgan (Bodorgan, Ynys Môn LL62 5AB), Ysgol Dwyrân (Dwyrân, Ynys Môn LL61 6AQ), Ysgol Niwbwrch (Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6TE) ac Ysgol Llangaffo (Llangaffo, Ynys Môn LL60 6LT) sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ac i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle yn Niwbwrch ar dir ger Morawelon, Niwbwrch, LL61 6TH ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.
 - i beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel, Ynys Môn LL60 6HB), sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle Ysgol Parc y Bont ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Bydd Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffederaleiddio gydag ysgol arall.
- Rhoi'r awdurdod i swyddogion barhau gyda'r broses i -
 - adeiladu ysgol gynradd newydd yn Niwbwrch (ar yr amod fod y safle'n addas);
 - addasu Ysgol Parc y Bont a newid ei statws ac
 - addasu Ysgol Brynsiencyn a'i ffederaleiddio hi gydag ysgol gynradd arall.

16. PARTNERIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNYS MÔN AND GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer y ddarpariaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwasanaeth Cynhwysol yng Ngwynedd a Môn ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Addysg yr argymhellion ar gyfer sefydlu trefniadau newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwasanaeth Cynhwysol yng Ngwynedd ac Ynys Môn a'u cymeradwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu'r model llywodraethu arfaethedig ar gyfer yr ALN newydd a Gwasanaeth Cynhwysiant fel yn Atodiad 1 yr adroddiad a chafwyd manylion am sut y byddai'r model

yn gweithio o ran sgrïwtini, atebolrwydd a'r gwaith o fonitro'r amrywiaeth o wasanaethau i'w darparu ar draws dau faes y Cyngor.

Penderfynwyd:

- **Mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gyffredin ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon i fod yn weithredol erbyn Medi 2017.**
- **Ymuno mewn partneriaeth ffurfiol efo Cyngor Gwynedd i weithredu'r Strategaeth a mabwysiadu'r drefn llywodraethu newydd y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn, a fydd yn disodli'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA).**
- **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â Phennaeth Busnes y Cyngor a'r Pennaeth Adnoddau i gwblhau Cytundeb Ffurfiol gyda Chyngor Sir Gwynedd ar gyfer y bartneriaeth.**
- **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â Phennaeth Busnes y Cyngor a'r Pennaeth Adnoddau i gwblhau Cytundeb/ memorandumw ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod interim cyn arwyddo'r Cytundeb ffurfiol, fydd yn datgan ymrwymiad y ddau awdurdod i weithredu'r drefn newydd, ac yn caniatáu gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyrraedd y pwynt hwnnw.**

17. ADOLYGIAD O BOLISI GAMBLO'R AWDURDOD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd a oedd yn ymgorffori Polisi Gamblo diwygiedig ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chyflwyno'r Polisi Gamblo diwygiedig fel y cafodd ei gyflwyno, ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir.

18. GWELEDIGAETH AR GYFER TWF YR ECONOMI YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd yn cynnwys strategaeth "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" a gynhyrchwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Nododd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd fod yr Awdurdod, dros y 10 i 15 mlynedd diwethaf, wedi cyflwyno nifer o geisiadau am grantiau i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid craidd a chyllid Ewropeaidd er mwyn datblygu'r economi. Wrth i adnoddau brinhau mae newidiadau wedi eu cyflwyno gyda'r ffocws yn symud i agwedd mwy rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn ceisio tracio'r broses ranbarthol ar gyfer cystadlu am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a San Steffan er mwyn hyrwyddo economi'r ardal. Mae Llywodraeth San Steffan wedi awgrymu y bydd yn datblygu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer y DU ar gyfer y deng mlynedd nesaf yn seiliedig ar brosiectau isadeiledd sylweddol ac o gofio bod y prosiect isadeiledd mwyaf o ran arwyddocâd cenedlaethol yn Ynys Môn ar ffurf Wylfa Newydd, mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn ymgysylltu ag ymdrechion rhanbarthol er mwyn ceisio dylanwadu ar ddatblygiadau er mwyn cael y gorau i Fôn a'i thrigolion a'i busnesau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r strategaeth "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" a gynhyrchwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) fel sail ar gyfer cychwyn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch Cais Twf ar gyfer y rhanbarth.

19. POLISI CYDYMFFURFIO GYDA PHOLISI ANSAWDD TAI CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn cynnwys y Polisi Cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Penderfynwyd cymeradwyo'r drafft o'r Polisi Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

**Y Cyngorydd Ieuan Williams
Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2016

YN BRESENNOL: Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Kenneth P. Hughes (Aelod Portffolio Addysg),
Y Cynghorydd Aled M. Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol),
Y Cynghorydd Ann Griffith (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol),
Y Cynghorydd Dylan Rees (Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaeth,
Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol),
Liz Fletcher (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Tîm Ardal y Gorllewin),
Rona Jones (Swyddog Adolygu Annibynnol),
Dr Einir Thomas (Swyddog Addysg - ADY),
Heulwen Owen - Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal Llyr Bryn Roberts (Prif Swyddog - Rhianta Corfforaethol a Phartneriaethau),
Dawn Owen (Arweinydd Tîm Lleoli Plant),
Steve Pimblett (Arweinydd TîmPDG Dros Dro),
Llinos Edwards (Nyrs PDG),
Mairwen Hughes (Swyddog Pwyllgor).

YMDDIHEURIADAU: Anwen Huws (Pennaeth Gwasanaethau Plant)
Douglas Watson (Cadeirydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION CYFARFOD 6 MEHEFIN, 2016

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir - gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2016.

3 MATERION YN CODI

- **Effaith ar Adnoddau Addysg pan gaiff plant eu lleoli ar Ynys Môn gan Awdurdodau Lleol eraill**

Dywedodd y Swyddog Addysg - ADY fod 27 o blant mewn gofal wedi cael eu lleoli yn Ynys Môn gan Awdurdodau Lleol eraill. Mae 20 o'r disgyblion ar y Gofrestr ADY. Cyfeiriodd at y tabl a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd yn rhoi dadansoddiad o'r gost o gefnogi disgyblion - cyfanswm o £ 188,263. Gall yr Awdurdod Addysg godi ar awdurdodau lleol eraill am gostau'r Cymorthyddion Addysg a chostau athrawon Arbenigol ond ni fedr wneud hynny'n achos y costau gweinyddol na'r cyfleusterau eraill a gynigir yn yr ysgolion ble mae'r plant yn cael eu lleoli.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.

DIM CAMAU PELLACH YN CODI

- **Codi Uchelgeisiau a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru**

Cafwyd trafodaeth yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf a oedd yn rhoi crynodeb o'r modd y mae'r Awdurdod Addysg, fel y gwasanaeth sy'n arwain ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru', yn rhoi sylw i'r camau gweithredu sydd wedi eu priodoli i awdurdodau lleol yn yr adroddiad gyda golwg ar gwblhau'r rhain erbyn Hydref 2016.

Dywedodd y Swyddogion Addysg fod angen gwneud gwaith i wneud yn siŵr bod yna gyfathrebu clir ac i sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu rhwng yr Awdurdod Addysg a'r ysgolion. Rhagwelir y gellir gwneud cyflwyniad Panel Rhiant Corfforaethol unwaith y bydd Cynllun Gweithredu'r Awdurdod Addysg wedi cael ei gwblhau i fynd i'r afael â Strategaeth Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.

DIM CAMAU PELLACH YN CODI

- **Materion Iechyd**

Soniodd y Nyrs LAC am y drafodaeth a gafwyd gyda CAHMS ynghylch mynd i'r afael mewn modd integredig â materion beichiogrwydd / perthynas ymhlith pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Nyrs LAC wedi derbyn cynllun gweithredu llwybr drafft a nododd y bydd cyfarfod yn awr yn cael ei drefnu gyda'r Seicolegwyr Clinigol o Wynedd ac Ynys Môn i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y cynllun gweithredu.

Dywedodd y Nyrs LAC ymhellach y bydd holiadur yn awr yn cael ei anfon allan at rieni maeth ynghylch pryderon emosiynol plant mewn gofal hyd at 9 oed a phlant 10 i 16 oed. Mae holiadur 'hwyliau a theimladau' hefyd ar gael i blant mewn gofal er mwyn asesu unrhyw bryderon sydd ganddynt ac sydd angen sylw.

Nododd y Cadeirydd bod y gwaith cyfeirio, felly, wedi cychwyn gyda'r cynllun llwybr ar gyfer Ynys Môn ac y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol yn y man.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Nyrs LAC i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol yn dilyn trafodaethau gyda'r Seicolegwyr Clinigol.

- **Cynllun Gweithredu - Cynlluniau Addysg Personol**

Rhoes y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal adroddiad ar y Cynllun Gweithredu sy'n dangos sut y mae perfformiad yn erbyn yr angen i ddarparu Cynllun Addysg Personol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal, yn cael ei wella. Nododd y bydd pob ysgol â phlentyn sydd â Chynllun Addysg Personol yn cael ymweliad i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer anghenion pob plentyn. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal bob tymor ysgol. Dywedodd y Swyddog y bydd y data'n cael ei goladu yn fisol gan yr ysgolion a bydd hynny'n caniatáu i'r Awdurdod Addysg gynhyrchu Adroddiad Blyneddol ym mis Mawrth 2017. Bydd yr Awdurdod Addysg wedyn yn gallu monitro effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

GWEITHREDU YN CODI: Bydd Adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol ym Mawrth 2017 ar effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.

4 Y GOFAL IAWN: HAWLIAU PLANT MEWN GOFAL PRESWYL YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Panel - adroddiad Comisiynydd Plant Cymru.

Dygodd y Prif Swyddog - Rhianta Corfforaethol a Phartneriaethau sylw'r Panel at y pedwar argymhelliad a geir yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar hawliau plant mewn gofal preswyl yng Nghymru.

Cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

5 ASIANTAETH GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - LLYFR GWAITH RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Panel – Llyfr Gwaith Rhiantu Corfforaethol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dywedodd y Prif Swyddog Rhiantu Corfforaethol a Phartneriaethau y dylai'r llyfr gwaith gael ei ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysg Plant mewn Gofal. Mae sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig wedi cael ei threfnu ar gyfer 17 Tachwedd, 2016 mewn perthynas â chyfrifoldebau a gofynion Rhiantu Corfforaethol. Y gobaith yw gwahodd person ifanc sydd wedi gadael gofal i gymryd rhan yn y sesiwn hyfforddi.

Cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

GWEITHREDU YN CODI: Nodi y bydd y sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig yn cael ei chynnal ar 17 Tachwedd, 2016.

6 ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Panel - Adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 1 2016/17. Roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad ystadegol o oedran a statws cyfreithiol plant mewn gofal Ynys Môn ynghyd â'r rhesymau am eu lleoli ac yn tynnu sylw at arferion a meysydd sy'n peri risg a phryderon.

Adroddodd y Swyddog Adolygu Annibynnol ar y prif bwyntiau canlynol: -

- Ar ddiwedd mis Mehefin 2016, roedd cyfanswm o 126 o blant a phobl ifanc yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol; cynnydd o 14 o blant / pobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' o gymharu â 112 yn y ffigur chwarter blaenorol;
- Roedd un person ifanc ar hyn o bryd yn 'ward y llys';
- Rhoddwyd esboniad i'r Panel am y rhesymau dros leoli plant sy'n derbyn gofal ynghyd â'r math o leoliadau sydd ar gael;
- Roedd y risgiau a nodwyd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnwys materion yn ymwneud ag 'ymweliadau statudol' y mae angen eglurder yn eu cylch ac y dylid ymgorffori mater ehangach, sef y dylai ymweliadau statudol gynnwys ymweld â'r plentyn yn y cartref;

Rhoes y Panel sylw i adroddiad y SAA ac ymateb y gwasanaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol: -

- Nid yw 'Ymweliadau statudol' yn gyflawn heb fynd i weld y lle y mae'r person ifanc yn cysgu a sicrhau bod teganau sy'n addas ar gyfer oedran y plentyn ar gael yn y cartref;
- Cwestiynau a godwyd ynghylch pobl ifanc mewn gofal sydd ar goll. Dywedodd y Swyddog Adolygu Annibynnol bod 4 person ifanc ar goll yn hanesyddol a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r heddlu. Tybir bod y bobl ifanc hyn bellach dros 21 oed ac felly nid oes unrhyw gyfarfodydd dilynol gyda'r heddlu wedi cael eu cynnal.

Cytunwyd i nodi adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol.

CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Panel i gael data ynghylch adroddiadau am bobl ifanc mewn gofal sydd ar goll ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.

7 ADRODDIADAU GWASANAETH

• Adroddiad y Tîm Lleoli Plant

Cyflwynwyd a nodwyd gan y Panel - adroddiad yr Arweinydd Tîm Lleoli Plant. Roedd yr adroddiad yn darparu diweddariad i'r Panel ar y sefyllfa o ran y mathau o leoliadau ar gyfer Ynys Môn Plant sy'n Derbyn Gofal, y galw am leoliadau, asesu gofalcwyr maeth a'r hyfforddiant a ddarperir, ynghyd â risgiau a phryderon.

Dymunodd y Cadeirydd nodi ei werthfawrogiad am y gwaith a wnaed gan y Tîm Lleoli Plant yn enwedig o ystyried capasiti presennol y tîm.

DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH

• Adroddiad y Nyrs LAC mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal

Cyflwynwyd a nodwyd gan y Panel, adroddiad y Nyrs LAC. Roedd yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'r materion iechyd y mae angen mynd i'r afael a mynd i'r afael â nhw o'r asesiadau iechyd cychwynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r materion iechyd a adolygwyd.

DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH

• Adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Nododd y Panel adroddiad y Swyddog Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal am Chwarter 4. Nododd y bydd y newidiadau mewn perthynas â Chynlluniau Addysg Personol yn dod i rym ym mis Hydref 2016 ac y bydd raid i ysgolion eu cwblhau o fewn 20 diwrnod o'r adeg y daeth plentyn yn 'blentyn mewn gofal', ac yna i adolygu'r cynlluniau naill ai'n flynyddol neu bob tymor os oes angen.

DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH

• Adroddiad y Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal

Cyflwynwyd i'r Panel - adroddiad y Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal ac fe'i nodwyd ganddo. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y chwarter, materion staffio, risgiau a phryderon a chamau gweithredu a gynlluniwyd o fewn y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal.

Nododd y Cadeirydd fod angen rhoi cyfle i staff yn y Tîm PDG ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'u harbenigedd yn y tîm. Roedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno bod parhad staff yn hanfodol o fewn y tîm hwn ac y gall y staff asiantaeth a gyflogir ar hyn o bryd bontio'r bwlch tra mae'r tîm yn cael cyfle i wneud cynnydd o fewn eu maes gwaith.

DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH

8 DIWRNOD HWYL MAETHU

Nodwyd y cynhelir Diwrnod Hwyl Maethu ar 17 Medi, 2016.

9 CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol am 2.00 pm, dydd Llun 5 Rhagfyr, 2016.

Dr Gwynne Jones
CADEIRYDD

1

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Hydref 2016
Pwnc:	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Ieuan Williams
Pennaeth Gwasanaeth:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 01248 752108 JHuwJones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddarau'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2016 – Mehefin 2017**;

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddarau'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw.

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo	
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddarau.
8	Sgriwtini	Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Amherthnasol.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

FF - Atodiadau:
Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017.

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16



Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 18

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2016 - Mehefin 2017** ar y tudalennau dilynol.

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir								Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam		Gwasanaeth Arweiniol		Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau		Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)		Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi		Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)			
Tachwedd 2016																					
1	Cyllideb 2017/18 (S) Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori.		Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.		Adnoddau		Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Hywel Eifion Jones		19 Hydref 2016		Pwyllgor Gwaith 7 Tachwedd 2016										
2	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.		Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.		Busnes y Cyngor		Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams				Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016										
3	Sylfaen y Dreth Gyngor 2017/18 Pennu Sylfaen y Dreth ar gyfer 2017/18.		Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor.		Adnoddau		Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151 Cyng Hywel Eifion Jones				Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016										
4	Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 Argymhell i'r Cyngor llawn y cynllun arfaethedig ar qyfer 2017/18.		Mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn fel rhan o Fframwaith Gosod y Dreth Gyngor.		Adnoddau		Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151 Cyng Hywel Eifion Jones				Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016						15 Rhagfyr 2016				

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddariwyd 07.10.16

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Tudalen 20	5 Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Diweddariad i'w gyflwyno am y cynigion partneriaeth cymunedol posib gyda'r gwasanaeth o Ebrill 2017 ymlaen.	Gofynnwyd am ddiweddariad ar y sefyllfa i'r Pwyllgor Gwaith gan nad oedd yn bosib cynnal ymgyngoriad a derbyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith Llawn ynglyn â'r model gweithredu ffafredig i'r gwasanaeth llyfrgelloedd o Ebrill 2017.	Dysgu	Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng Kenneth P Hughes		Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016	
	6 Trawsnewid y Gwasanaeth Ieuencid	Gofynnir am benderfyniad y Pwyllgor Gwaith Llawn ynglyn a'r model gweithredu ffafredig i'r gwasanaeth ieuencid o Ebrill 2017.	Dysgu	Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng Kenneth P Hughes	22 Tachwedd	Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016	
	7 Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant Diweddariad ar y cynigion sydd wedi dod i law cyn penderfynu ar yr opsiynau i weithredu arnynt yn dilyn datganiadau diddordeb gan grwpiau/unigolion.	Gofynnwyd i'r gwasanaeth gynnig diweddariad i'r Pwyllgor Gwaith gan nad yw'n bosib derbyn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith am yr opsiynau ffafredig i weithredu arnynt yn Cam 2 y rhaglen	Dysgu	Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng Kenneth P Hughes		Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
		trawsnewid (o Ebrill 2016).					
8	Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Tai Cymeradwyo'r polisi.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn ymwneud â materion sydd yn berthnasol i'r Cyfrif Refeniw Tai.	Tai	Shan Lloyd Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016	
9	Y Cyngor i fabwysiadu pwerau a dirprwyo i Swyddog (O) Argymhell i'r Cyngor llawn y dylid mabwysiadu deddfwriaeth amrywiol a dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)	Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Busnes y Cyngor	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro; Dylan Williams Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyng Richard Dew Cyng Alwyn Rowlands		Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016	15 Rhagfyr 2016
10	Rhaglen Welliannau i'r Mân-ddaliadau - diweddariad Diweddariad i aelodau ar y sefyllfa bresennol.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn yn dilyn cais penodol fel rhan o drafodaethau blaenorol.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Dewi Williams Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Cyng J Arwel Roberts		Pwyllgor Gwaith 28 Tachwedd 2016	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

Tudalen 22	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
	Rhagfyr 2016						
	11	Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth Cymeradwyo dileu dyledion.	Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adain 151.	Adnoddau Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151 Cyng Hywel Eifion Jones		Penderfyniad dirprwyedig Rhagfyr 2016	
	12	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith 19 Rhagfyr 2016	
	13	Modurdai Tai Cyngor Cymeradwyo argymhellion.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar argymhellion ynglyn â'r cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu modurdai sy'n rhan o stoc dai'r Cyngor.	Tai Shan Lloyd Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 19 Rhagfyr 2016	
	14	Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Cymeradwyo cynllun prosiect, cytundeb i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar ddau safle, a chyflwyno cais am grant cyfalaf gan	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith er mwyn symud ymlaen i roi ar waith y prosiect llety ar gyfer cymunedau sipsiwn a theithwyr a chyflwyno bid cyfalaf i	Tai Shan Lloyd Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 19 Rhagfyr 2016	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
	Lywodraeth Cymru ar gyfer y safle parhaol.	Lywodraeth Cymru.					
Ionawr 2017							
15	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2017	
16	Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysgol newydd Bro Rhosyr/Bro Aberffraw Cymeradwyo'r achos busnes.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.	Dysgu	Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng Kenneth P Hughes		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2017	
17	Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cymeradwyaeth.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Asesiad i Lywodraeth Cymru.	Dysgu	Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng Kenneth P Hughes		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2017	
Chwefror 2017							
18	Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth Cymeradwyo dileu dyledion.	Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adain 151.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151 Cyng Hywel Eifion Jones		Penderfyniad dirprwyiedig Chwefror 2017	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
19	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	
20	Cyllideb 2017/18 (S) Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Hywel Eifion Jones	6 Chwefror 2017	Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	28 Chwefror 2017
21	Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Hywel Eifion Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	28 Chwefror 2017
22	Arian Wrth Gefn Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Hywel Eifion Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	
23	Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes ar gyfer 2017/18 Cymeradwyo polisi ar gyfer 2017/18.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151 Cyng Hywel Eifion Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddardwyd 07.10.16

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
		a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw.					
24	Taliadau am Wasanaethau Di- Breswyl Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	
25	Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2017/18 Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	
26	Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2017/18 Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	
27	Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2017/18 Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddardwyd 07.10.16

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
28	Cynllun Busnes a Chyllideb Drafft Cyfrif Refeniw Tai 2017-2018 Cymeradwyaeth.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Busnes a'r cyllidebau cyfalaf a refeniw.	Tai	Shan Lloyd Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	
29	Asesiad o Anghenion - Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymeradwyaeth statudol o'r asesiad rhanbarthol.	Côd ymarfer statudol: "Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gymeradwyo'r adroddiad asesiad poblogaeth yn ffurfiol. Bydd angen i hyn gael ei wneud gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol ac, yn achos yr awdurdod lleol, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn pan fydd awdurdod gweithredol neu fwrdd y cyngor yn ei gyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei hystyried ar y lefelau uchaf o fewn y sefydliadau hyn."	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Aled Morris Jones		Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	28 Chwefror 2017
30	Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cymeradwyo strategaeth.		Dysgu	Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng Kenneth P Hughes	I'w gadarnhau.	Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2017	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

Tudalen 27

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Mawrth 2017							
31	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith 20 Mawrth 2017	
32	Polisi Rhyddhad Dewisol rhag Taliadau Tai 2017/18 Adroddiad ar weithredu'r polisi yn 2016/17 ac unrhyw newidiadau i'w hargymell – pennu polisi.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn manylu'r gefnogaeth ychwanegol at gostau tai i rai hawlwr budd- dal.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151 Cyng Hywel Eifion Jones		Pwyllgor Gwaith 20 Mawrth 2017	
Ebrill 2017							
33	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith 24 Ebrill 2017	
Mai 2017							
34	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith ...Mai 2017	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2016 – Mehefin 2017

Diweddarwyd 07.10.16

Mehefin 2017							
Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)	
35	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Ieuan Williams	Pwyllgor Gwaith ...Mehefin 2017		

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	17 HYDREF 2016	
Pwnc:	STRATEGAETH GYFALAF 2017/18	
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD H E JONES	
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)	
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES	
Rhif Ffôn:	2601	
E-bost:	rmjfi@ynysmon.gov.uk	
Aelodau Lleol:	d/b	
A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau		
Er mwyn i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf 2017/18, gofynnir am arweiniad gan y Pwyllgor Gwaith ynghylch faint o gyllid i'w ryddhau, o gofio effaith y rhaglen gyfalaf ar yr elfen cyllid cyfalaf o gyllideb referniw'r Cyngor.		
Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y pwyntiau a godir yn yr adroddiad ac wedyn gall y Swyddogion ddechrau'r gwaith o baratoi rhaglen gyfalaf 2017/18.		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Dim yn berthnasol		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu strategaeth gyllidebol y Cyngor wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Dim yn berthnasol		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Ystyriwyd a derbyniwyd yr adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Dim yn berthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	I'w gadarnhau
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2017/18		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Yn unol ag Adran 3, Rhan 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu a pharhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthycu. Cefnogir y Ddeddf gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd).
- 1.2. Nid yw'r Côd yn nodi uchafswm benthyca ar gyfer awdurdodau, ond yn hytrach mae'n gosod egwyddorion ar gyfer pennu lefel o fenthycu fforddiadwy a sut y mae'n rhaid monitro'r lefelau hynny. Mae'r wybodaeth fonitro (dangosyddion darbodus) wedi ei chynnwys yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol, yr adolygiad canol-blwyddyn a'r adolygiad diwedd blwyddyn yr adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn bob blwyddyn.
- 1.3. Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn penderfynu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd yn 2017/18.

2. GWYBODAETH CEFNDIR

- 2.1. Gwariant cyfalaf yw gwariant i gaffael neu i greu asedau newydd neu i gynnal asedau cyfredol lle mae oes yr ased yn hwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn rhai diriaethol (adeiladau, cerbydau, isadeiledd) neu'n rhai anniriaethol (trwyddedau meddalwedd).
- 2.2. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu o'r ffynonellau canlynol: -
 - **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Swm o arian yw hwn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno.
 - **Benthyca â Chymorth** - Bydd y Cyngor yn benthyca arian gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) i ariannu'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n deillio o'r benthyca (Costau Llog ac Isafswm Darpariaeth Refeniw) yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad refeniw blynyddol, sef "Benthyca â Chymorth".
 - **Benthyca Digefnogaeth** - Unwaith eto, mae'r Cyngor yn benthycair arian gan y PWLB ond rhaid iddo ariannu'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Mae prosiectau a ariennir drwy fenthycu digefnogaeth yn tueddu i fod yn brosiectau sy'n darparu arbedion refeniw a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i dalu am gostau refeniw ychwanegol sy'n deillio o'r benthyca.
 - **Grantiau Cyfalaf Penodol** - Bydd y Cyngor yn cael grantiau cyfalaf sydd yn ariannu costau prosiect yn llwyr neu'n rhannol. Fel arfer, mae cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf mewn perthynas â'r gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwario.
 - **Cyfraniad Refeniw** - Gall y Gwasanaethau wneud cyfraniad o'u cyllidebau refeniw i ariannu prosiectau. Mae'r cyfraniadau hyn yn tueddu i fod ar ffurf arian cyfatebol i brosiectau a ariennir yn bennaf gan grant cyfalaf penodol.
 - **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio arian a gynhyrchir yn sgil gwerthu asedau i gyfrannu at ariannu'r rhaglen gyfalaf. Cynhyrchir y rhain fel arfer yn sgil gwerthu asedau dros ben (tir neu adeiladau fel arfer).
 - **Cronfeydd wrth gefn** – Gellir defnyddio arian wrth gefn i gefnogi'r rhaglen gyfalaf, e.e. derbyniadau cyfalaf na wnaed defnydd ohonynt.
- 2.3. Cymeradwywyd y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016/17 gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2016 ac fe'i crynhoir yn Nhabl 1 isod. Mae rhaglen fanylach ynghlwm yn Atodiad 2.

Tabl 1 Rhaglen Gyfalaf 2016/17	
Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol 2016/17 £ '000
Cronfa Gyffredinol Tai	2,000
Cyfrif Refeniw Tai	14,169
Dysgu Gydol Oes	12,776
Adfywio Economaidd	5696
Priffyrdd	10,973
Rheoli Gwastraff	628
Eiddo	1,128
Trawsnewid	1,653
Cynllunio	975
Gwasanaethau Oedolion	914
CYFANSWM GWARIANT	50,912
Wedi'i ariannu gan:	
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1,336
Grantiau Cyfalaf Penodol	23,275
Derbyniadau Cyfalaf	6575
Benthyca â Chymorth	2,189
Benthyca Digefnogaeth	6,030
Cyfraniadau Refeniw	10,667
Cronfeydd wrth gefn	500
Yswiriant	340
CYFANSWM CYLLID	50,912

- 2.4.** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gweithredu dull un gronfa o ran benthyca, h.y. nid ydym yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a gwariant Cronfa'r Cyngor. Mae'r holl fenthyciadau yn cael eu cyfuno mewn un cronfa a rhennir y costau rhwng y Cyfrif Refeniw Tai a Chronfa'r Cyngor a hynny'n seiliedig ar lefel y gwariant a ariennir trwy fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa hyn.
- 2.5.** Fel rhan o'r broses gynllunio, mae ymrwymadau ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd yn cael eu nodi, er nad oes sicrwydd y bydd yr arian mewn gwirionedd yn cael ei ryddhau ar gyfer y prosiect penodol. Mae'r ymrwymadau posib ar gyfer 2017/18, ynghyd â'r ffynhonnell gyllido bosib, i'w gweld yn Nhabl 2 isod: -

Tabl 2 Ymrwymadau Cyfalaf Posib yn 2017/18						
Cynllun	Cyllid 2017/18 £	Ariannwyd gan				
		Grant	Benthyca Digefnogaeth	Benthyca â Chymorth	Cyfraniad Refeniw	Grant Cyfalaf Cyffredinol a Derbyniadau Cyfalaf
Ysgol Cybi	149	50	75	25	0	0
Ysgol y Llannau	131	44	65	22	0	0
Gofal Ychwanegol Seiriol	1,000	0	0	0	0	1,000
Prifffordd Newydd - Wylfa	4918	4918	0	0	0	0
Ysgol Parc y Bont	874	293	437	144	0	0
Gweithredu CCIS	75	0	0	75	0	0
Rhaglen Ysgolion 21 ^{ain} Ganrif - Aberffraw / Bro Rhosyr	3,696	1,238	1,848	610	0	0
Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	1,500	1,500	0	0	0	0
Ffordd Gyswllt Llangefni	1,450	1,450	0	0	0	0
Seilwaith Strategol Caergybi	1,957	1,935	0	0	0	23
Seilwaith Strategol Llangefni	1,157	1,135	0	0	0	23
Rheoli Cynnwys Gwefan	25	0	0	0	0	25
Trwyddedau Meddalwedd	72	0	0	0	0	72
Serfwyr & Disgiau	100	0	0	0	0	100
Gwaith Cynnal a Chadw a Raglennwyd – CRT	5492	2,650	0	0	2842	0
CRT Tai Newydd	2,184	0	0	0	2,184	0
CYFANSWM	24,780	15,213	2,425	876	5026	1,243

3. CYFYNGIADAU AR ARIANNU NEWYDD

3.1. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 2.2, mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu o wahanol ffynonellau sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd.

- Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol tymor hir y Cyngor oherwydd bod unrhyw grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwariant cyfalaf. Efallai y bydd yna wahaniaethau amseru a all arwain at grantiau'n cael eu cario drosodd o un flwyddyn i'r llall trwy fantolen y Cyngor.

- Mae derbyniadau Cyfalaf yn arwain at droi asedau dros ben yn arian parod sydd, yn ei dro, yn creu ased newydd. Unwaith eto, nid oes gan y math hwn o gyllid fawr ddim effaith tymor hir ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond daw amser pan fyddwn wedi cael gwared ar yr holl asedau dros ben a bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn disgyn.
 - Defnyddio'r gwared yn y Cyfrif Refeniw Tai (yr incwm rhent sydd dros ben y gwariant) i ariannu gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n cael effaith ar Gronfa'r Cyngor.
 - Bydd defnyddio cyllid refeniw yn lleihau gwerth yr arian a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn neu'r swm a drosglwyddir i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n troi arian dros ben yn ased newydd.
 - Mae benthyca â chymorth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor sydd â goblygiadau i'r gyllideb refeniw ar ffurf cynnydd yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) a thaliadau llog blyneddol.
- 3.2.** Mae'r GCC yn mesur gofyniad sylfaenol y Cyngor i fenthycu i ariannu gwariant cyfalaf, h.y. y gwariant cyfalaf nad yw wedi ei ariannu eto gan dderbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf neu gyfraniadau o incwm refeniw. Ni ddylai lefel y benthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na'r gofyniad cyllido cyfalaf. Mae'r GCC yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefel y DIR a godir ar Gyfrif Refeniw'r Cyngor.
- 3.3.** Mae'r DIR yn swm bach y mae'n rhaid ei godi ar y cyfrif refeniw er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau. Nid yw'r tâl DIR yn arwain at fenthyciadau yn cael eu had-dalu ar yr un pryd neu ar yr un raddfa â'r DIR mewn gwirionedd. Ad-delir benthyciadau yn unol â thelerau'r cytundebau benthyca unigol a gellir eu hariannu o fenthyciadau newydd neu drwy ddefnyddio arian dros ben o fewn yr Awdurdod.
- 3.4.** Mae'r DIR a godir i Gronfa'r Cyngor yn cael ei gyfrifo ar 4% o falans agoriadol y GCC ar gyfer pob prosiect ar wahân i'r prosiectau hynny a ariennir drwy fenthycu digefnogaeth, lle mae'r DIR yn seiliedig ar fywyd defnyddiol yr ased.
- 3.5.** Yn ychwanegol at y DIR, bydd benthyca â chymorth neu fenthycu digefnogaeth yn arwain at godi dâl llog ar gyfrif refeniw'r Cyngor. Wrth i'r benthyca gynyddu, bydd rhaid cyllido'r tâl llog hefyd ac mae'r llog hwn, ynghyd â'r DIR, yn gyfyngiad ar faint y gellir ei gymryd ar fenthycu.
- 3.6.** Ym mhob setliad, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r setliad cyfalaf ar gyfer yr holl awdurdodau lleol ac mae hyn, yn ei dro, yn cael ei rannu rhwng y 22 awdurdod lleol, gan nodi faint fydd yn cael ei ariannu ar ffurf Grant Cyfalaf Cyffredinol a faint o fenthycu â chymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ariannu, h.y. mae'r setliad refeniw yn cynnwys swm a fydd yn cwmparu'r DIR mewn perthynas â'r benthyca â chymorth yn ogystal â'r costau llog.
- 3.7.** Ar gyfer 2015/16 a 2016/17, 'roedd y setliad o ran cyfalaf fel a ddangosir yn Nhabl 3 isod: -

Tabl 3 Setliad Cyfalaf 2015/16 a 2016/17			
	2015/16 £ 'm	2016/17 £ 'm	Newid canrannol
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Cymru Gyfan	142,837	142,837	0%
Ffigurau setliad ar gyfer Ynys Môn			
Grant Cyfalaf Cyffredinol (1)	1,332	1,335	+ 0.2%
Benthyca â Chymorth (2)	2,189	2,195	+ 0.2%
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (1) + (2)	3,521	3,530	+ 0.2%
Setliad Refeniw (Elfen Gyfalaf)			
Ad-dalu Dyled (3)	3,054	3,019	-1.1%
Taliadau llog (4)	4,484	4,615	+ 2.9%
Cyfanswm Cyllido Cyfalaf (3) + (4)	7,538	7,634	+ 1.3%

- 3.8.** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf ar gyfer 2016/17 yn £8.45 miliwn, sef £0.82m yn uwch na'r cyllid y gwnaed darpariaeth ar ei gyfer yn y setliad ac mae hyn yn adlewyrchu'r DIR ychwanegol a chostau llog y benthyca digefnogaeth sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.
- 3.9.** Felly, gellir gweld bod sgôp i ariannu prosiectau newydd yn 2017/18 drwy'r cyllid a dderbynnir fel rhan o'r setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae benthyca digefnogaeth yn bosib ond, oni bai bod y prosiectau yn cynhyrchu arbedion refeniw, yna bydd y DIR ychwanegol a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw ac mae'n rhaid eu hariannu trwy godi Treth Gyngor uwch neu drwy wneud arbedion refeniw mewn mannau eraill.

4. RHAGLEN YSGOLION YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

- 4.1.** Mae'r Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion drwy'r rhaglen uchod. Bydd y rhaglen, os yw'n cyflawni'r holl amcanion a fwriadwyd ar ei chyfer, yn cymryd dros 10 mlynedd i'w chwblhau am gost cyfalaf o tua £120m. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y rhaglen gyda dwy ysgol newydd yn cael ei hadeiladu (Ysgol Cybi ac Ysgol Y Llannau).
- 4.2.** Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu ar sail 50% o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% drwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf arian grant (67%) a benthyca â chymorth (33%).
- 4.3** Nodwch os gwelwch yn dda fod y ffigyrau sy'n cael eu cynnwys yn Nhablau 4 i 6 isod yn seiliedig ar waith cychwynnol a wnaed gan y Gwasanaethau Asedau Capita a gall fod yn amodol i newid, ond maent yn rhoi syniad clir o effaith y rhaglen ar gyllideb refeniw a benthyca y Cyngor.

4.3. Crynhoi'r cyllid ar gyfer y rhaglen yn Nhabl 4 isod: -

Tabl 4 Ariannu Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif						
Prosiect	Band	Rhanbarth	Arian Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif			
			Benthyca digefnogaeth £ 'm	Benthyca â Chymorth £ 'm	Grant LIC £ 'm	Cyfanswm £ 'm
A1	A	Cybi	5.176	1.708	3.468	10.352
A2	A	Rhyd y Llan	2.795	0.923	1.873	5.591
A3	A	Bro Aberffraw	0.379	0.129	0.262	0.770
A4	A	Bro Aberffraw	2.742	0.926	1.881	5.549
C1	A	Graig	0.483	0.159	0.324	0.966
C2	A	Cornhir	3.752	1.238	2.514	7.504
C6	A	Esceifiog	1.000	0.330	0.670	2.000
C3	A	Henblas	0.500	0.165	0.335	1.000
Cyfanswm Band A			16.827	5.578	11.327	33.732
A5	B	Seiriol	2.771	0.914	1.857	5.542
B1	B	Amlwch	10.625	3.506	7.119	21.250
B3	B	Llannerch-y-medd	3.000	0.990	2.010	6.000
D1	B	Uwchradd Caergybi	7.250	2.393	4.858	14.501
D2	B	Ysgol Gyfun Llangefni	9.750	3.218	6.533	19.501
D5	B	Moelfre	3.000	0.990	2.010	6.000
Cyfanswm Band B			36.396	12.011	24.387	72.794
C4	C	Uwchradd Bodedern	8.980	2.963	6.017	17.960
C5	C	David Hughes	11.835	3.906	7.929	23.670
B2	C	Bryngwran	4.125	1.361	2.764	8.250
B4	C	Cemaes	1.800	0.594	1.206	3.600
Cyfanswm Band C			26.740	8.824	17.916	53.480
Ychwanegu	D	Kingsland	3.750	1.238	2.513	7.501
D3	D	Fali	4.125	1.361	2.764	8.250
D4	D	Llanfawr	2.450	0.809	1.642	4.901
Cyfanswm Band D			10.325	3.408	6.919	20.652
CYFANSWM Y RHAGLEN			90.288	29.821	60.549	180.65

4.4. O ystyried lefel y benthyciadau sydd ei angen mae'n annhebygol y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn arian parod y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) i unrhyw raddau mawr. Felly, tybir y byddai y byddai'r holl fenthyciadau – sef rhai digefnogaeth a chyda chymorth – yn cael eu gwneud trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus dros gyfnod o amser sy'n cyfateb i fywyd disgwylidig yr ased (50 mlynedd).

4.5. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.1, bydd benthyciadau â chymorth a digefnogaeth ychwanegol yn cynyddu GCC y Cyngor a fydd, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl DIR ar y cyfrif refeniw ac yn arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

- 4.6. Mae'r effaith ar y GCC a'r dyddiadau posib ar gyfer ad-dalu benthyciadau i'w gweld yn Nhabl 5 isod:-

Tabl 5 GCC a Dyddiadau Ad-dalu Amcangyfrifedig o ganlyniad i Raglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif					
	Benthyca â Chymorth £ 'm	Benthyca Digefnogaeth £ 'm	GCC cyfredol £ 'm		Dyddiad Ad-dalu Benthyciad
Y sefyllfa ar 31/03/ 2016	75.755	34.989	127.657		2059/60
Rhaglen	Benthyca â Chymorth £ 'm	Benthyca Digefnogaeth £ 'm	GCC uchaf £'m	Blwyddyn y GCC uchaf	Dyddiad Ad-dalu Benthyciad
Band A yn Unig	5.578	16.827	115.599	2018/19	2069/70
Band A a B	17.589	53.223	147.791	2022/23	2073/74
Band A, B a C	26.413	79.963	166.349	2024/25	2077/78
Bandiau A - D	29.821	90.288	169.402	2027/28	2078/79

- 4.7. Bydd y benthyca â chymorth yn cael ei ariannu gan gynnydd yn elfen cyllido cyfalaf y setliad refeniw blynyddol ond mater i'r Cyngor yw penderfynu sut y mae'n ariannu'r benthyca digefnogaeth. Wrth i'r GCC gynyddu, bydd lefel y DIR a godir ar y cyfrif refeniw yn parhau i gynyddu, a rhaid talu'r costau llog hefyd. Mae Tabl 6 isod yn dangos effaith Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar y gyllideb refeniw. Mae hyn yn rhagdybio bod yr holl wariant yn cael ei ariannu drwy fenthyca a bod y gyfradd llog tymor hir yn 2.5%.

Tabl 6 Effaith ar Gostau Refeniw Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif				
	DIR £ 'm	Costau benthyca £ 'm	Cyfanswm y Costau Refeniw £ 'm	
Cyllideb 2016/17 (Cronfa'r Cyngor yn unig)	3.843	4.609	8.451	
Rhaglen	Uchafswm y DIR Ychwanegol £ 'm	Blwyddyn y GCC uchaf	Uchafswm y Costau Benthyca Ychwanegol £ 'm	Blwyddyn y Costau Benthyca Uchaf
Band A yn Unig	0.544	2020/21	0.538	2018/19
Band A a B	1.688	2023/24	1.646	2022/23
Band A, B ac C	2.456	2027/28	2.342	2025/26
Bandiau A - D	2.758	2028/29	2.599	2027/28

- 4.8.** Byddai'r costau refeniw ychwanegol wrth ymgymryd â'r holl fandiau yn cyfateb i £5.3m ar ei lefel uchaf, sydd yn 63% ychwanegol o gymharu â'r lefel bresennol. Yn amlwg, ni all y Cyngor fforddio'r lefel hon o gyllid ychwanegol oni bai bod y Gyllideb Ddirprwyedig ar gyfer Ysgolion yn ei gyllido'n llawn / yn gwneud cyfraniad. Ar hyn o bryd mae £38m yn y gyllideb hon ac, felly, os bydd y costau ariannu cyfalaf ychwanegol yn cael eu hariannu ohoni yna byddai hynny'n cyfateb i ostyngiad o 14% yn y gyllideb honno. Byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw arbedion y byddai eu hangen i gydbwysu cyllideb refeniw'r Cyngor.
- 4.9.** Nid yw'r penderfyniad ynghylch pa brosiectau y dylid eu gweithredu yn benderfyniad y dylid ei wneud yn awr – byddai'r penderfyniad hwnnw yn cael ei wneud ar ôl dadansoddiad ariannol manwl ac achos busnes - ond mae'n bwysig nawr i sefydlu'r egwyddor o ran sut y dylid ariannu costau'r benthyca digefnogaeth ychwanegol (DIR & Llog), h.y. i ba lefel y disgwylir i'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer ysgolion ostwng i dalu costau benthyca digefnogaeth ychwanegol.
- 4.10.** O ystyried maint rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif mae'n bwysig hefyd i sefydlu'r egwyddor bod angen i'r rhaglen sefyll ar ei phen ei hun ac ni ddylid ymgymryd â phrosiect ar draul prosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan y ffynonellau arferol o gyllid cyfalaf (grant cyfalaf cyffredinol, benthyca â chymorth, grantiau penodol, derbyniadau cyfalaf – heblaw am ysgolion).

5. AMCANGYFRIF O'R ARIAN SYDD AR GAEL AR GYFER 2017/18

- 5.1.** Gan mai un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys tra'n lleihau'r gostyngiad yn y cyllidebau gwasanaeth, mae'n rhesymol i'r Cyngor leihau'r cynnydd sydd ei angen yn y gyllideb cyllido cyfalaf. Bydd angen darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid ei gadw ar lefel sy'n cael ei ariannu drwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chymorth), fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei ariannu drwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.
- 5.2.** Ni ddylid ond ystyried benthyca digefnogaeth (y tu allan i raglen ysgolion yr 21^{ain} Ganrif) pan fo modd gwneud gostyniad yn y cyllideb gwasanaeth perthnasol sy'n fwy na'r DIR a'r costau llog.
- 5.3.** Ar hyn o bryd, ni wyddys beth fydd lefel y benthyca â chymorth a'r grant cyfalaf cyffredinol ond, os bydd yn parhau i fod yr yn fath ag yn 2016/17, byddai hyn yn darparu £1.3m fel grant cyfalaf cyffredinol a £ 2.2m fel benthyca â chymorth.
- 5.4.** Fel rhan o'r rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17, neilltuwyd £0.96m ar gyfer 4 cynllun na fyddant bellach yn mynd ymlaen neu sy'n debygol o danwario. Gan fod costau refeniw'r cynlluniau hyn wedi eu cynnwys yng nghyllideb cyllido cyfalaf 2016/17, gallai'r cyllid barhau heb gynyddu'r gyllideb refeniw. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn: -

Tabl 7	
Cynlluniau 2016/17 lle nad oes angen y cyllid cychwynnol mwyach	
Cynllun	Cyllid sydd ar gael £ '000
Doc Pysgod Caergybi	96
Mynwent Llanbedrgoch	68
Gweithio'n Gallach	400
CYFANSWM Y CYLLID NA DDEFNYDDIWDYD	564

- 5.5.** Yn ychwanegol at y cyllid hwn, byddai adnoddau ar gael i ariannu prosiectau CRT drwy'r Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr (£2.66m) a thrwy unrhyw gyllid sydd ar gael yng nghronfeydd wrth gefn y CRT ei hun.
- 5.6.** Bydd grantiau penodol sydd wedi eu cymeradwyo neu sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sydd ar gael yn dilyn ceisiadau llwyddiannus hefyd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r Cyngor gyfrannu rhywfaint o'i gyllid cyfalaf ei hun fel arian cyfatebol er mwyn medru denu arian grant. Mae'r grantiau sydd wedi cael eu nodi ar hyn o bryd fel ffynonellau cyllid ar gyfer 2017/18 yn cynnwys: -
- Ffordd Gyswllt Llangefni – fel bod modd cwblhau'r cynllun;
 - Llwybr Mwy Diogel yn y Gymuned - cyllid grant 100%;
 - Diogelwch ar y Ffyrdd - cyllid grant 100%;
 - Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Miwmares - cyllid tua 90%;
 - LILILIA 2 – yn dal i drafod gyda Llywodraeth Cymru;
 - Isadeiledd Caergybi a Llangefni - disgwyl cadarnhad a fu'r ceisiadau yn llwyddiannus ai peidio.
- 5.7.** Mae lefel y derbyniadau cyfalaf yn dibynnu ar ba asedau ddaw ar gael i'w gwerthu. Mae'r arian a geir yn sgil gwerthu rhai o'r asedau wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi cychwyn, e.e. mae arian a geir o werthu hen safleoedd ysgol wedi ei neilltuo ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac mae'r arian o werthu hen safleoedd swyddfa wedi ei neilltuo i'r Prosiect Gweithio'n Gallach. O ganlyniad, ni ellir neilltuo'r holl dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn 2017/18 i ariannu prosiectau cyfalaf newydd.
- 5.8.** Fel y nodwyd eisoes, rhaid i unrhyw fenthycia digefnogaeth gynhyrchu incwm / arbedion gwariant refeniw ychwanegol i ariannu'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DIR a thaliadau llog) a godir ar y cyrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a ariennir drwy fenthycia digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul un.
- 5.9.** I gloi, dylid cyfyngu'r cyllid fydd ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2017/18 i i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (amcangyfrif £1.3m), benthyca â chymorth (amcangyfrif £2.2m), arian nad yw wedi ei ddefnyddio o flynyddoedd blaenorol (£0.96m) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn y flwyddyn ond na chawsant eu dyrannu. Byddai hyn yn rhoi cyllideb o tua £4.5m (mae'r ffigwr terfynol yn dibynnu ar y setliad a geir gan Lywodraeth Cymru).

6. YMRWYMIADAU POSIB AR GYFER 2017/18

- 6.1.** Mae rhaglenni cyfalaf blaenorol wedi nodi ymrwymadau posib ond nid ydynt wedi rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch cyllid ac felly gellid dadlau nad oes unrhyw ymrwymadau ar hyn o bryd. Efallai bod hynny'n wir am gynlluniau heblaw am raglen ysgolion 21^{ain} Ganrif, cynlluniau CRT a chynlluniau a ariennir gan grant, ond dylid ymrwymo gwariant bob blwyddyn i gynnal ac uwchraddio asedau hanfodol. Y prif feysydd y dylid eu cyllido'n flynyddol yw: -
- Gliniaduron a chyfrifiaduron newydd - amcangyfrifir bod angen £100k i gael dyfeisiau newydd dros gyfnod o bedair blynedd;
 - Disgiau, Serfwyr a Rhwydwaith – yn rhaglen gyfalaf 2016/17 nodwyd bod angen £150k;
 - Trwyddedu Meddalwedd - yn rhaglen gyfalaf 2016/17 nodwyd bod angen 72k;
 - Cerbydau newydd – neilltuwyd swm o £150k yn rhaglen gyfalaf 2016/17;
 - Gwaith atgyweirio a gyfalafwyd ar adeiladau'r Cyngor ac ysgolion – 'roedd rhaglen gyfalaf 2016/17 yn nodi bod angen £1.8m y flwyddyn dros 4 blynedd i drwsio diffygion yn holl adeiladau ysgol. Nodwyd fod angen £200k y flwyddyn ar ben hynny ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio hanfodol ar adeiladau nad ydynt yn ysgolion;

- Grant Cyfleusterau i'r Anabl - mae hwn yn grant gorfodol y mae'n rhaid ei gynnig. Yn 2016/17 neilltuwyd £816k i gwrdd â chost y ceisiadau a dderbyniwyd.
- 6.2.** Fel rhan o'r broses o wneud cais am arian Buddsoddi i Arbed, cafwyd nifer o geisiadau am arian i wneud mân-waith cyfalaf a fyddai'n gostwng costau refeniw, e.e. prosiectau arbed ynni. 'Roedd rhai o'r prosiectau wedi cael sylw eisoes fel rhan o'r broses bidio yn 2016/17 ond nid oeddent wedi derbyn sgôr digon uchel bryd hynny gan nad oeddent yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, ystyrir bod y ceisiadau hyn yn haeddu sylw gyda'r cyllid ar eu cyfer yn dod o swm a benderfynwyd ymlaen llaw ac a ddyrennir bob blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf gyffredinol. Byddai modd wedyn pennu pa brosiectau fydd yn cael eu hariannu yn seiliedig ar set o feini prawf ar gyfer y prosiectau hyn yn unig.
- 6.3.** Ar y cychwyn, cafodd swm cyfalaf ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf i ariannu gwaith arwynebu ffyrdd a chyllidwyd y costau benthyca ychwanegol drwy fenthyca â chymorth. Yn 2016/17, cynhwyswyd £2.2m yn y rhaglen gyfalaf ond roedd y gefnogaeth benodol gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben. Er mwyn cyflawni mwy o arbedion refeniw ac i sicrhau y gellir cwrdd â'r isafswm trothwyon gwaith contract, cafwyd cais i gynnwys y swm hwn yn y rhaglen gyfalaf unwaith yn rhagor. Ni fyddai'r cynnig hwn ond yn gost-ffeithiol pe bai'r gwaith yn cael ei ariannu o'r grant cyfalaf / benthyca â chymorth. Os byddai'r gwaith yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth, ni fyddai'r arbedion refeniw arfaethedig o £50k yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a fyddai o gwmpas £150k.
- 6.4.** Fel y gŵyr Aelodau, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatblygu un safle parhaol a dau safle dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd grant gan Lywodraeth Cymru yn cwrdd â chost y safle parhaol ond nid y safleoedd dros dro. Bydd cost y gwaith yn dibynnu ar y ba safleoedd a ddewisir, h.y. os bydd angen prynu tir, bydd cost y safleoedd dros dro yn cynyddu.
- 6.5.** Mae'r ymrwymiad diwethaf yn ymwneud â'r System Rheoli Cynnwys y Wefan. Neilltuwyd £75k yn 2016/17 a gofynnwyd am £25k pellach ar gyfer 2017/18. Gan fod y prosiect hwn wedi dechrau, dylid cyllido unrhyw gostau sy'n weddill ar gyfer 2017/18.

7. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT GYCHWYNNOL CRONFA'R CYNGOR 2017/18

- 7.1.** Yn seiliedig ar baragraffau 5 a 6, byddai rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer Cronfa'r Cyngor 2017/18 fel a ddangosir yn Nhabl 8 isod. Ariennir rhaglen gyfalaf y CRT o fenthyca neu drwy'r arian wrth gefn y gronfa a bydd y cynlluniau a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf yn cael eu penderfynu, i ddechrau, gan y Bwrdd Gwasanaethau Tai.

Tabl 8 Rhaglen Gyfalaf Amlinellol 2017/18		
Rhaglen Gyfalaf Amlinellol 2017/18 (ac eithrio Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif , CRT a phrosiecau a gyllidir gyda grant)		
Ariannu Grant Cyfalaf Cyffredinol Benthyca â Chymorth Cyllid a neilltuwyd ond nad oes ei angen mwyach Derbyniadau cyfalaf	£ 'm 1.30 2.20 0.56 0.30	Sylw Hwn yw dyraniad 2016/17 Hwn yw dyraniad 2016/17 Gweler paragraff 5.4 Amcangyfrif
CYFANSWM CYLLID	4.36	
Prosiectau i'w Hariannu yn 2017/18		
Dyraniadau blynyddol Caledwedd TG newydd Trwyddedu Meddalwedd TG Cerbydau newydd Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau Grant Cyfleusterau i'r Anabl Prosiectau Buddsoddi i Arbed		
Ymrwymadau Parhaus Safleoedd Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr Rheoli Cynnwys Gwefan Ailwynebu priffyrdd		
Prosiectau newydd I'w benderfynu yn seiliedig ar geisiadau		Bydd y swm sydd ar gael yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael a'r symiau a ddyrannwyd i'r prosiectau dyrannu blynyddol a'r ymrwymadau parhaus

8. ARGYMHELLION

8.1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhellion canlynol fel rhan o'r strategaeth gyfalaf: -

1. Sefydlu'r egwyddor fod unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol sy'n ymwneud â'r Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cael eu hariannu trwy ostyngiad cyfatebol yn y gyllideb a ddiprwywyd i ysgolion.
2. Bod Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i raglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor.
3. Bod yn rhaid i brosiectau unigol o dan Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gynhyrchu gwerth net positif a bod y gwerthusiad yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y costau cyllido cyfalaf ychwanegol yn cael eu hariannu o'r gyllideb a ddiprwywyd i ysgolion.
4. Bod y cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18 yn cael ei gyfyngu i werth y grant cyfalaf cyffredinol, lefel y benthyca â chymorth, gwerth y cyllid ar gyfer prosiectau a gytunwyd yn flaenorol ond nad oes eu hangen mwyach, ynghyd â gwerth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd ond sydd heb eu dyrannu.
5. Sefydlu'r egwyddor bod yr eitemau a nodir ym mharagraff 6.1. uchod yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir i bob pennawd yn cael ei gytuno fel rhan o'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb gyfalaf bob blwyddyn, gan ddibynnu ar lefel y cyllid sydd ar gael.
6. Ni fydd prosiectau sy'n cael eu hariannu o fenthycia digefnogaeth ond yn cael eu gweithredu os bydd y gostyngiad yn y costau refeniw neu'r cynnydd yn yr incwm a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol.
7. Bod rhywfaint o waith arwynebu ffyrdd yn cael ei ariannu o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnu ar faint o gyllid sydd ei angen i gwrdd ag unrhyw warantau ynghylch isafswm gwerth contractau, y lefel o arian sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.
8. Ychwanegu prosiectau a ariennir gan grant at y raglen gyfalaf 2017/18 unwaith y bydd lefel y cyllid yn hysbys.
9. Bod prosiectau sydd angen rhywfaint o arian cyfatebol i fedru denu arian grant yn cael eu hasesu ar sail achos wrth achos gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo cyllid ai peidio yn dibynnu ar y prosiect, sut mae'n cydweddu â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r gymhareb o ran faint y byddai angen i'r Cyngor ei gyfrannu a faint fyddai'n arian grant.
10. Bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau newydd yn cael eu hasesu yn unol â'r matrices sgorio a oedd mewn grym yn 2016/17, h.y. rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol, sy'n lliniaru risgiau corfforaethol, sy'n cyflawni arbedion refeniw yn y dyfodol ac sy'n gallu dangos bod prosesau rheoli prosiect digonol wedi cael eu sefydlu.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	17 Hydref 2016
PWNC:	Premiymau'r Dreth Gyngor – adroddiad cynnydd ar eu gweithredu
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones – Cyllid
PENNAETH GWASANAETH:	Marc Jones – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
AWDUR YR ADRODDIAD: FFÔN: E-BOST:	Geraint Jones – Rheolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau 01248 752651 Geraint Jones3@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL MEMBERS:	
A - Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
<p><u>Argymhellion</u></p> <p>Nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r cynllun a'r incwm ychwanegol a ddisgwyllir yn sgil cyflwyno Premiymau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2017.</p> <p>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gadarnhau ei fwriad i ddefnyddio unrhyw gyllideb a grëir drwy breiymau ar gartrefi gwag ac ail gartrefi, i gynorthwyo â'r ddarpariaeth am dai fforddiadwy ar Ynys Môn. Penderfynir pellach ymlaen ar lefel y gyllideb i'w ddyrannu a'r amserlen ar gyfer ei ddefnyddio, gan gymryd i ystyriaeth polisïau cyfredol Tai a rhai'r dyfodol ac o fewn anghenion ehangach y Cyngor o ganlyniad i'r datblygiadau mawr ar Ynys Môn.</p> <p>Cymeradwyo defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i gwrdd â chost ychwanegol (£11,200) swydd y swyddog clerigol dros dro hyd at 31 Mawrth 2017.</p> <p>Cymeradwyo penodi swyddog ymholiadau/refeniw ychwanegol ar sail barhanol – a chwrdd â'r gost (sef £25,000) o'r incwm ychwanegol a gasglwyd dan gynllun Premiymau'r Dreth Gyngor.</p> <p><u>Cefndir a datblygiadau</u></p> <p>Ar 10 Mawrth 2016, gwnaed y penderfyniadau a ganlyn gan y Cyngor Llawn -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi'r gorau i unrhyw ddisgowntiau a ganiatawyd ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac anheddau a ddefnyddir ond yn achlysurol (fe'u gelwir fel arfer yn ail gartrefi) a gosod Premiwm Treth Gyngor ar gyfer anheddau o'r fath; • Byddai'r Premiwm Dreth Gyngor yn 25% ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi; • Byddai adolygiad yn cael ei gynnal o Breiymau'r Dreth Gyngor ar ôl y flwyddyn lawn gyntaf o weithrediad y Cynllun; a • Rhoes y Cyngor Llawn gyfarwyddyd ac awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i – <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod yn dilyn ei benderfyniad (rhoddwyd rhybuddion priodol yn yr Holyhead Mail a'r Chronicle cyn diwedd mis Mawrth 2016); 	

- Cyfathrebu ei benderfyniad, hefyd o fewn 21 diwrnod, ac yn arbennig i'r rhai y bydd hyn yn effeithio arnynt, drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, darparu gwybodaeth mewn gwefannau neu ddefnyddio dulliau eraill o godi ymwybyddiaeth (cafodd tudalennau penodol eu sefydlu ar y wefan mewn perthynas â Phremiymau'r Dreth Gyngor ar anheddau a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi ar 8 Ebrill 2016, ac anfonwyd llythyr at bob unigolyn a oedd yn berchen annedd o'r fath rhwng 12 Mai a 31 Mai yn rhoi gwybod iddynt y byddent, yn ôl cofnodiadau cyfredol y Cyngor, ac o 1 Ebrill 2017, yn atebol i dalu'r Premiwm Treth Gyngor, y rheswm am hynny ac unrhyw eithriadau. Anfonwyd 781 o lythyrau mewn perthynas ag anheddau a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir a 2,337 mewn perthynas ag ail gartrefi);
- Sicrhau bod trefniadau gweinyddol wedi eu sefydlu er mwyn amcangyfrif faint o anheddau sydd wedi bod wag am gyfnod hir ac ail gartrefi ac a fydd yn gymwys i dalu'r Premiwm Treth Gyngor - (mae codau ychwanegol newydd wedi cael eu sefydlu ar y system feddalwedd er mwyn nod anheddau sy'n gymwys i dalu'r Premiwm Treth Gyngor, ni ragwelir y bydd angen gwneud gwaith mawr i uwchraddio meddalwedd i weithredu'r Premiwm Treth Gyngor er y bydd angen newid y feddalwedd i gymryd i ystyriaeth y newidiadau o ran y modd y caiff y sylfaen y dreth gyngor ei chyfrifo ac adolygu'r biliau).

Cafodd Swyddog Refeniw a Budd-daliadau ei aseinio am 2 - 3 diwrnod yr wythnos yn ystod Mai 2016 i fonitro a diweddarau cofnodiadau. Oherwydd bod y swyddog hwn bellach yn gweithio yn Cyswllt Môn, mae Swyddog Clarcyddol dros dro wedi cael ei gyflogi ar sail amser llawn o 5 Medi 2016 i ddarparu cymorth clarcyddol cyffredinol. Mae cost ychwanegol y cymorth clarcyddol ychwanegol hwn uwchlaw'r gyllideb am 2016/17. Hyd yma, mae'r swyddog hwn (yn cynnwys argostau) wedi costio £1,600 ac erbyn diwedd Mawrth 2017, amcangyfrifir y bydd y cyfanswm y gost oddeutu £11,200. Gofynnir am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i gwrdd â'r gost ychwanegol hon o gronfa wrth gefn y Cyngor ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

Mae swyddogaethau'r ddau Swyddog Ymholiadau hefyd wedi cael eu hadolygu fel bod un yn canolbwyntio ar refeniw a'r llall ar ymholiadau budd-dal. Mae'r Swyddog Ymholiadau refeniw yn gorfod delio gydag ymholiadau wrth ddesg neu drwy ymweld â phobl yn eu hanheddau er mwyn cadarnhau a yw'r Premiwm Treth Gyngor yn daladwy ar gyfer yr eiddo yn dilyn ymatebion gan y perchenogion);

- Sicrhau bod trefniadau gweinyddol yn cael eu sefydlu er mwyn gweinyddu a gorfodi premiwm y Dreth Gyngor yn briodol o 1 Ebrill 2017. Wrth wneud ei benderfyniad, nododd y Cyngor Llawn bod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno mewn egwyddor (yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith) i ddarparu unrhyw adnoddau ychwanegol y tybiwyd y byddai eu hangen (gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151), er mwyn sicrhau bod premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei weinyddu a'i orfodi yn briodol, trefniadau a fyddai, ar y cychwyn, yn cynnwys amcangyfrif o faint o anheddau fyddai'n gymwys i dalu'r premiwm Treth Gyngor. (Fel y nodwyd uchod, mae adnodd ychwanegol wedi cael ei gyflogi i sefydlu nifer yr anheddau y codir Premiwm Treth Gyngor arnynt ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Dyma'r ymatebion a gafwyd hyd yma gan berchenogion a gafodd wybod eu bod, yn ôl cofnodiadau'r Cyngor, yn debygol o orfod talu Premiwm Treth Gyngor -

Ail Gartrefi

Derbyniwyd 326 o ymatebion hyd yma yn apelio yn erbyn y penderfyniad i godi premiwm. Gwrthodwyd 74 o apeliadau ac o'r herwydd, codir Premiwm y Dreth Gyngor ar yr anheddau hyn. Hyd yma, mae 93 o achosion wedi llwyddo ac o'r herwydd, ni chodir Premiwm y Dreth Gyngor ar y rhain. Dyma oedd y prif resymau: -

Rhif	Rheswm
11	Yr annedd yw'r unig neu'r brif breswylfan
2	Maent yn adeiladau sy'n ategol i brif annedd
3	Annedd yn wag oherwydd bod y perchennog yn aelod o'r lluoedd arfog
9	Cyfngiadau cynllunio ar yr annedd
19	Anheddau'n wag oherwydd bod rhaid i'r perchennog fyw'n rhywle arall fel amod o'u cyflogaeth
5	Anheddau'n cael eu marchnata i'w gosod
8	Anheddau'n cael eu marchnata i'w gwerthu
23	Tenant yn byw yn yr anheddau
1	Annedd wedi ei gwerthu
2	Anheddau fydd yn gorfod Talu Trethi Busnes
6	Anheddau bellach yn gymwys am eithriad Treth Gyngor
1	Swyddog Prisio wedi tynnu'r annedd oddi ar restr y Dreth Gyngor
3	Anheddau'n cael eu gosod i bwrpas gwyliau ac y bydd raid talu Trethi Busnes ar eu cyfer

Mae apeliadau'n parhau i gael eu hystyried mewn perthynas â 159 achosion.

Eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir

Mae 166 o ymatebion wedi dod i law hyd yma yn apelio yn erbyn y penderfyniadau i osod premiwm. O'r rhain, bydd 76 yn cael sbario talu'r premiwm. Dyma'r prif resymau:-

Nifer	Rheswm
2	Bydd raid talu Trethi Busnes ar eu cyfer oherwydd eu bod yn cael eu hysbysebu fel llety gwyliau
1	Rhan o'r brif annedd
51	Anheddau y mae perchen-ddeiliaid ynddynt
2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai sydd ar werth
2	Eithriad y Dreth Gyngor yn berthnasol
7	Tenant yn yr anheddau
3	Anheddau wedi eu gwerthu
2	Anheddau wedi eu cymryd oddi ar restr y Dreth Gyngor
6	Anheddau wedi cael eu gadael yn wag oherwydd bod angen i'r perchennog fyw'n rhywle arall fel amod cyflogaeth

Y prif adborth a gafwyd gan berchenogion anheddau sydd wedi ysgrifennu i gwyno am y premiwm, yn arbennig felly ar ail gartref, yw'r ffaith eu bod wedi bod yn dod ar eu gwyliau i'r ynys am nifer o flynyddoedd ac wedi bod yn cyfrannu at yr economi leol ac wedi bod yn cyflogi crefftwyr lleol i wneud gwaith cynnal a chadw neu adeiladu. Maent yn dweud eu bod yn gwario mewn siopau, bariau, tail bwyta lleol ac ati.

Cafwyd heriau yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r cyfiawnhad dros godi premiymau a'r modd y mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r incwm ychwanegol a gaiff.

Mae hyn wedi rhoi trosolwg pwysig o'r modd y mae, a'r modd y bydd, perchenogion o bosib yn ymateb i orfod talu'r Premiwm Treth Gyngor. Er mwyn sicrhau cadernid a chywirdeb sylfaen y dreth yn y dyfodol, mae'n amlwg y bydd angen i ni, wrth adolygu a yw'r cartrefi hyn yn brif neu'n unig gartrefi ac adolygu cyfnodau gosod tai ar gyfer gwyliau, wneud mwy o ddefnydd o gofnodiadau asiantaethau credyd yn ogystal â chadarnhau'n gorfforol neu fel arall, yr hyn a ddywedir gan berchenogion. O'r ymatebion hyd yma (ac rwy'n rhagweld y daw mwy pan gyhoeddir y biliau gwirioneddol ym mis Mawrth 2017), efallai y ceir heriau a'r lefel tribiwnlys ynghylch a gosod y premiwm ac yn y llys ynadon mewn perthynas â gorfodi pobl i dalu'r premiwm.

Mae'n bwysig felly bod y Cyngor nid yn unig yn gallu sefydlu'n gywir lefel briodol yr incwm ychwanegol y bydd yn ei godi ond bod ganddo hefyd bolisi clir ynglŷn â'r modd y mae'n bwriadu defnyddio'r incwm ychwanegol hwn er budd y gymuned leol. Er bod yr Awdurdod yn rhydd i wario'r incwm ychwanegol fel y mae'n dymuno, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud dro ar ôl tro nad fydd y refeniw ychwanegol hwn yn cael ei glustnodi i bwrpas penodol ac yn ogystal, wedi dweud fwy nag unwaith y byddir yn annog awdurdodau lleol i'w ddefnyddio i gynorthwyo gyda darparu tai fforddiadwy a chwrdd ag anghenion eraill yn y maes tai.

Gyda'r risg o heriau posibl i'r premiwm a gorfodi'r premiwm, oni fyddai'n haws amddiffyn safiad y Cyngor petai gan y Cyngor bolisi clir ar y modd y mae'n bwriadu defnyddio'r incwm ychwanegol a pheidio â defnyddio'r incwm ychwanegol i falansio'r gyllideb, er enghraifft?

Ar hyn o bryd, mae dau o Swyddogion Ymholiadau'n gweithio yn y Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau - un ar gyfer ymholiadau Refeniw a'r llall ar gyfer ymholiadau Budd-daliadau. Mae'r ddau yn swyddogion amser llawn sy'n treulio'r cyfan o'u hamser yn ymgymryd â'u dyletswyddau cyfredol. Ni fedr y ddau swyddog hyn ymdopi gyda'r gwaith ychwanegol a gyfyd yn sgil gweithredu, dilysu a chasglu'r Premiwm Treth Cyngor. Argymhellir bod disgowntiau ac eithriadau i'r premiwm yn cael eu gwirio mewn ymdrech er enghraifft i leihau achosion o osgoi talu treth ar y premiwm a chyflogi swyddog ymholiadau/bilio refeniw ychwanegol wedi ei gyllido o'r incwm ychwanegol a geir o ganlyniad i'r Premiwm Treth Cyngor. Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog y swyddogion cyfredol, bydd hyn yn costio £25,000 y flwyddyn (gan gynnwys argostau).

- Yn ogystal, rhoes y Cyngor Llawn gyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i benderfynu a ddylai'r Cyngor Llawn, dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol ("Deddf 1992"), ddefnyddio ei bwerau dewisol i leihau'r atebolrwydd o ran y dreth gyngor sy'n codi o Bremiwm Treth Cyngor i'r graddau y byddai hynny'n rhesymol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw amgylchiadau wedi codi a oedd, yn fy marn i, yn ei gwneud yn angenrheidiol i'r Cyngor Llawn ddefnyddio'r pŵer hwn ond petai amgylchiad o'r fath yn codi rhwng rŵan ar adeg y bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ar ei Dreth Gyngor am 2017/18, byddir yn cynnwys hyn yn y penderfyniad a fydd gerbron y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn i'w ystyried. Byddai'r Cyngor yn cwrdd yn llawn â chost gostyngiad o'r fath.

Amcangyfrif cyfredol o'r incwm ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu o Bremiwm Treth Gyngor o 25%

Cyn i'r Cyngor Llawn wneud ei benderfyniad ar 10 Mawrth 2016, dywedwyd wrtho y byddai premiwm o 25% yn codi incwm ychwanegol oddeutu £730k. Roedd hyn yn cynnwys lwfans 30% ar gyfer addasiad/camgymeriad.

Ar hyn o bryd, ac ar ôl diwygio'r cofnodion yn dilyn cyhoeddi llythyrau Premiwm y Dreth Gyngor a sicio cofnodiadau asiantaethau credyd (gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo), amcangyfrifir gostyngiad o £55k yn yr incwm y disgwylir ei gasglu. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn amcangyfrifir y gellir disgwyl incwm ychwanegol o £1,025,125. Ni wnaed unrhyw lwfans am addasiad / camgymeriad mewn perthynas â'r ffigwr hwn. Mae tabl isod yn dangos y newid o gymharu â'r hyn yr adroddwyd arno i'r Cyngor Llawn ym Mawrth 2016 ac rwan:-

Ail Gartrefi - Mawrth 2016			Ail Gartrefi – Medi 2016		
Band	Nifer	Band D Cyfatebol	Band	Nifer	Band D Cyfatebol
A	173	115.33	A	124	82.67
B	244	189.78	B	209	162.56
C	475	422.22	C	443	393.78
D	579	579.00	D	543	543.00
E	460	562.22	E	429	524.33
F	245	353.89	F	227	327.89
G	116	193.33	G	117	195.00
H	30	60.00	H	32	64.00
I	15	35.00	I	14	32.67
Cyfanswm	2,337	2,510.78		2,138	2,325.89

Ail Gartrefi (yn seiliedig ar y ffigwr band D ar gyfartaledd ar gyfer 2016/17) refeniw ychwanegol (Medi 2016) $2,325.89 \times £1,340.57 \times 25\% = \text{£}779,505$

Eiddo Gwag Tymor Hir - Mawrth 2016			Eiddo Gwag Tymor Hir - Medi 2016		
Band	Nifer	Band D Cyfatebol	Band	Nifer	Band D Cyfatebol
A	149	99.33	A	159	106.00
B	135	105.00	B	142	110.44
C	140	124.44	C	142	126.22
D	152	152.00	D	155	155.00
E	112	136.89	E	105	128.33
F	42	60.67	F	47	67.89
G	19	31.67	G	22	36.67
H	0	0	H	0	0
I	0	0	I	1	2.33
Cyfanswm	749	710.00		773	732.89

Cartrefi gwasg tymor hir (yn seiliedig ar y ffigwr band D ar gyfartaledd ar gyfer 2016/17) refeniw ychwanegol (Medi 2016) $732.89 \times £1,340.57 \times 25\% = \text{£}245,620$

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Diweddariad yw hwn ar weithredu polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor llawn.

C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Diweddariad yw hwn ar weithredu polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor llawn.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Diweddariad yw hwn ar weithredu polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor llawn.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid yw'r gyllideb a'r modd y mae'r Cyngor Llawn yn bwriadu gwario'r incwm ychwanegol a geir o osod Premiwm ar y Dreth Gyngor wedi eu penderfynu eto.

DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA (mandadol)	Cytuno hefo cynwys yr adroddiad – 03/10/16
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Dim		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):		
Penderfyniad y Cyngor Llawn ar Breimiymau'r Dreth Gyngor ar 10 Mawrth 2016		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Hydref 2016
Pwnc:	Ffoaduriaid Syria: Adroddiad cynnydd mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen adsefydlu a chefnogaeth
Deilydd (ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Aled M Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Shan Lloyd Williams
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai 01248 752201 Shanlloydwilliams@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau
<p>Argymhellion</p> <p>A1 nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn</p> <p>A2 cymeradwyo'r camau nesaf</p> <p>A3 cymeradwyo argymhelliad y Swyddogion i'r Cyngor beidio â chymryd rhan yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches. Yr argymhelliad yma i'w adolygu ymhen 12 mis.</p> <p>1.0 Cyflwyniad</p> <p>1.1 Mewn ymateb i'r nifer sylweddol o bobl sy'n ffoi o Syria ac yn cyrraedd fel ffoaduriaid yn yr UE, cytunodd y Cyngor yn ei gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill 2016 i gymryd rhan yn y Cynllun Adsefydlu Pobl Fregus o Syria (SVPRS) a chroesawu ffoaduriaid i Ynys Môn fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol. Cafwyd cefnogaeth unfrydol ar draws y Cyngor i'r rhaglen hon.</p> <p>1.2 I grynhoi, argymhellion allweddol yr adroddiad oedd y byddai'r Cyngor yn ceisio dod o hyd i lety addas ac yn cynnig cefnogaeth yn y lle cyntaf i hyd at 30 o unigolion neu 10 o deuluoedd dros y 3 blynedd nesaf. Yn ystod blwyddyn 1, byddai'r Cyngor yn lletya hyd at 10 o unigolion, gan roddi blaenoriaeth i deuluoedd gyda phlant o oedran ysgol gynradd.</p> <p>1.3 Byddai'r ffoaduriaid, gan ddibynnu ar argaeledd ac addasrwydd llety, yn cael eu cartrefu yn y sector rhentu preifat yn ardal Menai – ac yn fwy penodol, yn ardaloedd</p>

Porthaethwy a Llanfairpwll.

1.4 Gwnaed argymhelliad hefyd y byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar gynnydd o ran cyflwyno'r rhaglen ailsefydlu a chymorth, 6 mis o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill, 2016.

2.0 Cynnydd

2.1 Roedd y gwaith paratoi cynnar a wnaed yn allweddol. Fe sefydlwyd gweithgor wedi ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ac arno gynrychiolwyr o amrywiaeth o bartneriaid penodol gan gynnwys y trydydd sector, sydd wedi cefnogi swyddogion i wneud y gwaith sylfaenol cyn croesawu'r teulu cyntaf i Ynys Môn.

2.2 Roedd y ffrydiau gwaith allweddol i gyflwyno'r SVPRS ar lefel ymarferol yn cynnwys: -

- Nodi llety addas;
- Comisiynu gwasanaethau cymorth a chyfieithu priodol;
- Ystyried anghenion addysg Addysg ac lechyd;
- Ymgynghori ynghylch cydlyniant cymunedol gyda phartneriaid ac ymgysylltu'n bennaf gyda phreswylwyr lleol, Aelodau Etholedig lleol a Chynghorau Cymuned a Thref.
- Cynnal trafodaethau manwl gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref.

2.3 Mewn gwirionedd, mae rheoli'r prosiect o baratoi ar gyfer y teulu cyntaf o Ffoaduriaid wedi cymryd llawer o amser ac wedi cael effaith ar ffrydiau gwaith eraill yn y Gwasanaeth Tai. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gwaith a wnaed yn golygu bod y sylfeini yn eu lle i groesawu ychwaneg o deuluoedd o Ffoaduriaid o Syria i Ynys Môn yn y dyfodol.

2.4 Mae'r cartref ar gyfer ein teulu cyntaf wedi cael ei ddarparu gan landlord yn y sector rhentu preifat, ac mae wedi bod yn hynod gefnogol. Rheolwr y Tîm Opsiynau Tai fu'n arwain ar y gwaith o negodi telerau ac amodau, gosodiadau a ffitiadau a sicrhau bod yr holl wasanaethau a threfniadau cytundebol angenrheidiol yn eu lle ac yn cael eu darparu ar amser.

2.5 Mae'r Heddlu a'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol hefyd wedi chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod y lleoliad yn addas a swyddogion o'r Adran Addysg a Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd wedi paratoi ar gyfer lleoliadau ysgol a chofrestru gyda meddygfa leol.

2.6 Yn ogystal, gweithio gyda'r grŵp gwirfoddol '*Pobl i Bobl*' oedd canolbwynt y cynigion o gefnogaeth gymunedol. Mae'r grŵp hwn hefyd wedi helpu i ddod o hyd i ddodrefn o ansawdd ar gyfer y cartref, a chyfeirio'r teulu at gefnogaeth leol.

2.7 Mae Rheolwr y Tîm Opsiynau Tai a'r Swyddog Cymorth penodedig hefyd wedi bod yn allweddol o ran helpu'r teulu gyda thasgau byw bob dydd megis dangos iddynt sut i ddefnyddio'r gwres, trydan, band eang, sicrhau bod ganddynt ddigon o fwyd yn y tŷ, eu helpu i agor cyfrif banc a hawlio budd-daliadau.

2.8 Mae'r teulu o bedwar wedi bod yn eu cartref newydd ers diwedd mis Awst ac wedi setlo i mewn yn dda. Mae'r plant yn yr ysgol, yn hapus ac yn dod yn eu blaenau'n dda. Mae gwasanaeth cyfieithydd cymwys wedi'i gomisiynu i gynorthwyo yn yr ysgol ac i helpu'r teulu ddechrau integreiddio yn y gymuned leol.

2.9 Mae darparu Swyddog Cymorth penodedig wedi cael effaith sylweddol o ran helpu'r teulu i setlo yn y gymuned a bydd yn hanfodol yn y dyfodol i helpu gyda integreiddiad y teulu hwn a theuluoedd eraill o Syria.

2.10 Mae'r Swyddog Cymorth wedi bod yn mynd hefo'r teulu am ddiwrnodau allan ar draws yr Ynys, yn eu cyflwyno i'r diwylliant lleol. Mae'r teulu yn awyddus i ddysgu am ddiwylliant ein gwlad, yr iaith Gymraeg ac yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol. Mae'r tad eisoes wedi dechrau gwirfoddoli gyda mudiad gwirfoddol lleol.

2.11 Mae'r gefnogaeth a gafwyd a phrofiadau a rannwyd gydag Awdurdodau Lleol eraill wedi bod yn werthfawr, ynghyd â'r gefnogaeth 'r bwletinâu rheolaidd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.0 Heriau

- i. Yr her fwyaf hyd yn hyn oedd dod o hyd i lety rhent preifat addas yn ardaloedd Porthaethwy a Llanfairpwll ardaloedd Menai, a nodwyd yn wreiddiol fel yr ardaloedd i'w targedu.
- i.ii. Argaeledd llefydd yn yr ysgolion cynradd lleol yn yr ardaloedd.
- i.iii. Mae'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael yn y 'cipluniau' a gyhoeddwyd ymlaen llaw gan y Swyddfa Gartref, yn gwneud paratoi yn fwy anodd.
- iv. Mae rheoli'r prosiect a chefnogi'r prosiect yn draul ar amser. Mae'n rhaid cyflogi swyddog cymorth rhan-amser dynodedig ar gyfer oes y rhaglen. Y Swyddfa Gartref sy'n cwrdd â'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen SVPRS.

4.0 Ceisiadau i adsefydlu plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches

4.1 Mae ceisiadau gan y Swyddfa Gartref i awdurdodau lleol ar draws y DU i adsefydlu plant sydd ar eu pennau eu hunain ar gynnydd. Mae dwy raglen benodol, sef:
Y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches Plant (UASC) a'r Rhaglen Adsefydlu Plant Bregus (VCRP).Gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion.

4.2 Derbyniwyd llythyr dyddiedig 30/08/16 gan y Llefarydd dros Dai a'r Iaith Gymraeg yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru drafod ac *"ystyried a fedr, ac ym mha fodd y gall eich awdurdod ymateb i'r ceisiadau am help a chyfranogiad gan y Swyddfa Gartref, yn enwedig o ran y Cynllun Trosglwyddo UASC Cenedlaethol"*.

4.3 Mae swyddogion wedi trafod y cais hwn ac yn argymhell i'r Pwyllgor Gwaith na ddylai'r Cyngor gymryd rhan yn yr UASC na'r VCRP. Mae'r rhesymau wedi'u nodi isod:

- Mae'r Cyngor eisoes yn derbyn nifer uchel o blant ar eu pennau eu hunain sy'n dod trwy'r porthladd yng Nghaergybi;
- Nid yw'r Cyngor yn gallu diwallu eu hanghenion iaith a diwylliant, ac yn aml (os nad ar bob achlysur) mae plant sydd ar eu pennau eu hunain yn cael eu lleoli gyda gofalcwyr maeth y tu allan i'r sir. O ganlyniad, maent yn colli eu cartref pan gânt eu lleoli'n all-sirol ond, yn ychwanegol at hynny, mae'n gwneud y cyswllt gydag unrhyw ardal a'r ymdeimlad o fod yn perthyn yn anodd;
- Yn aml, nid ydym yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol - bydd y plant hyn wedi dioddef trawma. Nid oes gennym y gwasanaethau na'r arbenigedd i ymateb.

5.0 Camau Nesaf

- i. Rydym yn disgwyl croesawu ein hail deulu o Syria cyn y Nadolig.
- ii. Ar hyn o bryd, mae'r swyddogion yn chwilio am eiddo addas yn yr ardal rhwng Porthaethwy a Llandegfan. Unwaith eto, eiddo yn y sector rhentu preifat fydd hwn.
- iii. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Addysg a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd er mwyn gweld lle mae'r llefydd gweigion er mwyn llywio'r broses o ddewis y teulu nesaf o Borth y Swyddfa Gartref.

B - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Y Pwyllgor Gwaith wnaeth y penderfyniad gwreiddiol i gymryd rhan yn y rhaglen SVPRS, gyda chais i adrodd ar gynnydd mewn 6 mis.

C - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Y Swyddfa Gartref sy'n talu'r cyfan o'r costau

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) (Gorfodol)	Trafodwyd gan Yr Uwch Dim Arwain 19/09/16
2	Cyllid / Adran 151 (Gorfodol)	Dim sylwadau pellach
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (Gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dylai unrhyw benodiadau i swyddi fod yn amodol ar brosesau recriwtio ac egwyddorion y Cyngor.
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	

E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	

F - Atodiadau:
Atodiad 1

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith Ebrill 2016

Atodiad 1

Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC)

Ar 1 Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth y DU eu Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol i annog pob awdurdod lleol i gymryd rhan yn wirfoddol mewn trefniadau trosglwyddo rhwng awdurdodau i ofalu am UASC sy'n cyrraedd yn y DU ac sy'n ceisio lloches er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldeb o ofalu amdanynt yn cael ei rannu'n fwy cyfartal ar draws y DU. Dan y Cynllun, gall plentyn sy'n cyrraedd mewn ardal awdurdod lleol sydd eisoes dan straen yn gofalu am UASC gael eu trosglwyddo i awdurdod arall sydd yn meddu ar gapasiti. I gefnogi'r Cynllun, bydd y Llywodraeth yn darparu cyllid i awdurdodau lleol sy'n gofalu am UASC, a byddant yn derbyn £41,610 y flwyddyn i gefnogi pob plentyn sydd dan 16 oed. Cydlynodd WSMP ddigwyddiad ym mis Gorffennaf i awdurdodau lleol Cymru i egluro'r cynllun a chlywed gan uwch swyddogion o'r Swyddfa Gartref. Roedd Cyngor Caint hefyd yn bresennol i esbonio'r pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd (maent yn lletya oddeutu 900 UASC ar hyn o bryd) a'r angen i awdurdodau lleol eraill chwarae eu rhan i leddfu'r pwysau hyn ac i ddysgu o'u profiad. Mae'r Cynllun Trosglwyddo UASC eisoes yn weithredol yn Lloegr gyda rhai UASC eisoes wedi cael eu trosglwyddo rhwng awdurdodau ac mae'r Swyddfa Gartref yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach ac i glywed am unrhyw addewidion y mae awdurdodau Cymru yn barod i'w gwneud. Mae rhagor o fanylion ar gael gan www.local.gov.uk)

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17fed o Hydref 2016
Pwnc:	Ail fodelu Cynllun Llawr y Dref, Llangefni
Aelod(au) Portffolio:	Aled Morris Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Shan Lloyd Williams
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Ned Michael – Rheolydd Busnes Gwasanaethau Tai 01248 752 289 NedMichael@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Bob Parry Dylan Rees Nicola Roberts

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>I. Symud ymlaen gyda rhaglen gwelliannau i 1 - 4 a 5 - 29 Llawr y Dref, Llangefni sydd yn cynnwys uchafu gofod mewnol y fflatiau unigol drwy lynu wrth yr ôl troed presennol, gosod lifft yn bloc 5 - 29, uwchraddio'r mannau cymunedol o fewn yr adeilad yn ogystal â gwelliannau allanol i'r adeilad.</p> <p>II. Gwella trefniadau diogelwch 1 - 4 a 5 - 29 Llawr y Dref, Llangefni drwy uwchraddio'r systemmynediad i'r adeilad a'r mannau cymunedol sy'n cynnwys system CCTV. Uwchraddio'r offer tan o fewn y ddau bloc.</p> <p>III. Parhau gyda dynodiad presennol y cynllun am gyfnod o 6 mis yn dilyn cwblhau'r ail-fodelu. Os na fydd modd gosod yr unedau yn dilyn y cyfnod hwn bydd dynodiad y cynllun yn cael ei ostwng i fod ar gyfer pobl dros 50 oed neu wedi eu cofrestru'n anabl.</p> <p>Y rhesymau dros yr argymhellion hyn yw oherwydd bod maint mewnol yr unedau'n fach iawn a ddim yn ddeniadol i ddarpar denantiaid a byddai rhoi lifft o fewn y cynllun hefyd yn gwella mynediad i'r llawr cyntaf ac yn ei wneud yn fwy deniadol i ddarpar denantiaid.</p> <p>Mae pryderon wedi eu hamlygu gan denantiaid am y bobl sydd yn cael mynediad i'r adeilad a byddai uwchraddio'r system mynediad i'r adeilad a mannau cymunedol yn lleddfu'r pryderon hyn ac yn gwella trefniadau diogelwch cyffredinol o fewn yr adeilad.</p> <p>Yn dilyn y gwaith ail fodelu os nad ydym yn llwyddo i osod yr unedau o fewn cyfnod hyd at 6 mis bydd rhaid newid dynodiad y cynllun. Rydym wedi ymgynghori gyda'r tenantiaid</p>

ar gyfer newid y dynodiad i fod ar gyfer rhent cyffredinol ac roedd y tenantiaid yn unfrydol yn erbyn hyn. Hyderaf bydd y tenantiaid yn croesawi'r newid y dynodiad i dros 50 oed yn hytrach na bod ar gyfer rhent cyffredinol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Yn dilyn galw mewn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith mis Ebrill ar sail diffyg ymgynghoriad gyda thenantiaid a rhan ddeiliaid allweddol eraill rydym bellach wedi dilyn proses ymgynghori llawn yn unol â'r ddogfen ymgynghori (Gweler Atodiad).

Fel rhan o'r broses cynhaliwyd dau gyfarfod gyda'n tenantiaid yn Llawr y Dref, y cyntaf ar y 14eg o Orffennaf a'r ail ar y 18fed o Awst ac fe wahoddwyd y rhan ddeiliaid allweddol eraill i fynych cyfarfod penodol yn y cynllun ar yr 11eg o Awst er mwyn ein galluogi i gyflwyno'r ddogfen ymgynghori iddynt ac i roddi cyfle iddynt weld y cynllun a gofyn unrhyw gwestiynnau.

Fel rhan o'r broses ymgynghori gyd thenantiaid penodwyd Age Cymru Gwynedd a Môn i weithredu fel eiriolwr ar gyfer y tenantiaid a bu i ni dderbyn ymateb gan Age Cymru ar ran yr holl denantiaid.

Rhai o'r sylwadau derbyniwyd o fewn yr ymateb hwn oedd:-

- Ein bod wedi gadael y cynllun ddirywio o ran cyflwr.
- Colli gwasanaeth Warden wedi cyfrannu tuag at y ffaith bod pobl ddim isio byw yn y cynllun.
- Pobl ifanc yn byw mewn fflatiau eraill cyfagos i'r cynllun yn creu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddyddiol.
- Pobl sy'n ymweld â Llawr y Dref yn ogystal â gofalydd sy'n ymweld â thenantiaid Llawr y Dref ddim yn teimlo'n ddiogel wrth ymweld â'r adeilad oherwydd y problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Ffordd o fyw pobl ifanc yn wahanol iawn i ffyrdd o fyw pobl hyn ac o ganlyniad byddai newid dynodiad i rent cyffredinol o bosib yn creu gwrthdaro o ran ffyrdd o fyw'r gwahanol denantiaid.
- Dylid ystyried gostwng yr oedran mynediad i 50 oed a throsodd yn hytrach na rhent cyffredinol sy'n agored i bob oedran.
- Diffyg llefydd parcio yn creu anawsterau a byddai newid y dynodiad o bosib yn gwaethgu'r sefyllfa gan fyddai gan bobl ifengach geir.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o greu swydd gofalydd i edrych ar ôl y safle a'r adeilad. Gan fod safle Llawr y Dref yn ehangach na blociau A a B efallai byddwn yn gallu cynnig gwasanaeth gofalydd i weddill y safle yn ogystal â'i gynnig ar gyfer tenantiaid Glan Cefni gan fod yr unedau wedi eu lleoli yn gyfagos be fyddai'r tenantiaid yn dymuno prynu mewn i

wasanaeth o'r fath.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ein bod yn gofyn am yr hawl i newid dynodiad unedau 1 - 4 a 6 - 29 Llawr y Dref sydd ar hyn o bryd yn 60oed neu wedi cofrestru'n anabl.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson a dwy o'r Amcanion Corfforaethol sydd eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn sef:-

- i) Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- ii) Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi.

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae darpariaeth o £450k wedi ei gynnwys yng nghyllideb cyfalaf y Cyngor 2016/17 ar gyfer ail fodelu Llawr y Dref ynghyd a bid cyfalaf pellach o £250k ar gyfer 2017/18.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Trafodwyd yn yr UDA ac yn gefnogol i'r argymhelliad.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Trafodwyd yn yr UDA ac yn gefnogol i'r argymhelliad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Trafodwyd yn yr UDA ac yn gefnogol i'r argymhelliad.
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo	
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	Y Cyng Dylan Rees yn croesawi'r cyfle i weld y cynlun uwchraddio ac yn cael ei osod yn unol a'r agrymhelliad nodwyd.

10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Heddlu/Cyngor Tref Llamgefni/ Trigolion a Busnesau Cyfagos. Pawb yn gefnogol i'r argymhelliad.
-----------	--	--

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

FF - Atodiadau:	
I.	Dogfen Ymgynghoriad Tenantiaid Llawr y Dref.

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
Adroddiad Age Cynru Gwynedd a Môn. Adroddiad Pwyllgor Gwaith 25.04.2016



Ymgynghoriad gyda Thenantiaid a Rhanddeilwyr Allweddol Ar gyfer ail fodelu

1 – 29 Llawr y Dref, Llangefni

Gorffennaf 2016

1. Cyflwyniad

Cwblhawyd datblygiad Llawr y Dref Llangefni yn 1982. Bwriad y cynllun gwreiddiol oedd cynnig cartrefi i denantiaid oedran 60 neu fwy. Mae'r cynllun wedi ei adeiladu mewn 6 bloc, bloc A rhif 1 - 4, bloc B rhif 5 - 29 (roedd bloc hwn yn gynllun tai gwarchod gyda gwasanaeth warden), bloc C rhif 30 - 35, bloc Ch rhif 36 - 41, bloc D rhif 42 - 47 a bloc Dd rhif 48 - 51.

Mae'r gwasanaeth warden ar gyfer bloc b wedi ei ddiddymu ers rhai blynyddoedd gyda chyn dy'r warden (rhif 5) wedi ei osod fel tŷ teulu.

Dros y blynyddoedd er mwyn ein galluogi i osod rhai o'r unedau wrth iddynt ddod yn wag ym mlociau C hyd at Dd rydym wedi gorfod gostwng oedran mynediad i 40 a drosodd.

2. Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd mae 3 o'r 4 uned yn bloc A yn wag gyda 17 o'r 24 uned yn bloc B yn wag sy'n gyfanswm o 20 uned wag o fewn y cynllun ar hyn o bryd ac yn unedau anodd ei gosod.

O ran darpariaeth ar gyfer pobl hyn mae gennym fel Cyngor gynllun Glan Cefni sydd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar o ran gwelliannau a'i foderneiddio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ffit i'w bwrpas i'r dyfodol ac mae gennym gynllun tai gofal ychwanegol ar fin cychwyn cael ei ddatblygu yn Llangefni gan Grŵp Pennaf un o'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithio ar yr ynys.

3. Rhestr Aros am unedau llai yn Llangefni

Ar hyn o bryd mae 58 o bobl ar ein rhestr aros gyffredin am fflat un neud dwy lofft yn Llangefni gydag oedran yn amrywio o 17 oed hyd at 85 oed.

Pe byddem yn edrych ymhellach i broffil oedran yr ymgeiswyr hyn sydd ar y rhestr aros gwelwn fod 27 o fewn oedran 21 - 40 gyda 39 o fewn oedran 21 - 50.

O edrych ar yr ystadegau uchod mae hyn yn tystiolaethu bod angen unedau maint llai yn Llangefni ar gyfer rhent cyffredinol.

Yn ychwanegol i'r uchod mae gennym 4 o denantiaid ar hyn o bryd yn edrych i symud i eiddo llai yn Llangefni.

4. Ymgynghoriad

Beth?

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn gydag ein tenantiaid fe fyddwn yn dymuno ymgynghori ar 4 pwynt penodol:-

- i) Newid dynodiad unedau 1 – 29 Llawr y Dref i fod ar gyfer rhent cyffredinol, golygai hyn na fyddai rhaid bod dros 60 oed i geisio am fflat yno.
- ii) Gwella diogelwch unedau 1 – 29 Llawr y Dref
- iii) Uwchraddio adeilad blociau A a B ac uchafu gofod mewnol y fflatiau 1 – 4 a 6 – 29 Llawr y Dref
- iv) Defnyddio'r hawl i wneud gosodiadau lleol a sensitif yn unol â chymal 14.4 o'n polisi gosod.

Pam?

- i) 20 o fflatiau o fewn blociau A a B yn wag a methu cael tenantiaid cymwys ar eu cyfer.
- ii) Maint y fflatiau yn fach a ddim yn gwneud defnydd gorau o'r arwynebedd mewnol sydd ar gael ynddynt.
- iii) Mannau cymunedol angen eu huwchraddio er mwyn denu tenantiaid i'w defnyddio.
- i) Nifer o achosion Ymddygiad gwrth cymdeithasol.
- v) Mae yna bobl ar y rhestr aros ond dim digion o fflatiau/tai ar gael.

Fel rhan o'r broses ymgynghori gyda'n tenantiaid byddwn yn cynnal digwyddiad i gyflwyno'r ddogfen hon ynghyd a chael cyfle i wrando ar unrhyw bryderon gan ein tenantiaid.

Cymryd y cyfle i gyflwyno'r amserlen byddwn yn dilyn mewn perthynas â ail fodelu'r cynllun.

5. Yr Ail-fodelu

Gwella diogelwch – fel rhan o'r ail fodelu byddwn yn gwella trefniadau mynediad i'r adeilad drwy roddi system rheoli mynediad i'r adeilad a'r mannau cymunedol o fewn yr adeilad er mwyn sicrhau mai dim ond y tenantiaid sy'n cael defnydd o'r adeilad a'r mannau cymunedol.

Byddwn yn rhoddi system CCTV newydd tu allan a thu mewn i'r adeilad yn y mannau cymunedol er mwyn gwella diogelwch.

Byddwn yn uwchraddio systemau ac offer diogelwch tan.

Uchafu gofod mewnol y fflatiau – er mwyn creu gwell defnydd o arwynebedd mewnol y fflatiau lle yn bosib byddwn yn symud waliau mewnol i greu gwell defnydd o'r gofod.

Byddwn yn uwchraddio systemau gwresogi o fewn y fflatiau fel rhan o uchafu'r gofod mewnol er mwyn lleihau costau gwresogi'r unedau i'n tenantiaid.

Yn ystod y cyfnod ail fodelu nid ydym yn disgwyl bydd rhaid i denantiaid symud allan o'u cartrefi ond gallwn gadarnhau hyn wedi'r cynlluniau terfynol gael eu cytuno.

Defnyddio ein hawl i wneud gosodiadau lleol a sensitif

Gan fod hanes o ymddygiad gwrth cymdeithasol yn bodoli o fewn dalgylch Llawr y Dref byddwn yn defnyddio ein hawl yn unol â chymal 14.4 o'n polisi gosod er mwyn sicrhau bod unrhyw ddarpar denantiaid yn addas a chymwys ar gyfer cael eu cartrefu o fewn y cynllun.

O dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 mae gennym fel landlord fwy o hawliau ar gyfer delio gydag achosion gwrthgymdeithasol a byddwn yn defnyddio'r hawliau hyn yn llawn wedi'r gwaith ailfodelu gwblhau.

Uchafu presenoldeb o fewn y cynllun

Fel rhan o'r broses ail fodelu byddwn yn annog staff y Gwasanaeth Tai, Asiantaethau Allanol a'r heddlu i gael presenoldeb o fewn y cynllun i fod ar gael i denantiaid i ddelio gyda materion dydd i ddydd.

6. Amserlen Ymgynghori

Trefnu Cyfarfod gyda'r tenantiaid i gyflwyno'r Ddogfen Ymgynghorol	w/c 11eg o Orffennaf
Llythyr tenantiaid yn unigol gyda'r ddogfen ymgynghorol i ganfod eu barn	w/c 11eg o Orffennaf
Derbyn ymatebion y tenantiaid	erbyn y 12fed o Awst
Derbyn ymatebion rhanddeiliaid allweddol	erbyn y 12fed o Awst
Cyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith	19eg o Fedi

7. Amserlen ar gyfer y Gwaith Ail Fodelu

Medi	Cytuno'r spec ar gyfer mynd allan i dendr
Hydref	Allan i dendr
Tachwedd	Cychwyn ar safle
Ionawr	Cwblhau'r Gwaith
Ionawr	Cychwyn gosod yr unedau

Holiadur Tenantiaid / Tenant Questionnaire

Ail Fodelu rhif 1 – 29 Llawr y Dref, Llangefni / Remodelling of 1 – 29 Llawr y Dref, Llangefni

Enw/Name:-

Cyfeiriad/Address:-

.....

1. **Mae'r Cyngor yn awyddus i newid dynodiad rhifau 1 - 29 Llawr y Dref o fod yn gynllun ar gyfer tenantiaid 60 oed a throsodd i fod ar gael fel unedau rhent cyffredinol ar gyfer unrhyw oedran / The Council is eager to change the designation of 1- 29 Llawr y Dref Llangefni from a scheme for tenants aged 60 years and over to general rent units which will be available to any age group.**

Ydych chi'n cefnogi hyn? / Do you support this? Ydw / Yes Nac Ydw / No

Os nad ydych yn gefnogol nodwch eich rhesymau isod / If you are not in favour, note your reasons below:-

.....
.....
.....
.....

2. **Mae'r Cyngor awyddus i wella diogelwch y cynllun trwy roddi system rheoli mynediad newydd i'r adeilad ynghyd â gosod system CCTV o fewn mannau cymunedol a thu allan i'r adeilad / The Council is eager to improve the security of the building by installing a new door entry system and CCTV in communal areas and outside the building**

Ydych chi'n cefnogi hyn? / Do you support this? Ydw / Yes Nac Ydw / No

Os nad ydych yn gefnogol nodwch eich rhesymau isod / If you are not in favour, note your reasons below:-

.....
.....
.....
.....

3. **Mae'r Cyngor yn awyddus i gynnal gwelliannau o fewn y mannau cymunedol i'r adeilad ynghyd a gwaith o uchafu'r gofod mewnol o fewn y fflatiau unigol / The Council is eager to improve the communal areas within the building and to carry out work to maximize the internal floorspace within individual flats.**

Ydych chi'n cefnogi hyn? / Do you support this? Ydw / Yes Nac Ydw / No

Os nad ydych yn gefnogol nodwch eich rhesymau isod / If you are not in favour, note your reasons below:-

.....
.....
.....
.....

4. **Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu Gosodiadau Lleol a Sensitif wrth osod y fflatiau yn dilyn yr ailfodelu / The Council intends to implement a Local and Sensitive Lettings Policy when letting the flats following the remodelling work**

Ydych chi'n cefnogi hyn? / Do you support this? Ydw / Yes Nac Ydw / No

Os nad ydych yn gefnogol nodwch eich rhesymau isod / If you are not in favour, note your reasons below:-

.....
.....
.....
.....

Dylid dychwelyd yr holiadur hwn i Ned Michael Rheolwr Busnes Gwasanaethau Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW erbyn 12 Awst 2016 / This questionnaire should be returned to Ned Michael, Housing Services Business Manager, Council Offices, Llangefni, LL77 7TW by 12 August 2016

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Hydref – Pwyllgor Gwaith
Pwnc:	Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersylloedd Anawdurdodedig
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyngorydd Aled M Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Lucy Reynolds, Rheolwr Datblygu a Strategaeth Tai Est 2225 lucyreynolds@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Pob Aelod

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Bod Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi bod Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersylloedd Anawdurdodedig gan Sipsiwn a Theithwyr.

Cefndir

i. Polisiâu a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Yn 2013, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ar Reoli Gwersylla Anawdurdodedig. Ysgrifennodd at Brif Weithredwyr pob Awdurdod Lleol yn 2015 i'w hatgoffa o'r argymhelliad yn y canllawiau hyn i fabwysiadu protocol ar gyfer eu sefydliadau.

Mae'r Canllawiau hyn yn darparu rhywfaint o gyd-destun pwysig am y gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghymru. Mae'r gwersylloedd yn tueddu i ddigwydd yn fwyaf rheolaidd ar hyd y prif lwybrau cludiant sydd, yn draddodiadol, wedi bod yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith yn ogystal â mynediad i'r prif borthladdoedd yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn cydblethu â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Mae'n datgan mai'r prif reswm pam fo gwersylloedd anawdurdodedig yn digwydd yw oherwydd diffyg safleoedd a mannau aros awdurdodedig. Mae Sipsiwn a Theithwyr crwydrol wedi gweld mannau aros traddodiadol yn cau, a hynny oherwydd is-ddeddfau ac yn sgil cryfhau'r deddfau sy'n ymwneud â defnyddio tir comin ar gyfer gwersylla a'r ffaith bod trefeddiannwyr yn cau i ffwrdd fannau aros hanesyddol. Bydd darparu mwy o safleoedd awdurdodedig, ynghyd â rheoli'r safleoedd hynny'n effeithiol, yn cael gwared ar y rheswm dros fodolaeth gwersylloedd anawdurdodedig. Wrth i'r safleoedd a'r mannau aros angenrheidiol gael eu datblygu, bydd angen gwneud llai o ddefnydd o'r protocolau ar gyfer gwersylloedd anawdurdodedig.

Mae'r Canllawiau yn bennaf ar gyfer awdurdodau lleol, ond maent hefyd yn rhoi cyngor ar rôl y Byrddau Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Addysg i Deithwyr o ran cynorthwyo'r awdurdodau lleol pan fo gwersylloedd anawdurdodedig yn digwydd.

ii. Gweithio ar y cyd yng Ngogledd Cymru

Mae Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru yn cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn i gefnogi gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, BIPBC a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r holl awdurdodau lleol ar hyd coridor yr A55 wedi gweld gwersylloedd anawdurdodedig yn digwydd ar nifer o achlysuron bob blwyddyn. Mewn rhai achosion, bydd nifer o awdurdodau lleol yn gweld yr un grŵp o Sipsiwn a Theithwyr yn gwersylla yn eu hardaloedd . Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw awdurdod safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro swyddogol y gellir cyfeirio Sipsiwn a Theithwyr iddynt.

Datblygwyd y protocol gan y fforwm i nodi egwyddorion cyson y cytunwyd arnynt. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig o ran sicrhau fframwaith clir ar gyfer BIPBC, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân sy'n gweithio ar draws ardaloedd yr holl awdurdodau. Trafodwyd y Protocol yng nghyfarfod Prif Weithredwr Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2016 lle cytunwyd i'w gyflwyno i'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliadau unigol.

Gwnaed ymgais o'r blaen yn 2012 i gytuno ar brotocol ar gyfer Gogledd Cymru. Er i Gyngor Sir Ynys Môn gytuno iddo, ni chafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr holl bartneriaid ar draws y rhanbarth. Mae'r Protocol newydd wedi canolbwyntio ar nodi'r egwyddorion allweddol y cytunwyd arnynt gan yr holl bartneriaid ac mae'n nodi "Trwy fabwysiadu'r protocol bydd pob sefydliad yn ymrwymo i adolygu a / neu ddatblygu ei weithdrefnau mewnol ei hun" (4.3.1). Mae hyn yn sicrhau bod pob awdurdod yn cadw'r gallu i nodi gweithdrefnau manwl sy'n addas i gwrdd ag amgylchiadau yn eu hardaloedd eu hunain.

Cyn datblygu'r Protocol ar gyfer Gogledd Cymru, 'roedd canllawiau gweithdrefnau ar gyfer delio â gwersylloedd anawdurdodedig eisoes wedi'u datblygu gan yr adran Dai yn CSYM ac fe'u rhannwyd gyda swyddogion mewnol ac allanol a allai fod yn ymwneud â delio â gwersylloedd pan fyddant yn digwydd. Yn dilyn datblygu'r Protocol ar gyfer Gogledd Cymru, mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu gyda'r rhanddeiliaid lleol perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn ganllawiau manwl y gall swyddogion Ynys Môn eu defnyddio ac i wneud yn siŵr eu bod yn gyson gydag egwyddorion y Protocol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r protocol wedi'i ddefnyddio i arwain ymatebion y Cyngor ers mis Ionawr

Pwrpas y Protocol ar gyfer Gogledd Cymru

Bwriad y Protocol yw sefydlu egwyddorion cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â gwersylloedd anawdurdodedig a lleihau tyndra cymdeithasol pan fo gwersylloedd yn digwydd, lleihau costau gorfodaeth a glanhau a sicrhau dull cydlynol o weithredu rhwng y gwasanaethau y gall bod angen iddynt gymryd camau.

Mae Adran 1.6 yn crynhoi amcanion y Protocol sef

- rheoli gwersylloedd anawdurdodedig mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan gydbwysu hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn a Theithwyr, trigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol a lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol neu gymunedol
- gweithio gydag asiantaethau partner i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal Sipsiwn a Theithwyr rhag cael eu hallgau'n gymdeithasol
- cyflwyno eglurder ar gyfer y broses o ymateb i ymholiadau a rhannu gwybodaeth
- pennu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau clir, cyson ac amserol sy'n cydblethu â strategaethau a gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr (e.e. tai, addysg, cynllunio).

Mae Adran 2 yn nodi egwyddorion rhyngweithio â Sipsiwn a Theithwyr ar wersylloedd awdurdodedig a chamau gweithredu penodol y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd, yn bennaf darparu Un Pwynt Cyswllt a fydd yn arwain ar ymateb yr awdurdod ac yn sicrhau y cedwir cofnodion ac y diogelir data.

Mae Adran 3.3.1 yn nodi'r hyn y bydd yr awdurdod lleol yn ei wneud pan fo gwersyll ar dir yr awdurdod lleol. Mae swyddogion Ynys Môn bellach yn dilyn y gofynion hyn ac fel y soniwyd eisoes, bydd canllawiau gweithdrefnol manylach yn helpu swyddogion i gyflawni'r rhain mewn modd priodol.

Mae Adrannau 3.4 a 3.5 yn egluro'r rôl fwy cyfyngedig y gall yr awdurdod ei chwarae pan fo gwersyll ar dir cyhoeddus neu dir preifat arall ond mae'n cydnabod y gall yr awdurdod lleol gynnig mantais ei brofiad a chyfryngu.

Manteision y protocol ar gyfer Ynys Môn

Gall gwersylloedd anawdurdodedig fod yn anghyfleus i gymdogion ac arwain at densiynau rhwng cymunedau sefydledig a Sipsiwn a Theithwyr. I ddatrys yr anawsterau hyn, mae angen mesurau ymarferol megis casglu sbwriel, cyfathrebu rhwng yr holl bartïon a chamau amserol ac ystyriol gan yr awdurdod lleol.

Mae cydweithio yn y maes hwn eisoes wedi arwain at wella'r cydgysylltu rhwng swyddogion yr awdurdod a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r Heddlu pan fo gwersylloedd wedi digwydd. Mae CSYM nawr yn gweithio'n gyson gyda chydweithwyr o bob rhan o Ogledd Cymru. Mae'r protocol yn darparu fframwaith y cytunwyd arno i gynnal y safonau hyn ac yn lleihau

effeithiau negyddol y gwersylloedd.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Peidio â chefnogi Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar reoli gwersylloedd a datblygu Protocol ar gyfer Ynys Môn. Ni chefnogir yr opsiwn hwn gan fod angen gweithio'n agos gyda'r Heddlu a BIPBC i ymateb yn effeithiol i wersylloedd ac roedd y ddau gorff yn gryf o blaid Protocol ar gyfer Gogledd Cymru

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Ystyriwyd y Protocol yn y fforwm ar gyfer Prif Weithredwyr Gogledd Cymru lle cytunwyd y dylid ei gyflwyno i'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau yn y sefydliadau unigol.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ddim yn berthnasol

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae costau yn codi o'r protocol oherwydd yr angen i wneud darpariaeth 'portaloo' a chasglu / clirio gwastraff ar y rhan fwyaf o'r gwersylloedd pan fyddant yn digwydd. Os darperir cyfleusterau gwastraff cartref a thoiledau yn gynnar mae hynny'n arbed costau clirio sylweddol pan fydd y gwersyll yn dod i ben. Mae cyllideb ar gael i gwrdd â'r costau hyn.

Mae'r Cyngor yn y broses o nodi safleoedd ar gyfer Mannau Aros dros Dro. Pan fydd mannau aros awdurdodedig wedi eu sefydlu mae'n arferol i godi tâl am eu defnyddio.

Mae yna hefyd oblygiadau o ran adnoddau staffio ar gyfer gweithredu'r Protocol. Fodd bynnag, mae aelod o staff o fewn yr adran dai yn gweithredu fel y Pwynt Cyswllt Unigol

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Beth oedd eu sylwadau?

1 Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)

Trafodwyd yr eitem gan yr Uwch Dim Arwain 17/09/16, a dim sylwadau pellach

2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	<p>Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Protocol • Gofyn i Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru wneud gwaith pellach gyda busnesau lleol yng Ngogledd Cymru i mofyn eu sylwadau ar y ddogfen a chodi ymwybyddiaeth o'i bodolaeth. • Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ddatblygu mwy o weithdrefnau lleol manwl ar gyfer eu defnyddio gan swyddogion ac asiantaethau eraill ar yr ynys.
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	Mae'r protocol yn galluogi anghenion cymdeithasol, iechyd ac addysgol y cymunedau teithio i gael eu hasesu a'u darparu ar eu cyfer.
3	Trosedd ac Anhrefn	<p>Mae gwersylla heb awdurdod yn weithred o dresmasu yn hytrach na gweithred droseddol oni bai y gellir profi yr achoswyd difrod i dir neu eiddo wrth fynd i mewn i'r safle. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi'r Protocol fel fframwaith i reoli gwersylloedd anawdurdodedig mewn modd cytbwys er budd trigolion lleol a Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Mae'r protocol yn nodi cyfrifoldebau cliriach a gwell cyfathrebu rhwng asiantaethau a fydd yn sicrhau bod gwersylloedd yn cael eu rheoli'r effeithiol gan helpu i leihau tensiynau cymunedol.</p>
4	Amgylcheddol	Gall gwersylloedd anawdurdodedig arwain at wastraff o weithgareddau cartref arferol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith. Nod y Protocol yw sefydlu gweithdrefnau sy'n atal hyn rhag digwydd i'r graddau bo'n bosib.

		Gall gwersylloedd anawdurdodedig roi teuluoedd mewn perygl yn sgil risgiau amgylcheddol pan fo'r gwersylloedd hynny wedi eu lleoli mewn mannau amhriodol. Mae'r Protocol yn argymhell proses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried iechyd a diogelwch ochr yn ochr â materion hawliau dynol wrth benderfynu a ddylid goddef y gwersyll.
5	Cydraddoldebau	Mae mabwysiadu'r Protocol yn cydymffurfio gyda dyletswyddau'r awdurdod lleol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar Reoli Gwersylloedd Anawdurdodedig

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Gwersylloedd Anawdurdodedig

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/131220-guidance-managing-unauthorised-camping-2013-en.pdf>

Cyd-brotocol Gogledd Cymru ar gyfer

Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod

1. Cyflwyniad

- 1.1 Caiff gwersylloedd diawdurdod eu diffinio fel 'gwersylloedd carafannau a/neu gerbydau eraill ar dir heb ganiatâd y tîrfeddiannwr neu'r meddiannydd ac sy'n golygu tresmasu'. Maent yn perthyn i ddau brif gategori: y rhai ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor (megis priffyrdd, parciau, ysgolion) neu gorff cyhoeddus arall, a'r rhai ar dir preifat. Gall y broses o ymateb iddynt newid yn dibynnu ar bwy sy'n berchen ar y tir, ac mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldebau ychwanegol nad ydynt yn berthnasol i dirfeddianwyr preifat.
- 1.2 Mae gwersylloedd diawdurdod yn digwydd o bryd i'w gilydd am amrywiaeth o resymau. Mae angen sensitifrwydd wrth ymateb iddynt er mwyn cydbwysu hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn Theithwyr ('y gymuned deithio') a thrigolion a busnesau lleol ('y gymuned sefydlog').
- 1.3 Mae'r protocol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r holl wersylloedd diawdurdod yng Ngogledd Cymru mewn ffordd gadarnhaol a chyson, er budd yr holl bobl dan sylw a'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt.
- 1.4 Cafodd ei lunio i hwyluso ymagwedd gydlynol rhwng:
 - y chwe awdurdod lleol; Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam
 - Heddlu Gogledd Cymru (HGC)
 - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
 - cyrff cyhoeddus eraill megis Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru
 - tîrfeddiannwyr preifat
 - Sipsiwn a Theithwyr
 - a thrigolion lleol
- 1.5 Mae'r Protocol yn ystyried 'Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod 2013' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cydymffurfio â'r cyfrifoldebau a osodir ar bob corff cyhoeddus gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 1.6 Amcanion y Protocol yw:
- 1.7
 - rheoli gwersylloedd diawdurdod mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan gydbwysu hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn a Theithwyr, trigolion lleol a budd-ddeiliaid allweddol ac i leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol neu gymunedol

- gweithio gydag asiantaethau partner i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal eithrio cymdeithasol Sipsiwn a Theithwyr
- Cyflwyno eglurder ar y broses o ymateb i ymholiadau a rhannu gwybodaeth
- gosod fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau clir, cyson ac amserol sy'n cysylltu â strategaethau eraill a gwasanaethau sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr (e.e. tai, addysg, cynllunio).
-

2. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau pob Asiantaeth

2.1 Mae pob asiantaeth sy'n ymwneud ag ymateb i wersylloedd diawdurdod yn cydnabod y gall teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr brofi anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau addysg, iechyd a chymunedol a byddant yn gweithio i leihau'r anawsterau hyn.

2.2 Maent yn cytuno i:

- gydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i:
 - ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon
 - hyrwyddo cyfle cyfartal
 - hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol
- gweithredu bob amser mewn modd trugarog a thosturiol
- enwebu Un Pwynt Cyswllt, boed yn swyddog penodol neu'n bwynt cyswllt (e.e. yr Heddlu 101) at ddibenion cydlynu ymateb i'r gwersyll diawdurdod (bydd gan y swyddog hwnnw ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliadau)
- i roi trefniadau ar waith rhag ofn bod yr Un Pwynt Cyswllt arferol yn absennol (os yw'n swyddog) a sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle
- llunio eu Polisiâu a Gweithdrefnau manwl eu hunain sy'n adlewyrchu eu strwythurau a'u gweithdrefnau eu hunain, ac yn ystyried y protocol hwn fel y safon ofynnol ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod
- cyhoeddi'r protocol ar eu gwefannau
- sicrhau bod yr holl swyddogion Un Pwynt Cyswllt yn cael gwybod pan fo gwersyll yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ymateb priodol gan bob asiantaeth.
- cynnal perthynas waith cydlynol, agored a gonest rhwng yr holl bartneriaid

- sicrhau bod y wybodaeth a rennir dan y Protocol hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y diben y cafodd ei gasglu yn unig, yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data a'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill
- Cadw cofnodion cywir drwy'r system Cyfrif Carafanau Cymru Gyfan. Awdurdodau Lleol yn creu protocolau e-bost awtomatig fel y gellir rhannu data am wersyll.

2.3 Bydd pob Asiantaeth yn sicrhau bod yr unigolion sy'n ateb galwadau yn:

- gwybod am y Protocol a phwy yw eu swyddog Un Pwynt Cyswllt
- derbyn hyfforddiant er mwyn gallu ymdrin â galwadau gan neu mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr yn briodol, yn effeithiol ac yn gyson
- yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bwy sy'n gyfrifol am ddelio â gwersylloedd diawdurdod ym mhob sefydliad partner

2.4 Er y bydd Awdurdodau Lleol yn arwain o ran darparu gwybodaeth i'r cyfryngau, gofynnir i bob Asiantaeth sicrhau ymateb cydlynol i ymholiadau gan y cyfryngau o fewn cyd-destun y cyfrifoldeb i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog.

3. Cyfrifoldebau Asiantau Unigol

3.1 Mae'r cyfrifoldebau sydd ar bob asiantaeth yn dibynnu ar leoliad y gwersyll, h.y. a ydyw:

- ar dir Awdurdod Lleol
- ar dir cyhoeddus arall
- ar dir preifat
- ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr

3.2 Efallai y gofynnir i'r **Awdurdod Lleol** benderfynu ar berchnogaeth y tir os nad yw'n hysbys.

3.3 Gwersylla ar Dir Awdurdodau Lleol

3.3.1 Bydd yr **Awdurdodau Lleol** yn:

Cyswllt Cychwynnol:

- Gwneud cyswllt cychwynnol â'r Sipsiwn/Teithwyr cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i benderfynu ar eu bwriadau ac a oes ganddynt unrhyw anghenion gwasanaeth cychwynnol neu anghenion lles brys

- Penderfynu a oes unrhyw arwyddion amlwg o ofynion lles, a gofyn i BIPBC gynnal asesiadau iechyd yr unigolion ar y safle os byddant yn aros yn hirach na 3 diwrnod.
- Adnabod ac ymateb i ddiogelwch ar y ffyrdd neu bryderon diogelwch eraill

Gwasanaethau a chyfleusterau

- Darparu cyfleusterau gwastraff cartref
- Darparu toiledau
- Rhoi gwybodaeth i'r rhai sydd yn y gwersylloedd, megis lleoliadau safleoedd amwynderau dinesig lleol, ysgolion a lleoliadau gofal iechyd.
- Adnabod ac ymateb i unrhyw anghenion gwasanaeth addysgol allgymorth lle bo'n briodol.
- Trafod cod ymddygiad gyda'r Sipsiwn a Theithwyr a rhoi gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau cymorth lleol sydd ar gael iddynt.
- Nodi a oes safleoedd priodol eraill ar gael, ac yna rhoi gwybod i'r Sipsiwn a Theithwyr

Gwneud Penderfyniadau

- Bydd Awdurdodau Lleol yn ceisio cydbwyso lles a hawliau dynol meddianwyr yn erbyn yr effaith ar drigolion a busnesau cyfagos, gan roi ystyriaeth arbennig o beryglon iechyd a diogelwch a niwsans cyhoeddus.
- Penderfynu p'un ai i oddef neu gael gwared ar wersyll mewn modd amserol yn unol â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau nad yw unrhyw gamau ildio meddiant yn digwydd lle mae camau o'r fath yn gyfystyr ag ymyrraeth anghyfiawn ag Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 neu os yw'r weithred yn groes i fuddiannau gorau meddianwyr sy'n blant.

Troi Allan

- Ar safleoedd lle penderfynir peidio â goddef, darparu gwybodaeth i'r Sipsiwn a Theithwyr am y camau arfaethedig a pha gymorth sydd ar gael iddynt.
- Cymryd camau troi allan lle y bo'n briodol, gan gynnwys cyflwyno dogfennaeth a defnyddio beiliaid, ond ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru
- Gwneud trefniadau i gael gwared ar sbwriel ar ôl i'r Sipsiwn a Theithwyr adael y safle.
- Hysbysu a chysylltu â Chynghorwyr etholedig lleol a'r gymuned sefydlog.

3.3.2 Bydd **Heddlu Gogledd Cymru** yn:

- Cydymffurfio â gofynion y canllawiau NPCC ar reoli gwersylla diawdurdod.

- Adnabod ac ymateb i dystiolaeth o broblemau diogelwch y cyhoedd.
- Monitro ac ymateb i densiynau yn y gymunedol leol.
- Rhoi gwybod i asiantaethau perthnasol o leoliad a maint y gwersylloedd diawdurdod.
- Darparu gwasanaethau plismona i gymunedau Teithwyr a chymunedau sefydlog.
- Atal a chanfod troseddau.
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag unrhyw rwystr i'r briffordd.
- Mewn achos o droi allan, cynnal yr heddwch ac atal anhrefn yn ôl y gofyn.

3.3.3 Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn:

- Asesu anghenion iechyd y Sipsiwn a Theithwyr ar y safleoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny gan yr Awdurdod Lleol.
- Darparu adroddiad crynodeb cyffredinol i'r Awdurdod Lleol heb fod yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cais. Datganiad cyffredinol yn unig fydd yn yr adroddiad ynghylch a oes anghenion iechyd neu beidio a ddylai atal achos o droi allan. *(Bydd y wybodaeth hon yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Lleol heb wybodaeth bersonol a fyddai angen caniatâd ffurfiol yr unigolion sy'n destun yr asesiadau iechyd. Bydd y datganiad a ddarperir ar ffurf sy'n addas i'w gyflwyno mewn tystiolaeth i'r llys).*
- Darparu gwasanaethau iechyd i Sipsiwn a Theithwyr.

3.3.4 Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn:

- Cynorthwyo asiantaethau partner a Sipsiwn a Theithwyr i gynnal asesiadau risg o'r safle sy'n ymwneud â bregusrwydd llosgi bwriadol a lledaeniad tân.
- Rhoi cyngor sy'n ymwneud â mynediad i offer ymladd tân a chyflenwadau dŵr mewn achos o dân.
- Cynnig y cyfle i gael archwiliad diogelwch carafannau am ddim a gosod larymau mwg arbenigol ac offer atal arall, yn rhad ac am ddim, yn ôl y galw.

3.4 Gwersylla ar Dir Cyhoeddus eraill

- 3.4.1 Dylai'r **Awdurdod sy'n Berchen ar y Tir** drafod gydag awdurdodau lleol i drefnu ymholiadau anghenion lles, a dylai **Awdurdodau Lleol** fod yn barod i helpu. Bydd y penderfyniad i droi allan neu oddef a lefel ymholiadau anghenion lles yr un fath ag ar gyfer tir awdurdodau lleol.

3.5 Gwersylla ar Dir Preifat

- 3.5.1 Yn unol â chanllawiau Cynulliad Cymru, nid yw perchnogion tir preifat sydd â gwersylloedd diawdurdod Sipsiwn a Theithwyr ar eu tir yn cael eu rhwymo gan yr un cyfrifoldebau statudol ag awdurdodau cyhoeddus, ond i gychwyn dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol i bennu a oes ganddynt

Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr (neu gyfwerth) er mwyn cyfryngu. Fel arall, gall y swyddog Un Pwynt Cyswllt/ swyddog arweiniol neu'r heddlu lleol gynorthwyo.

- 3.5.2 Bydd angen i berchnogion tir preifat gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain wrth geisio datrys gwersylloedd diawdurdod ar eu tir. Os byddant yn dewis goddef, bydd angen iddynt gymryd cyngor gan adran gynllunio yr Awdurdod Lleol.

3.6 Gwersylla ar Dir sy'n Eiddo i Sipsiwn a Theithwyr

- 3.6.1 Bydd **Awdurdodau Lleol** yn cynghori meddianwyr y gwersyll am statws cynllunio y tir os ydynt yn bwriadu aros am fwy na 7 diwrnod. Efallai y caiff camau gorfodi cynllunio eu hystyried.

Atodiad

Sefydliadau perthnasol:

Llywodraeth Cymru

Adran Dyfodol Tecach
Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Y Ganolfan Cydraddoldeb
Ffordd Bangor
Penmaenmawr
LL34 6LF

01492 622233
info@nwren.org

Prosiect Unity

Bryn Hall: Swyddog Ymgysylltu Cymunedol
07920567652
bryn.hall@pembrokeshire.gov.uk

Catherine Fortune: Swyddog Iechyd a Lles

07920567668
catherine.fortune@pembrokeshire.gov.uk

Cyngor Denise Barry: Swyddog Eiriolaeth a Gwybodaeth
07810551331
denise.barry@pembrokeshire.gov.uk

**Llinell Gyngor ac Eiriolaeth Genedlaethol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw
yng Nghymru**
Rhif Llinell Gymorth Cymru Gyfan
01646 686139

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Hydref 2016
Pwnc:	Panel Canlyniad Sgriwtini – Diogelu Corfforaethol (adroddiad drafft)
Aelod(au) Portffolio:	Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai (Y Cynghorydd Aled Morris Jones)
Pennaeth Gwasanaeth:	Gwasanaethau Plant (Anwen Hughes) - Arwain yn gorfforaethol ar y swyddogaeth Ddiogelu
Awdur yr Adroddiad:	Cadeirydd y Panel Sgriwtini (sydd hefyd yn Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) a'r Rheolydd Sgriwtini Est. 2078 bsxce@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

Gweler rhan 7 Adroddiad Terfynol y Panel Adolygiad Sgriwtini sydd wedi ei amgáu yma

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

1. PWRPAS

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn: yw amlinellu adolygiad y Panel Canlyniad Sgriwtini o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau Diogelu a chyflwyno'r adroddiad terfynol hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w fabwysiadu a derbyn yr argymhellion. Mae hyn yn unol â 4.5.11 yng nghyfansoddiad y Cyngor 4.5.11 sy'n golygu y gall y Pwyllgor Sgriwtini wedyn anfon ymlaen yr adroddiad a fabwysiadwyd ganddo i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.

2. CYD-DESTUN

2.1 Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6^{ed} o Orffennaf, 2015 ystyriwyd ymateb y Cyngor i Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol. Penderfynodd y Pwyllgor y bod y camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn golygu y gallai'r Awdurdod, yn ôl pob tebyg, gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

2.2 Fodd bynnag, teimlai aelodau bod dyletswydd arnynt i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion a dal y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn atebol am eu

cwblhau drwy sefydlu Pwyllgor Craffu Panel ar yr adeg briodol a hynny'n unol â Rhan 7 y Canllawiau ynghylch Atebolrwydd Statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

3. METHODOLEG

3.1. Lluniwyd **Cylch Gorchwyl (CG)** ar gyfer y Panel Canlyniad Sgriwtini ac fe'i ystyriwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), Fforwm y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Sgriwtini a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 11 Ebrill, 2016.

3.2. Roedd y cylch gorchwyl yn cynnwys **amserlen o gyfarfodydd a rhaglen waith**, fel a ganlyn: -

4 Ionawr 2016 – Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Rheolydd Sgriwtini a Phennaeth y Gwasanaethau Plant / Swyddog sy'n Arwain ar Ddiogelu i dderbyn adborth a'i gymeradwyo;

8 Chwefror, 2016 – Rhannu Cylch Gorchwyl y PCC gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;

16 Mawrth, 2016 - Cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol, a ddynodwyd yn Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Rheolydd Sgriwtini, i rannu gwybodaeth ac amlinellu adolygiad y PCC;

11 Ebrill, 2016 - Cymeradwywyd y CG gan Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol;

(a) 28 Ebrill 2016 (a.m.) - Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r panel gyda gwahoddiadau i Bennaeth y Gwasanaethau Plant, y Rheolwr Diogelu a Sicrhau Ansawdd a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, i fod yn bresennol. Gofynnodd y Panel am y wybodaeth i ddeall yn well y cyd-destun a'r gwahaniaeth rhwng gwaith y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant wrth ymateb i achosion gwirioneddol o gamdriniaeth neu ag achosion a amheuir a chyd-destun ehangach diogelu, sydd yn fater i bawb. Yn ogystal, cyflwynwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol i'r panel sy'n rhoi manylion am y trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd mewn perthynas â diogelu corfforaethol.

(b) Mehefin 30, 2016 - Cyfarfu'r Panel o Aelodau Etholedig ac fe wahoddwyd Pennaeth y Gwasanaethau Plant, y Rheolwr Diogelu a Sicrhau Ansawdd, Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol (AD) a'r Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol, i ystyried Polisi Diogelu'r Cyngor Sir a'r Cynllun Gweithredu (V3.7.1).

- Ystyriodd y Panel y Cynllun Gweithredu, a oedd wedi ei ddiweddarau yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar bnawn 28 Ebrill, 2016.
- Derbyniwyd gwybodaeth / tystiolaeth gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a gwaith yr oedd AD wedi ei wneud fel rhan o gynllun gwaith ar gyfer diogelu corfforaethol
- Cytuno ar y cwestiynau a awgrymwyd yn y cyfarfod diwethaf ar gyfer eu cyflwyno i Gyfarwyddwr dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Ystyried a ddylid gwahodd mwy o swyddogion i Banel neu gomisiynu ychwaneg o ddogfennau ar gyfer eu hadolygu e.e. cynlluniau datblygu gwasanaethau.

18 Gorffennaf, 2016 - Cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Rheolydd Sgriwtini i adolygu'r broses hyd yn hyn. Cytunwyd i gychwyn ar y drafft

cyntaf ar gyfer adroddiad terfynol y Panel ac i fynd ar ôl unrhyw atebion sydd eu hangen gan Gyfarwyddwr Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer eu cynnwys yn adroddiad terfynol y panel. Rhannu hyn gyda'r swyddog sy'n arwain hefyd.

1 Medi – rhannu adroddiad drafft cyntaf y Panel gyda'r UDA.

12 Medi 2016 – cyflwyno adroddiad y Panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer ei fabwysiadu fel y gellir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

3.3. Aelodaeth

3.3.1. Aelodau craidd y panel oedd –

- Y Cynghorwyr: Meirion Jones, Llinos Medi Hughes, Jim Evans ac Ann Griffiths (*dim wedi mynychu'r cyfarfodydd*) a'r Rheolydd Sgriwtini

3.3.2. Y sawl a wahoddwyd i gyfrannu –

- Fel yr amlinellir yn 3.2 (a) a (b) yr adroddiad hwn.

4. TYSTIOLAETH A GAFWYD (AR BAPUR AC AR LAFAR)

4.1 Cyn y cyfarfod o'r Panel, derbyniodd yr aelodau gopïau o'r isod:

- Cylch Gorchwyl y Panel Diogelu Corfforaethol, a
- Y Polisi a'r Weithdrefn Gorfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (fersiwn derfynol Rhagfyr 2012)

Defnyddiodd y Panel y ddwy ddogfen fel gwybodaeth sylfaenol i'w defnyddio drwy gydol yr adolygiad.

4.2. Derbyniodd y Panel Bolisi/Cynllun Gweithredu Diogelu'r Cyngor Sir, Fersiwn 3.71, dyddiedig 10 Mehefin 2016, yn eu cyfarfod ar 30 Mehefin 2016.

4.3. Derbyniodd y Panel dystiolaeth ar lafar gan y swyddogion proffesiynol fel y nodir yn amserlen y cyfarfodydd, adran 3.2(a) a (b) o'r adroddiad hwn.

5. CANFYDDIADAU

5.1 Mynychodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant y ddau gyfarfod o'r Panel a darparodd ddiffiniadau a chyd-destun pwysig ar gyfer; 'Diogelu Plant' ac 'Amddiffyn Plant' a 'Diogelu Corfforaethol'. Roedd y Panel yn ddiolchgar oherwydd roedd y diffiniadau hyn o gymorth i egluro'r farn hanesyddol mai mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig oedd diogelu.

5.2 Roedd arbenigedd a phrofiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant i gynghori'r panel proffesiynol yn hanfodol. Roedd hi'n bresennol fel Swyddog Arweiniol ac nid fel Pennaeth Gwasanaeth i roi sylwadau ar ei gwasanaeth ei hun yn y materion hyn, ond i amlinellu'r ymagwedd awdurdod cyfan i ymateb i Adroddiad SAC a gyhoeddwyd yn 2015 Adroddiad ar Ddiogelu Corfforaethol yn CSYM.

5.3 Roedd y Panel yn derbyn fod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb yn CSYM ac o'r herwydd, edrychodd eto ar ei gylch gorchwyl er mwyn canolbwyntio ei gwestiynau ar gasglu dystiolaeth.

5.4 Yn y cylch gorchwyl, dywedwyd y byddai'r Panel yn cyflawni ei rôl drwy:-

I. Archwilio'n ofalus bolisi corfforaethol cyfredol y Cyngor ar Ddiogelu Plant a Phobl Fregus - er mwyn sicrhau bod y polisi yn galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ofynion statudol a chwrdd â'i ofynion statudol a gwneud penderfyniadau lleol yn effeithiol ac yn effeithlon.

II. Ailedrych ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod – bydd yn cael ei ddefnyddio fel y data sylfaenol ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

III. Panel i adolygu cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu'r Cyngor ar gyfer Diogelu - er mwyn sicrhau bod yr holl feysydd allweddol sy'n weddill a amlinellwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu rhoi ar waith.

5.5 Wedi derbyn ac ystyried y ddwy ddogfen uchod (i) fel y nodir yn 4.1 yn yr adroddiad hwn ac (ii) yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 6 Gorffennaf 2016), roedd y Panel yn teimlo y dylent ganolbwyntio ar y drydedd (iii) oherwydd y byddai'n darparu tystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed o'r adeg honno, hyd at y presennol.

Teimlai Panel y byddai'r dull hwn yn cyflawni ei brif bwrpas fel caiff ei nodi yn y Cylch Gorchwyl: -

"Sicrhau bod mesurau Diogelu Corfforaethol priodol ar waith a bod argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu gweithredu'n llawn neu wrthi'n cael eu gweithredu."

5.6 Yn dilyn archwiliad mewnol blaenorol ynghylch recriwtio diogel, canfu'r Panel bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu:-

- Polisi Diogelu Corfforaethol;
- Bwrdd Diogelu Corfforaethol;
- Cynllun Gweithredu mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol.

Roedd y Polisi - wedi cael ei gymeradwyo gan y Penaethiaid, ac roedd y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd Gwasanaeth sy'n gyfrifol am ddiogelu corfforaethol wedi ei gydlyn.

Roedd y Bwrdd - wedi cael ei sefydlu i gyfarfod bob dau fis a chafodd ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Y Prif Weithredwr Cynorthwyol a ddynodwyd yn Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi bod yn y gadair ers dechrau 2016. Felly, dim ond rhif 4 o'r Cynllun Gweithredu oedd ar ôl i'w adolygu

Mae'r Cynllun Gweithredu - yn ddogfen ddeinamig. Er bod y cynllun gweithredu wedi ei amserlennu ar gyfer cyfarfod cyntaf y Panel ym mis Ebrill 2016, nid oedd ar gael hyd nes iddo gael ei gadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar brynhawn yr 28ain Ebrill 2016. Yn ogystal, dywedodd y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd Gwasanaeth bod y Cynllun Gweithredu ar gael cyn yr adroddiad gan Archwilio Cymru a'i fod wedi ei ddiwygio i adlewyrchu argymhellion yr adroddiad hwnnw.

5.7 Sefydlodd y Panel hefyd bod:-

- Bod Arweinydd y Cyngor yn awr yn arwain fel hyrwyddwr diogelu
- Bod y trefniadau a'r Polisi ar gael ar wefan y Cyngor ac ar MonITor i arwain staff
- Mae'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi cael ei nodi fel un o bolisiâu'r Cyngor y mae'n rhaid eu diweddarau bob tair blynedd.

5.8 Mae'r polisiâu canlynol sy'n dod dan ymbarél diogelu hefyd wedi cael eu diwygio:-

- Polisi Pryderon a Chwynion
- Polisi Disgyblu
- Pobl Ifanc – pryniannau prawf ar gyfer diogelu'r cyhoedd
- Polisi Gwirfoddoli
- Polisi GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
- Polisi Recriwtio a Dethol (yn enwedig prosesu tystlythyrau)

5.9 Mae hyfforddiant yn faes allweddol arall a all hyrwyddo'r cysyniad o "ddiogelu corfforaethol" fel rhywbeth y mae'r sefydliad cyfan, yn hytrach na'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig, yn gyfrifol amdano. Cadarnhawyd bod swyddogion yn edrych yn fanwl ar sut i ddarparu hyfforddiant o fewn fframwaith diogelu strwythuredig - blaenoriaethu pwy sydd angen hyfforddiant ac ar ba lefel.

5.10 Cylchredwyd rhestr ddefnyddiol i'r aelodau yn egluro i ba raddau y cam-drin¹ a gwmpesir o dan y term 'diogelu' yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau. Roedd hyn yn dangos sgôp y dysgu a'r hyfforddiant ymwybyddiaeth a oedd ei angen.

5.11 Derbyniwyd y Cynllun Gweithredu. Eglurwyd bod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei fformatio yn unol â'r 6 Safon Diogelu Corfforaethol a'r Argymhellion / Camau allweddol, fel yr amlinellir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hadroddiad ar CSYM (Mawrth 2015) a'r Adroddiad Cenedlaethol (Medi 2015). Y 6 safon gorfforaethol yw:-

- Arweinyddiaeth Gorfforaethol
- Polisiâu
- Recriwtio Staff mewn modd diogel
- Hyfforddi a Datblygu
- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir
- systemau

5. 12 Adolygodd y Panel y chwe safon sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol CSYM. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau mewn perthynas â thair yn unig o'r safonau hyn a dyma oedd y canfyddiadau:-

5.12.1. Polisiâu:

(a) Cafodd y canllawiau newydd ar ddiogelu eu cyhoeddi dan Ran 7 o Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ym mis Ebrill 2016. Roedd y cynllun gweithredu wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn ac fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd

¹ Mae diogelu'n cynnwys 'trais emosiynol, corfforol a domestig, FGM, masnachu pobl ac ati

Diogelu Corfforaethol ar 27 Mehefin, 2016 i'w gymeradwyo.

(b) Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Bolisiâu Ataliaeth ond mae angen sefydlu polisi corfforaethol ar hyn, er mwyn amlinellu'r egwyddorion a'r arferion da ar gyfer eu defnyddio gan wasanaethau eraill. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen i symud ymlaen â hyn.

5.12.2. Recriwtio staff yn ddiogel:

a) Roedd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys adolygiad o Bolisi Recriwtio a Dethol y Cyngor a derbyniwyd tystiolaeth ar lafar yn dweud bod Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) diwygiedig wedi cael ei fabwysiadu a bod gwasanaethau yn gallu cael gwybodaeth ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu templed symlach y gall gwasanaethau ei ddefnyddio ac roedd yn derbyn bod angen monitro gweithrediad y polisi yn llawn. Mae'r ddwy fenter o gymorth i gydymffurfio â Deddf Amddiffyn Rhyddid 2012.

b) Roedd sylw ysgolion yn cael ei ddwyn at y ffaith fod ganddynt ddyletswydd i gydymffurfio â'r Polisi GDG. Roedd rhai problemau'n gysylltiedig â chael y gwiriadau GDG mewn pryd - gallai gymryd hyd at 8 wythnos weithiau i'r corf allanol brosesu ceisiadau ar gyfer gweithwyr newydd a hyd at 2 wythnos i adnewyddu datgeliadau presennol (fel arfer, caiff GDG ar gyfer swyddi presennol eu hadnewyddu bob 3 blynedd). Mae cynllun arbrofol newydd ar fin cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion fel y gellir gwirio ar-lein.

c) Roedd y Panel yn cydnabod ei bod yn bwysig i bob Pennaeth Gwasanaeth baratoi rhestr o weithwyr a lefel y gwiriadau GDG yr oedd eu hangen. Cydnabuwyd bod deall y darpariaethau a defnyddio'r wybodaeth ar gyfer swyddi unigol yn gymhleth ond mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn gwneud popeth a fedr i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r polisiâu presennol.

d) O ran cam gweithredu 3.7, dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) y gall gymryd sawl wythnos weithiau i gael canlyniad unrhyw wiriad ar weithwyr newydd. Disgwylir i wasanaethau wneud cais am wiriad GDG cyn gynted â phosib. O fewn y fanyleb ar gyfer y system AD gyfrifiadurol, Northgate, mae gofyniad i gynnwys hysbysiad o gofnodi / adnewyddu gwiriadau DBS yn y system, a chânt eu gwneud drwy hynny. Y gobaith yw y bydd y ddarpariaeth hon yn hysbysu gwasanaethau mewn modd amserol pan fydd angen GDG neu pan fydd angen eu hadnewyddu. Hysbyswyd y Panel mai cyfrifoldeb y gwasanaethau ac ysgolion unigol yw cynnal gwiriadau. Roedd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn pwysleisio hyn i bob Pennaeth Gwasanaeth.

e) Mae angen diweddarau cam gweithredu 3.8, gellid sicrhau cynnydd ar y mater hwn pan fyddai gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu gan wasanaethau ar gyfer eu cynnwys yn y cardiau sgorio corfforaethol.

f) Nododd y Panel fod y Pennaeth Proffesiwn (AD) wedi datgan bod y cynllun gweithredu cyfredol wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau o gynllun blaenorol. Nid yw'r cynllun gweithredu presennol yn adlewyrchu'r cynnydd pwysig a wnaeth y Cyngor

wrth fynd i'r afael â materion diogelu gorfforaethol. Roedd pob swyddog a oedd yn bresennol yn cytuno â'r farn hon, gan ychwanegu fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud a bod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn gyrru gwelliant.

g) Bellach, mae Diogelu yn ffurfio rhan o amcanion personol pob Pennaeth Gwasanaeth sy'n amlygu pwysigrwydd diogelu corfforaethol. Dylai hyn yn awr fwydo i mewn i gynlluniau datblygu gwasanaeth a chyfrifoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth yn y pen draw yw cydymffurfiaeth â'r Polisi Diogelu.

5.12.3 Hyfforddiant a datblygiad:

a) Amlygwyd fel mater pwysig y dylai pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffredinol o ddiogelu fel rhan o'u gwerthusiad hyfforddiant a datblygiad personol blynyddol. Roedd AD yn hyderus bod yr adnoddau ar gael i wneud hyn, ond os nad oeddent, y dylid eu cyllido'n gorfforaethol. Cadarnhawyd hefyd mai cyfrifoldeb gwasanaethau unigol oedd adnabod gweithwyr sydd angen hyfforddiant.

b) Amlinellwyd dulliau amrywiol i ddarparu hyfforddiant. Mae Cyngor Gofal Cymru wedi datblygu modiwlau hyfforddi penodol i alluogi staff ar bob lefel i ennyn dealltwriaeth o faterion Diogelu. Mae pecynnau e-ddysgu ar gael hefyd. O ran hyfforddiant arbenigol, mae hwn hefyd ar gael i staff sy'n gweithio mewn meysydd penodol, unwaith y bydd y gwasanaethau wedi adnabod anghenion hyfforddi eu gweithwyr.

c) Roedd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi gofyn i waith gael ei wneud i weithredu gofynion hyfforddi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

d) Cadarnhawyd bod Diogelu Pobl: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyfforddi a Datblygu yn y maes Diogelu Plant ac Oedolion wedi cael ei ddatblygu'n gynnar yn 2015 a bod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol, yn ei gyfarfod diwethaf, wedi cytuno i dderbyn fframwaith hwn.

Mae'r fframwaith yn nodi'n glir yr hyfforddiant sydd ei angen ar grwpiau o staff a hynny'n seiliedig ar fodiwlau Sylfaenol / Cyffredinol neu arbenigol.

e) Dywedwyd wrth y Panel fod trafodaeth yn mynd rhagddi gyda'r uned gaffael ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am sicrhau hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer yr holl gontractwyr ac ati. Roedd dau ddewis – gellid gweithredu'n gorfforaethol (dan arweiniad yr uned gaffael) neu fel arall, dan arweiniad y swyddog cydymffurfio â chontractau perthnasol ym mhob gwasanaeth. Cynigiwyd y dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ystyried y mater hwn ymhellach, ac wedi hynny ddatblygu dogfen fframwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y Panel o'r farn y dylai hyn gael ei ymgorffori yn Fframwaith Contractio'r Cyngor a'i weithredu gan wasanaethau unigol.

6. CASGLIADAU'R PANEL:

6.1 Ar y cyfan, roedd y Panel yn fodlon fod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn ymgymryd â'r dasg o sicrhau bod Gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflawni eu

dyletswyddau diogelu fel y cânt eu nodi ym mholisiau'r cyngor ac o ran y Cynllun Gweithredu:

Polisiau:

Gweithred 2.3 - Mae'r polisi yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu pan fo newid sylweddol yn y sefydliad neu mewn deddfwriaeth berthnasol.

Gweithred 2.5 – Dygwyd sylw at yr angen i sefydlu a gweithredu canllawiau ar y defnydd o ataliaeth ac amser allan. Fodd bynnag, ni welwyd tystiolaeth fod hyn yn cael ei ddatblygu. Mae angen gwneud mwy o waith ar Bolisi Atal Corfforaethol. Ar hyn o bryd, mae'n debygol fod gan y gwasanaethau unigol eu polisiau eu hunain. Mae angen polisi corfforaethol cyffredinol fel fframwaith i gefnogi gwasanaethau a hyfforddiant i gefnogi gweithrediad y dull sy'n cael ei adlewyrchu yn y polisi. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth fod hyn yn digwydd. Clywodd y Panel fod datblygiadau yn y system Northgate newydd yn debygol o sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Recrwtio staff mewn modd diogel:

Gweithred 3.1 - Adolygu a diweddarau Polisi Recrwtio a dethol y Cyngor a gweithredu'r Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012.

Gweithred 3.7- Ni fydd staff sydd angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Gwiriad yn cychwyn gweithio hyd oni fydd y broses wedi'i chwblhau

Gweithred 3.8 – Bod pob maes Gwasanaeth cynnal archwiliad o'r "bylchau" o fewn eu gweithluoedd o ran y swyddi cyfredol sydd angen GDG a thystlythyrau.

Gweithred 3.17 (c) - Dylid cadw cofnod canolog o asesiadau risg er mwyn sicrhau bod yna gofnod perthnasol a monitro corfforaethol ar y system Northgate. - Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth fod hyn yn digwydd.

Hyfforddiant a datblygiad:

Gweithred 4.2 - Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu cyffredinol [1diwrnod gorfodol bob 3 blynedd] fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant a datblygiad personol.

Gweithred 4.6 - Tystiolaeth o hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer yr holl gontractwyr, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr rydym yn eu defnyddio lle mae'r gwaith y maent yn ei wneud ar ein rhan yn golygu bod angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

6.2 Ni fedrir gorbwysleisio'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a dylid ei longyfarch am wneud cynnydd sylweddol yn y maes cymhleth hwn.

6.3 Mae'r Panel yn awyddus i osgoi dyblygu gwaith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a

chytunwyd na fyddai'n briodol i fwrw ymlaen ymhellach.

6.4 Ar hyn o bryd, heblaw am ddangosyddion perfformiad y gwasanaethau oedolion a phlant eu hunain sy'n ymwneud â diogelu penodol i'w gwasanaethau, dim ond y gwiriadau GDG sy'n cael eu cofnodi ar y cerdyn sgorio ar gyfer diogelu corfforaethol. Roedd y Panel o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn gwella'r broses o sicrhau bod y cerdyn sgorio corfforaethol yn cael ei sgrwtineiddio gan y Bwrdd

7. ARGYMHELLION

(I) Gan fod diogelu bellach yn rhan o amcanion personol ar yfer yr holl Benaethiaid Gwasanaeth a bod cynlluniau i fwydo hyn i gynlluniau datblygu gwasanaeth ac mai cyfrifoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth yn y pen draw yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisi Diogelu, mae'r Panel yn awgrymu y dylid mesur hyn a'i gynnwys ar y cerdyn sgorio corfforaethol fel y gall aelodau ei fonitro.

(li) O ran:

Gweithred 4.6 - Tystiolaeth o hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer yr holl gontractwyr, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr rydym yn eu defnyddio lle mae'r gwaith y maent yn ei wneud ar ein rhan yn golygu bod angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd y Panel o'r farn y dylai hyn gael ei ymgorffori yn Fframwaith Contractio'r a'i weithredu gan wasanaethau unigol.

(lii) Y dylai aelodaeth y Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnwys aelod o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol i wella cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor.

(iv) Roedd angen cyfleu'r Cynllun Diogelu mewn ffordd gliriach. Nodwyd bod sefydlu'r grŵp Cydlynwyr Diogelu yn cefnogi'r berchenogaeth o fewn gwasanaethau, ond roedd angen mwy o sesiynau gwybodaeth i gefnogi'r rôl hon.

(v) Defnyddio'r system e-check newydd ar gyfer Polisiâu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn darllen y Polisi Diogelu diwygiedig - a fyddai'n cynnwys adrodd ar unrhyw amheuan a fo ganddynt.

(vi) Mae'n rhaid gwneud mwy o waith ar Bolisi Atal Corfforaethol.

C – Pan fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Sgrwtini fel y maent wedi eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Anhysbys.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Anhysbys		

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Rhannwyd yr adroddiad draft ar y PCS gyda'r UDA ar 1 Medi 2016. Roedd y DBW (CT), yn ei swyddogaeth fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dynodedig a Chadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y Panel.
2	Cyllid / Adran 151	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Mynychodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a'r Rheolwr Hyfforddiant y cyfarfod o'r PCS a gynhaliwyd ar 30/6/16 er mwyn cyfrannu at waith y Panel.
5	Eiddo	AMHERTHNASOL
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	AMHERTHNASOL
7	Sgriwtini	Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 12 Medi, 2016. Cymeradwywyd adroddiad y Panel gyda'r argymhelliad i'w anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.
8	Aelodau Lleol	AMHERTHNASOL
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	AMHERTHNASOL

E – Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	AMHERTHNASOL
2	Gwrth-dlodi	AMHERTHNASOL
3	Trosedd ac Anhrefn	AMHERTHNASOL
4	Amgylcheddol	AMHERTHNASOL
5	Cydraddoldebau	AMHERTHNASOL
6	Cytundebau Canlyniad	AMHERTHNASOL
7	Arall	AMHERTHNASOL

F - Atodiadau:
Dim

FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):
--

<p>Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW.</p> <ul style="list-style-type: none">• Amryfal e-byst rhwng y Rheolydd Sgriwtini a Swyddogion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol• Cofnodion y Panel Canlyniad Sgriwtini a gynhaliwyd ar 28 Ebrill a 30 Mehefin 2016.	
---	--

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Hydref 2016
Subject:	Panel Canlyniad Sgriwtini: Gosod Tai Awdurdod Lleol (tai gwag) – adroddiad drafft
Deilydd(iaid) Portffolio:	Cynghorydd Aled Morris Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Shan Lloyd Williams, Pennaeth Tai
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Cadeirydd y Panel Cynghorydd G O Jones a'r Rheolydd Craffu
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A - Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

1 CEFNDIR:

- 1.1 Tra bod Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn ystyried adroddiad Chwarter 1 Cerdyn Sgorio Corfforaethol, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y cyfarfod ar 17 Medi, 2015 sefydlu panel o Aelodau Sgriwtini i edrych yn fanylach ar y dangosyddion perfformiad a oedd yn tanberfformio ar gyfer Gwasanaethau Tai, hynny yw: DP23 nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerir i osod unedau llety (heb gynnwys llety anodd ei osod), sy'n dangos yn goch ar hyn o bryd ar y cerdyn sgorio perfformiad.
- 1.2 Bu oedi cyn i'r Panel Canlyniad Sgriwtini gyfarfod am y tro cyntaf a chafodd pwysau gwaith yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd effaith ar yr amserlen a'r cynnydd gyda'r ffrwd gwaith hon. Yn y cyfamser, parhaodd DP 23 i berfformio'n wael. Dechreuodd y Panel ar ei waith ddechrau mis Ionawr, 2016.

2 METHODOLEG:

Strwythurwyd yr adolygiad yn unol â fframwaith polisi'r Awdurdod ¹ a oedd yn cynnwys datblygu cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau'r fethodoleg rheoli prosiect ² er mwyn sicrhau bod y Panel yn adolygu'r strwythur yn gadarn. Rhannwyd cylch gorchwyl³ y Panel Sgriwtini ac fe'u derbyniwyd gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm Sgriwtini (Chwefror 2016) a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Yn dilyn hynny, cyfarfu'r Rheolydd Sgriwtini gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i drafod cefnogaeth a gwaith y panel.

2.1 AELODAU CRAIDD Y PANEL:

Cynghorwyr:

- G O Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Lewis Davies

¹ Llawlyfr Aelodau Sgriwtini

² PRINCE 2

³ Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl y Panelau ac fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 11/04/16 ac maent i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

- Victor Hughes
- Raymond Jones
- Robert Ll Jones a'r
- Rheolydd Sgriwtini

2.2 SWYDDOGION A GYFRANNODD:

Pennaeth Tai, Shan Lloyd Williams
 Rheolwr Technegol Tai, Dafydd Rowlands
 Reolydd Opsiynau Tai, Alwena Pawson
 Rheolwr Trawsnewid, Uned Cynnal Tai (HMU), Ian Ryder
 Prif Swyddog Tai, Karen L. Roberts

2.3 AMLDER CYFARFODYDD:

Cytunwyd o'r cychwyn mai dim ond ychydig o gyfarfodydd y byddai eu hangen ar gyfer hyn. Hefyd byddai angen dau gyfarfod arall i swyddogion, i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd a drafftio adroddiad dilynol. Ionawr oedd yr amserlen ac adrodd i Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Mai.

3 TYSTIOLAETH/MEWNBWN A YSTYRIWYD:

Tystiolaeth a dderbyniwyd (ar lafar a dogfennau)-

Tystiolaeth lafar a dderbyniwyd:-

3.1 Cyfarfod Cyntaf o'r Panel a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2016

Aelodau'n bresennol: Cyngorwyr G Jones, R Jones, R Ll Jones ac L Davies.
 Swyddogion yn bresennol: Pennaeth Tai, Rheolwr Technegol Tai a'r Rheolydd Sgriwtini.

3.2 Cyfarfod o'r Panel a gynhaliwyd 10 Mai 2016

Aelodau'n bresennol: Cyngorwyr G O Jones, V Hughes, R Ll Jones ac L Davies
 Swyddogion yn bresennol: Rheolydd Opsiynau Tai, Rheolwr Trawsnewid HMU a'r Rheolydd Sgriwtini

Dogfennau a dderbyniwyd:-

- (1) Copïau o'r tri Cherdyn Sgorio Corfforaethol⁴
- (2) Tabl amseroedd ail-osod ar gyfartaledd ar sail dyddiau ar gyfer 2014-15 (**Atodiad 1**)
- (3) Diffiniad o dai gwag- Llywodraeth Cymru
- (4) Diffiniad o dai gwag - Housemark⁵
- (5) Tabl nifer y llety fesul mis a nifer dyddiau tai gwag ar gyfartaledd (**Atodiad 2**)
- (6) Proses tai gwag; Cyfnod gosod tai, Cyfnod Gwaith (cyflwynwyd i gyfarfod o'r Panel ar 10.5.16) (**Atodiad 3**)
- (7) Negeseuon e-bost rhwng y Rheolydd Sgriwtini a'r Prif Swyddog Tai Mehefin 2106 (cedwir fel papurau cefndir).

Cofnodion⁶ cyfarfodydd gyda nodiadau o gwestiynau gan Aelodau ac atebion gan swyddogion perthnasol.

4 CANFYDDIADAU

⁴ Mae Adroddiadau Monitro Perfformiad Chwarterol sy'n cynnwys Cardiau Sgorio Corfforaethol ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

⁵ Mae Housemark yn wasanaeth meincnodi tai annibynnol a gomisiynwyd gan Wasanaeth Tai'r Cyngor.

⁶ Cedwir cofnodion ar gyfer 23 Mawrth 2016 a 10 Mai 2016 y cyfeirir atynt yn Adran FF o'r Adroddiad fel dogfennau cefndir.

4.1 Cardiau Sgorio Corfforaethol:-

Cerdyn Sgorio Corfforaethol	Derbyniwyd mewn Pwyllgor(au) Sgriwtini Corfforaethol	(Targed 25 diwrnod) DP wedi ei gyflawni
Chwarter 1	17 Medi 2015	37.4 diwrnod
Chwarter 2	1 Rhagfyr 2015	38.4 diwrnod
Chwarter 3	14 Mawrth 2016	35.2 diwrnod
Chwarter 4	23 Mai 2016	33.7 diwrnod

4.2 Tabl amseroedd ail-osod ar gyfartaledd ar sail dyddiau ar gyfer 2014-15 (Atodiad 1)-

Roedd hwn yn amlinellu data perfformiad 'housemark' gan gymharu cyfartaledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr o safbwynt amseroedd ail-osod ar gyfer 2014-15 ar sail diwrnodau. Roedd y tabl yn dangos Cyngor Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru; oedd â'r cyfartaledd isaf o 22 diwrnod a oedd yn gyfforddus o fewn targed DP23 Ynys Môn o 25 diwrnod, Ynys Môn oedd yr ail uchaf yn y tabl - 54.3 diwrnod, ond yr uchaf oedd Merthyr Tudful – 75 diwrnod. Fodd bynnag, ar ôl cysylltu'n uniongyrchol â Chyngor Sir Ddinbych, canfuwyd bod eu perfformiad wedi codi yn y flwyddyn ganlynol; Chwarter 4 2015/16 DP23 i 58 diwrnod. Hefyd, ar ôl ymgynghori â'n tîm mewnol canfuwyd bod Chwarter 4 2014/15 DP23 ar gyfer Ynys Môn yn 27 diwrnod.

4.3 Diffiniad o dai gwag- Llywodraeth Cymru :

Canllawiau Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol 2008/09; Dangosodd y dylid cyfri nifer y dyddiau calendr a gymerir i osod unedau tai o'r dyddiad y daw'r denantiaeth flaenorol i ben hyd at y dyddiad y mae'r tenant newydd yn dechrau ei denantiaeth. Mae'n werth nodi nad yw'r DP bellach yn cael ei fesur gan Lywodraeth Cymru, dyma oedd y diffiniad llawn;

- "Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau llety parhaol yn ystod y flwyddyn. Dylid cyfri nifer y dyddiau calendr a gymerir i osod unedau llety o pan ddaw'r denantiaeth flaenorol i ben neu o'r adeg y caiff y llety ei drosglwyddo gan y contractwr yn achos unedau llety newydd eu hadeiladu neu eu caffael, hyd at y dyddiad y mae'r tenant newydd yn dechrau ei denantiaeth. Nodwch – dylai unedau y gellir eu gosod a oedd yn wag oherwydd gwaith trwsio mawr gael eu cynnwys yn y dangosydd. I bwrpas y ffigwr ni ddylid cynnwys tai a gafodd eu cyfnewid".

4.4 Diffiniad o dai gwag - Housemark:

"Nifer y dyddiau y mae llety'n wag yw nifer y dyddiau rhwng dyddiad olaf y denantiaeth a'r dyddiad y mae'r denantiaeth newydd yn dechrau.

Dyma ddiffiniad Housemark;

- "amser ail-osod cyfartalog (ail-osod tai arferol yn unig)
Mae'r dangosydd hwn yn mesur yr amser cyfartalog (**mewn dyddiau calendar**) i ail-osod llety gwag yn ystod y cyfnod. Fe'i cyfrifir trwy rannu cyfanswm nifer y dyddiau yr oedd llety'n wag yn y cyfnod, â nifer y llety a gafodd eu hail-osod yn y cyfnod.
Nifer dyddiau gwag llety yw nifer y dyddiau rhwng dyddiad olaf y denantiaeth a'r dyddiad y mae'r denantiaeth newydd yn dechrau.
- a) Nodwch – nid yw'r diwrnod y daw'r llety'n wag yn cyfri fel diwrnod un, felly os bydd tenantiaeth yn dod i ben ar ddydd Sul a'i fod yn cael ei osod y diwrnod canlynol, mae'n cyfri fel diwrnod ail-osod '0'. Nid yw amseroedd ail-osod negyddol yn bosibl.
- b) Nodwch – nid yw rhai mathau o osodiadau'n cael eu cynnwys yn y dangosydd hwn, sef
 - gosodiadau cyntaf/newydd
 - tai a gaiff eu cyfnewid

- tai a gaiff eu gosod yn olynol
- eraill nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys, yn unol â *COntinuous REcording* (CORE)
- nid yw tai sy'n cael eu hail-osod ac y gwnaed Gwaith Mawr arnynt yn cael eu cynnwys chwaith

Mae gwaith trwsio mawr yn cynnwys:-

- Gwaith trwsio strwythurol – gwaith yw hwn sy'n hanfodol i sicrhau bod prif rannau strwythurol y tai'n sefydlog ac yn gwrthsefyll y tywydd h.y. lloriau, waliau a thoeau. Bydd gwaith sylweddol i'r rhannau hyn yn cynnwys newid neu ailadeiladu sylweddol
- Gwaith safle - gwaith yw hwn i'r ardal o gwmpas ac yn benodol i'r annedd dan sylw ac mae'n hanfodol i ddiogelwch y tenantiaid (e.e. cael gwared ar asbestos, neu newid neu ailadeiladu rhannau sylweddol o waliau terfyn ansefydlog, llwybrau troed ayb.
- Gosodiadau gwasanaeth - gwaith yw hwn i wasanaethau adeiladu lle mae'r cyflwr wedi dirywio i'r fath fodd nes y gallai amharu ar amwynderau sylfaenol mewn annedd. (e.e. adnewyddu gosodiadau fel cyflenwadau nwy, trydan a dŵr, gwresogi ac awyru, lifftiau)
- Gwaith canlyniadol neu arall - gwaith yw hwn a wneir o ganlyniad i waith trwsio mawr fel ailosod neu ail-wneud gorffeniadau a ffitiadau
- Dylai unrhyw waith sy'n gwella annedd yn sylweddol (h.y. gwaith trwsio sy'n defnyddio cyfalaf yn unol â SORP 2010) gael ei ddosbarthu fel gwaith trwsio mawr. Enghreifftiau o'r gwaith yma fyddai ceginau, ystafelloedd ymolchi, systemau gwres canolog, lifftiau, toeau, ffenestri a strwythur".

Argymhellodd y Pennaeth Gwasanaeth i'r Panel fod diffiniad Housemark yn cael ei fabwysiadu ar gyfer mesur perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

4.5 Tabl nifer llety fesul mis a nifer dyddiau tai gwag ar gyfartaledd (Atodiad 2):

Mae Tabl 2 yn crynhoi perfformiad trosiant tai gwag rhwng Gorffennaf 2015 a Mawrth 2016. Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'r Gwasanaeth Tai'n gwneud gwaith buddsoddi cyfalaf penodol ar adeg Newid Tenantiaeth. Fel arfer, mae'r gwaith angen ei wneud ar ôl i denant blaenorol wrthod gwelliannau, fel newid cegin, ystafell ymolchi ac ail-wifro. Yn ystod 2015-16, cwblhawyd cyfanswm o 52 o geginau, 34 o ystafelloedd ymolchi ac ail-wifrowyd 91 o dai yn ystod y cyfnod yr oedd y tai'n wag er mwyn lleihau unrhyw darfu ar y tenantiaid newydd. Mae'r Gwasanaeth Tai'n deall bod buddsoddiad cyfalaf yn ystod y cyfnod y mae'r tai'n wag yn cael effaith niweidiol ar ffigyrau perfformiad, ond mae'n rhoi sicrwydd y caiff elfennau eu newid ac mae manteision o ran lechyd a Diogelwch yn gysylltiedig â gweithio ar dai sy'n wag.

4.6 Siart llif, proses tai gwag – cyfnod gosod tai a'r cyfnod gwaith (Atodiad 2):

Mae'r wybodaeth yn amlinellu'r llif gwaith yn yr Uned Cynnal Tai (HMU) a'r Tîm Gosod Tai ar gyfer (a) Diwedd tenantiaeth hyd at (b) Denantiaeth newydd, o wythnos 1 i wythnos 5 ac wythnos X (gallai nifer yr wythnosau o gyflwyno'r allweddi hyd at arwyddo amrywio yn sgil y cyfnod gosod) yn amodol ar flaenoriaeth.

- Dengys y siart fod disgwyl i'r tîm gosod tai drosglwyddo'r allweddi i'r Uned Cynnal Tai ar ddechrau wythnos 5 yn dilyn y cyfnod rhybudd i adael (4 wythnos). Yna caiff hwn ei gyfri fel diwrnod 1 o'r cyfnod y mae'r tîm'n wag. Gan ddisgwyl y bydd yr Uned Cynnal Tai'n dechrau gweithio o fewn 48 awr i ddiwrnod 1.
- Dywedodd swyddogion fod hyn yn dangos bod y broses fewnol yn syml ac mai cyflwr y tîm oedd y prif ffactor o ran faint o ddyddiau yr oedd yn ei gymryd i gael tîm gwag yn barod o safbwynt gwaith. Mae Swyddog Tai ac Archwiliwr HMU yn trefnu i ymweld â'r llety ar y cyd i'w archwilio cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r rhybudd i adael. Cadarnhawyd hefyd bod angen i'r timau gysylltu er mwyn bod yn ymwybodol o ddyddiad arwyddo disgwyledig y tenant newydd. Cysylltir â'r cwmni cyfleustodau i glirio unrhyw ôl-ddyledion. Caiff gwiriadau nwy a thrydan eu gwneud cyn i'r HMU ddechrau gweithio ar y tîm.
- Hefyd, i helpu i symleiddio'r broses, mae ffurflen newydd wedi ei chyflwyno. Mae'r broses newydd

yn gosod y baich ar y tenant i hysbysu'r Cyngor ynghylch unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eu tenantiaeth. Cadarnhawyd hefyd mai'r Tîm Rheoli Tai sy'n gyfrifol am adolygu'r rhestr, materion gwasanaethau a chyflwr yr ystâd.

- Rhesymau eraill sy'n achosi oedi o ran cael tai'n barod ac sydd o ganlyniad yn effeithio ar DP23, o bosibl yw'r gofyniad i gael mewnbwn therapyddion galwedigaethol a'r oedi a grëir gan y Cyswllt Tai wrth iddynt geisio gosod tai wedi eu haddasu ar gyfer cleientiaid addas. Fodd bynnag, eglurodd Pennaeth Rai eu bod wedi trafod rhannu amserlenni gyda Therapyddion Galwedigaethol er mwyn monitro'r rhaglen gofynion, a bod hynny'n cyflymu'r broses. Hefyd roedd proses newydd wedi ei sefydlu gyda Chyswllt Tai i ddileu'r oedi blaenorol a fu.
- Cadarnhaodd Rheolwr Trawsnewid fod tua 280 o dai gwag y flwyddyn ar hyn o bryd, a bod 3,381 o lety. Dywedodd aelodau fod hyn tua 10%.
- Eglurodd y Rheolwr Opsiynau Tai ei bod yn anos gosod pobl o'r rhestr tai bellach oherwydd y cymhorthdal ystafell sbâr, neu'r dreth ystafell wely. Er enghraifft, nid yw'n bosibl rhoi rhywun mewn tŷ 3 ystafell wely os yw'n unigolyn sengl, hyd yn oed os yw ar frig y rhestr. Rhaid i'r Gwasanaeth Tai sicrhau y gall pob tenant dalu'r rhent cyn gosod uned llety. Caiff aelodau eu hatgoffa fod yn rhaid i Wasanaethai Tai sy'n gysylltiedig â Stoc Tai'r Cyngor fod yn hunan-ariannol, hynny yw, mae'r rhent a ddaw i law'n talu am uwchraddio'r stoc tai a'r cyflogau ac unrhyw ddatblygiad newydd i dai'r cyngor.
- Hefyd, mae mwy o waith ail-osod yn cael ei gwblhau ar y cyfan mewn llai na 15 diwrnod, nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys gwaith newydd, fel ceginau, ystafelleodd ymolchi newydd ayb. Pan gwblheir y gwaith caiff yr allwedd eu trosglwyddo'n ôl i'r tîm gosod tai. Y nod yw sicrhau bod yr holl waith gosod ac archwilio tai wedi ei wneud o fewn y cyfnod rhybudd i adael h.y. 28 diwrnod. Dyma fyddai'r senario ddelfrydol: bod yr rhybudd i adael yn barod, yr archwiliad, y gwaith ail-osod wedi ei wneud a'r tîm trwsio'n trosglwyddo'r allwedd o fewn 15 diwrnod yn barod i denant newydd sydd eisoes wedi ei ddewis o'r rhestr dai ac sy'n barod i symud i mewn. Yna byddai'n rhaid ailadrodd hyn i bob tŷ bron i ddod â DP23 o dan lefel y targed.
- Ar hyn o bryd mae 900 o enwau ar y gofrestr dai ac mae'r gwasanaeth tai'n wrthi ei hadolygu. Mae'r broses adnewyddu'n lleihau'r posibilrwydd i denant newydd newid ei feddwl a'r oedi yn sgil hynny, a thrwy hynny, caiff y broses ei gwella. Mae'r Gwasanaeth Tai'n ymdrechu'n barhaus i wella'r broses hon gyda'r ddau dîm yn cydweithio i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Cadarnhawyd bod y tîm opsiynau tai wedi ymuno â'r tîm gosod tai. Cadarnhawyd hefyd bod yr adran dai'n tynnu'r llety y gwneir gwaith mawr e.e. ail-wifro ayb iddynt o'r ffigyrau ac yn cynnwys yn unig y llety hynny y gwnaed gwaith arnynt ar gyfer eu hail-osod. Mae hyn yn unol â diffiniad DP newydd Housemark ar gyfer tai gwag.

5 CASGLIADAU:

5. Penderfynodd y Pwyllgor Corfforaethol ar rôl y Panel Canlyniad Sgriwtini, fel y cynhwysir yn y cylch gorchwyl a fabwysiadwyd ganddo (CSC11.0416);-
 1. Deall trefniadau presennol yr Awdurdod o ran gosod unedau llety, a thrwy hynny natur y maes gwasanaeth hwn sy'n gysylltiedig â dangosydd perfformiad DP23, [hynny yw, nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod llety (heb gynnwys llety sy'n anodd ei osod), a oedd yn dangos yn goch yng ngherdyn sgorio perfformiad y Cyngor Medi 2015.
 2. Adolygu'r mesurau lliniaru a ddarparwyd gan Bennaeth Gwasanaeth Tai, o safbwynt codi lefel perfformiad blaenorol DP23.
 3. Adolygu'r rhesymeg y tu ôl i'r targedau a thrafod targedau posibl ar gyfer y dyfodol.
 4. Ystyried unrhyw ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth sy'n cysylltu â'r broblem tai gwag e.e.

ailstrwythuro, mewnbwn swyddogion /aelodau i'r broses gosod tai, gwaith grŵp ayb

Daeth y panel i gasgliadau ar sail y canfyddiadau ar gyfer y pedwar maes adolygu uchod.

5.1 Casgliad 1:

Roedd y Panel yn deall trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer gosod unedau llety, a thrwy hynny natur y gwasanaeth a'r rhesymeg y tu ôl ddangosydd perfformiad DP23. Roeddent yn cydnabod nad oedd yn ddangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol a'i fod o gyfres o Ddangosyddion Perfformiad y mae awdurdodau lleol tebyg yn eu defnyddio i gadw eu stoc tai, gan ddefnyddio safle Meincodi Housemark.

5.2 Casgliad 2:

Wrth adolygu'r mesurau lliniaru a ddarparwyd gan Bennaeth Gwasanaeth Tai, o safbwynt codi lefel perfformiad gwael DP23, roeddent yn derbyn bod y tanberfformiad yn deillio o'r ffaith bod y Cyngor yn wynebu galw na fu ei debyg o gynigion cyntaf yn cael eu gwrthod gan ddarpar denantiaid a newid y gwasanaeth tai a'r uned cynnal yn effeithio ar y canlyniad. Roedd adolygiad y Panel wedi cadarnhau'r mesurau lliniaru a gynigiwyd, hynny yw, fod cyfarfodydd rheolaidd i drafod tai gwag bellach yn cael eu cynnal yn ychwanegol at adolygiad parhaus o'r rhestr aros, bydd adroddiad ar y rhestr aros ym mis Gorffennaf. Bydd nifer yr achosion o wrthod hefyd yn cael sylw gan y Polisi Gosod Tai newydd, pan ddaw'n weithredol yr haf hwn.

5.3 Casgliad 3:

Er bod y Panel yn derbyn y rhesymeg y tu ôl i'r taged a osodwyd, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth yn yr adolygiad. Fodd bynnag, ni sefydlwyd a ellid gostwng y targed. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi cyrraedd y targed a thrwy hynny awgrymwyd y dylai'r Gwasanaeth Tai gynnal trafodaethau gyda'u hadran dai i benderfynu sut y cyflawnwyd hyn. Cysylltodd y Panel â CSDd ynghylch; DP23, ar gyfer 2014-15 a 2015/16, dangosodd:-

ALI	2014/15	2015/16
CSDd	22	58
CSYM	27	33.7

5.4 Casgliad 4:

Mae'r Panel yn cydnabod y datblygiadau yn y gwasanaeth a allai wella'r gosodiadau/problem tai gwag fel a ganlyn;

(4a) Roedd y ffaith bod rhai tenantiaid hŷn yn gwrthod caniatáu i waith uwchraddio gael ei wneudyn cyfrannu at beidio â chyrraedd y targedau ac nid oedd yn bosibl osgoi hyn. Unwaith y bydd y llety sy'n anodd eu gosod a Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'i gwblhau, bydd dangosydd perfformiad 23 yn gwella. Mae gan wasanaeth tai Ynys Môn safonau uchel o'i gymharu â rhai awdurdodau lleol eraill, yn benodol y rhai yn ne Cymru. Mae'n well gan Ynys Môn wneud y gwaith cyn i'r Tenantiaid newydd symud i mewn i'r tlety, yn hytrach na'r drefn mewn rhai awdurdodau eraill sy'n cynnal y gwaith ar ôl i'r tenantiaid symud i mewn. Fodd bynnag, mae Ynys Môn bellach yn ceisio cydbwysu hyn rhag colli rhent am hirach nag sydd raid. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen y llynedd gyda'r Tenantiaid presennol, yn cynnwys rhai a oedd newydd ddod yn Denantiaid, i gael eu barn ynglŷn â safon tai'r Cyngor sy'n barod i gael eu gosod.

(4b) Mae rhai tenantiaid yn gwrthod ychydig o ddiwrnodau cyn derbyn yr allwedd i lety penodol, am ba reswm bynnag. Mae hyn yn achosi anawsterau i'r tîm tai ac yn golygu bod tŷ'n wag am gyfnod hirach. Bydd polisi gosod tai newydd yn helpu'r problem hon, os bydd rhywun ar y rhestr dai'n gwrthod ddwywaith, yna bydd yn colli ei le ar y rhestr.

(4c) Mae'r Gwasanaeth Tai bellach yn trafod rhannu amserlenni gyda'r therapyddion galwedigaethol, sy'n rhaid eu cynnwys wrth ystyried gofynion rhai tenantiaid. Trwy gysylltu'n gynharach mae'n haws monitro'r rhaglen gofynion, sy'n cyflymu'r broses.

(4e) Wrth fynd o amgylch eu wardiau, dywedodd aelodau'r Panel eu bod yn aml yn sylwi ar unedau tai sy'n cael eu cynnal yn dda o'i gymharu ag eraill heb fod cystal. Awgrymwyd bod y swyddogion ystâd yn ymweld â thai bob blwyddyn ac yn cymryd camau priodol ynglŷn ag unrhyw broblemau neu bryderon. Mae hyn yn galw am gapasiti ychwanegol a bydd angen swyddogion ychwanegol i gynnal ymweliad blynyddol i'r holl dai.

6 ARGYMHELLION:

1. Derbyn mesurau lliniaru Gwasanaethau Tai ar gyfer perfformiad gwael 'Dangosydd Perfformiad Rhif 23'.
2. Cadw'r targed o 25 diwrnod yn hytrach na newid y targed ar gyfer DP23 ar gyfer 2016/17, ond gan fonitro'r un dangosydd perfformiad yn agos yn erbyn perfformiad awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru ac ailystyried ei gynnwys neu newid y targed ar gyfer 2017/18. Cynnig bod hyn yn cael ei ychwanegu ar y cerdyn sgorio er mwyn hwyluso'r gwaith monitro corfforaethol.
3. Mabwysiadu diffiniad newydd Housemark ar gyfer y DP wrth symud ymlaen (x cyf Para 4.4.)
- 4.. Briffio Aelodau ymhellach ynglŷn â'r Polisi Gosod Tai gan rannu canllawiau A4 i'r holl aelodau'n seiliedig ar y rhestr bandiau tai, yn cynnwys cyfeiriad penodol at y canlyniad os bydd tenant yn gwrthod cynnig o lety, gan gynnwys safonau cynnal gofynnol i denantiaid tai'r Cyngor.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol.

C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Sgrwtini fel y cynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

CH – Ydi'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ddim yn gwybod.

D – Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ddim yn gwybod.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Beth a ddywedwyd?

1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (Gorfodol)	Ystyriwyd Adroddiad Drafft Panel Canlyniad Sgrwtini gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 1/9/16 – ni wnaed unrhyw sylwadau.
2	Cyllid / Adran 151 (Gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol


7	Sgriwtini	Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 12 Medi, 2016. Cymeradwywyd adroddiad y Panel gyda'r argymhelliad i'w anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Amherthnasol

E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yw'n berthnasol)		
1	Economaidd	Amherthnasol
2	Gwrth-dlodi	Amherthnasol
3	Trosedd ac Anhrefn	Amherthnasol
4	Amgylcheddol	Amherthnasol
5	Cydraddoldebau	Amherthnasol
6	Cytundebau Canlyniad	Amherthnasol
7	Arall	Amherthnasol

F - Atodiadau:
Atodiad 1 - Tabl amseroedd ail-osod ar gyfartaledd, ar sail diwrnodau ar gyfer 2014-15.(Noder: cyflwynwyd i gyfarfod o'r Panel 23 Mawrth 2016) Atodiad 2 – Tabl nifer llety fesul mis a nifer dyddiau tai gwag ar gyfartaledd (fel uchod) Atodiad 3 – Proses tai gwag - Cyfnod gosod tai, Cyfnod Gwaith (cyflwynwyd i gyfarfod o'r Panel 10.5.16)

FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach):
Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini d/o Bev Symonds, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW. <ul style="list-style-type: none"> Panel Canlyniad Sgriwtini - Cofnodion Gosod Unedau Llety ALI (tai gwag); 23 Mawrth 2016 a 10 Mai 2016. Gwahanol negeseuon ebost rhwng y Rheolydd Sgriwtini a swyddogion yn y Gwasanaeth Tai

(2) Housemark – Void re-let results 2014-15 (Welsh and North West members)



National Performance Indicator Guidance (2008/09)

(3) Voids Definition – Welsh Government

The average number of calendar days taken to let lettable units of permanent accommodation during the year.

The number of calendar days taken to let units of accommodation should be counted from when the previous tenancy ends or at the time of the handover from the contractor in the case of newly acquired or built units of accommodation, to the date that the incoming tenant commences their tenancy.

Note – lettable units that were empty because that they are undergoing major repairs should be included in the indicator.

For the purpose of the denominator exclude mutual exchanges.

(4) Voids Definition - Housemark

Average re-let time in days (standard re-lets only)

This indicator measure the average time (**in calendar days**) to re-let vacant properties during the period. It is calculated by dividing the total number of days standard re-let properties were vacant in the period, by the number of standard re-lets in the period.

The number of days vacant of a standard re-let is the number of days between the tenancy end date and the tenancy start date.

- a) Note – the day the property goes vacant does not count as one day, hence if a tenancy ends on a Sunday and is let the following day, this counts as a “0” day re-let. Negative re-let times cannot exist.
- b) Note – certain types of lettings are excluded from the this indicator, namely
 - first/new lets
 - mutual exchanges
 - successions
 - other excluded as per the COntinuous REcording (CORE)
 - re-lets that have previously undergone Major Works are also excluded

Major repair works include:-

- Structural repairs – these are works that are essential to maintain stability and weather resistance in the main structural elements of a dwelling i.e. floors, walls and roofs. Major works to these elements will involve replacement or substantial reconstruction
- Site works – this is work to the area around and specific to the dwelling involved and is essential to the safety, security and protection of tenants (e.g. asbestos removal, or the replacement or substantial reconstruction of unstable boundary walls, footpaths etc.
- Service installations – this is work to building services where deterioration is such that the basic amenities in a dwelling could be seriously impaired. (e.g. Renewal of installations such as gas, electricity and water supplies, heating and ventilation, lifts
- Consequential and other works – these works required as a consequence of major repairs such as reinstatement or making good finishes and fittings.
- Any works that significantly improves the dwelling (i.e. capitalised repair as per SORP 2010) should be classified as major repairs. Examples are kitchens, bathroom, central heating systems, lifts, roofs, windows and structure.

Nifer yr Eiddo y mis – Nifer dyddiau gwag ar gyfartaledd										
Mis Gosod										
Categori	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Cyfanswm / Cyfartaledd dros y Flwyddyn
Pob eiddo	13	19	26	28	35	31	22	38	17	229
Eiddo anodd i'w gosod gan gynnwys yr uchod	5	6	3	5	7	10	7	6	NO	49
Cyfanswm y Dyddiau Gosod ar gyfartaledd	34.00	42.68	60.62	49.00	56.74	60.39	51.16	49.42	26.88	47.87
Cyfanswm y Dyddiau BCU ar gyfartaledd	21.00	21.00	28.87	22.15	21.59	21.03	19.95	18.17	16.69	21.16
Gwaith COT yn unig										
Nifer yr eiddo	10	18	19	20	21	16	13	28	11	156
Cyfanswm y Dyddiau BCU ar gyfartaledd	17.00	18.94	25.44	18.72	14.40	14.50	14.77	14.11	15.30	17.02
COT & Gwaith Cyfalaf										
Nifer yr Eiddo	3	1	7	8	14	15	8	9	6	71
Nifer y dyddiau BCU ar gyfartaledd	34.33	58.00	36.71	29.88	31.86	27.13	29.57	30.33	19.00	32.98

Nodiadau

Caiff yr holl ffigyrau eu tynnu o'r daenlen tracio eiddo gwag a lenwir gan y timau Gosod Tai a'r Uned Cynnal Adeiladu

Dylid nodi y gall fod mân amrywiaethau rhwng y data hwn a'r data a gafwyd yn uniongyrchol o Orchard. Caiff yr holl

ffigyrau eu gweithio allan ar gyfer y dyddiadau ail-osod eiddo yn y mis y cawsant eu hail-osod mewn gwirionedd

Mae dyddiau gosod yn seiliedig ar ddyddiad derbyn goriadau i'r dyddiad ail-osod gwirionedd.

Mae dyddiau BCU yn seiliedig ar y cyfnod o dderbyn y goriadau gan y Tîm Gosod Tai a'u

dychwelyd iddo

. COT = Gwaith newid tenantiaeth i gydymffurfio gyda'r safonau gosod

Gwaith Cyfalaf = Gosod ceginau, ystafelloedd ymolchi ac ati i gwrdd â SATC

VOIDS PROCESS – ALLOCATIONS PERIOD


WEEK 1 (EOT)

WEEK 1 (NEW TENANCY)

ALLOCATIONS

Tudalen 104

HOUSING MAINTENANCE UNIT



VOIDS PROCESS – ALLOCATIONS PERIOD


WEEK 5 (EOT)

WEEK “X” (NEW TENANCY)

ALLOCATIONS

Tudalen 105

HOUSING MAINTENANCE UNIT



VOIDS PROCESS – WORKS PERIOD

WEEK 5

WEEK "X" (Subject to Priority)

ALLOCATIONS

Tudalen 106

HOUSING MAINTENANCE UNIT

